

Gyda'n Gilydd
Adeiladwn Gymru
Newydd

O B LAID

GYMRU

Etholiad
Senedd
Manifffesto
2021



Plaid Cymru
Party of Wales

Cynnwys

O Blaid Cymru

4

Neges gan
Adam Price

6

Ein Gweledigaeth:
Rhaglen ar gyfer
Dyfodol Cymru

14

Lledaenu Ffyniant

24

Codi'r Genedl

32

Taclo Newid
Hinsawdd

40

Gofalu am Bobl
Cymru

50

Addysg

60

Amaeth, Cefn Gwlad
a Thwristiaeth

68

Cartrefi i Bawb

78

Cymru Gysylltiedig

88

Y Gymraeg

94

Diwylliant, y
Cyfryngau a
Chwaraeon

102

Cyfiawnder a
Chydraddoldeb

112

Annibyniaeth a
Gwladwriaeth newydd
Cymru

120

Cymru a'r Byd



O BLAID CYMRU

Ar y 6ed o Fai, bydd Cymru'n dewis Llywodraeth newydd.

Wrth i ni ddod allan o gysgod Covid-19, dyma'n cyfle ni i ddewis llwybr newydd, llwybr at ddyfodol gwell na all neb ond ni ei greu, dyfodol o bosibiliadau gwahanol, o egni newydd ac o obaith.

Rwy'n credu'n ddiffuant bod Plaid Cymru, yn yr etholiad yma, yn cynnig y rhaglen fwyaf radical o uchelgeisiol a thrawsnewidiol i gael ei chynnig gan unrhyw blaid mewn etholiad yng Nghymru ers 1945.

Mae'n edrych ymlaen at y Gymru hyderus, lwyddiannus y gallwn ni ei chreu – cenedl gyfartal lle mae pawb yn gydradd – ac mae'n amlinellu polisiâu ymarferol, cyraeddadwy sydd wedi'u costio'n llawn, y gallwn ni eu rhoi ar waith er mwyn symud yn nes at y Gymru newydd.

Mae'n cynnig cyfle i wlad sydd wedi dod i oed, gwlad y bydd ei phennod nesaf yn decach, yn wyrddach ac yn fwy llewyrchus na'r degawdau o drueni a ddaeth o'i blaen.

Mae'r manifest o yn amlinellu ein syniadau a'n gweledigaeth ar gyfer creu dyfodol disglair, gyda'n gilydd, o dan arweinyddiaeth ffres Llywodraeth Plaid Cymru.

Dyma'n cyfle ni i greu'r dyfodol newydd yna.

Fe fyddwn ni'n rhoi dechrau da i bob un o blant Cymru. Fe fyddwn ni'n cyflwyno cynllun fel llwybr at lwyddiant ar gyfer y wlad gyfan. Fe fyddwn ni'n sicrhau bod arian y cartref yn mynd ymhellach drwy roi chwarae teg i deuluoedd, gweithwyr a busnesau bach. Fe fyddwn ni'n dysgu gwersi'r pandemig, drwy gyflwyno gwasanaeth iechyd a gofal di-dor, ac fe fyddwn ni'n wynebu'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth drwy gymryd y camau radical mae'r eiliad yma mewn hanes yn eu mynnu. Fe fyddwn ni'n rhoi diwedd ar newyn plant, tloedi tanwydd a digartrefedd o fewn pum mlynedd. Ac yn ymrwymo i godi cenedl sy'n rhoi cyfle i bawb fyw bywyd da.

Y gwanwyn yma yw ein cyfle hanesyddol ni i benderfynu dod yn awduron ein dyfodol disglair ein hunain.

Am y tro cyntaf erioed yn etholiadau Senedd Cymru, mae gan bobl ein gwlad gyfle i bleidleisio i roi eu dyfodol eu hunain yn eu dwylo nhw eu hunain.

Rydyn ni'n credu mai annibyniaeth yw'r unig ffordd bendant a chynaliadwy o sicrhau cynnydd cymdeithasol ac economaidd. Felly, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn grymuso pobl Cymru i benderfynu ar ddyfodol ein gwlad mewn refferendwm annibyniaeth.

Ond mae'r gwaith o greu Cymru yfory yn dechrau heddiw. Fel eich Prif Weinidog, fe fydda i'n gweithredu ar sail y gred nad oes yr un broblem yng Nghymru na all Cymru ei datrys. Fe ddefnyddia i fy egni a'r holl rym fydd ar gael i fi i wireddu potensial ein gwlad a dod â chyfle a ffyniant i Gymru ben baladr.

A finnau wedi cael fy magu yn Nyffryn Aman, fy mam yn Saesnes a 'nhad yn löwr o Gymro, ro'n i'n gweld cefn gwlad Cymru i'r gorllewin a'r Gymru ddiwydiannol i'r dwyrain. Fe sylweddolais i bod yr hyn sy'n ein huno ni fel cenedl, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, yn drefol a gwledig, yn y gogledd, y de, y gorllewin a'r dwyrain, yn llawer pwysicach ac yn llawer mwy cadarn na dim byd sy'n ein gwahanu ni.

Fe fydda i'n Brif Weinidog ar gyfer Cymru gyfan a phawb yng Nghymru, ar gyfer Cymru heddiw a Chymru yfory, fel gwlad fydd yn benderfynol o wireddu ei photensial fel bod pawb o fewn ei ffiniau yn gallu gwireddu eu potensial hefyd.

Bydd y dyfodol yn well na'r gorffennol, os ydyn ni'n benderfynol o wneud i hynny ddigwydd. Felly beth am adeiladu y Gymru newydd gyda'n gilydd a chymryd y cam cyntaf yma ar y 6ed o Fai. Pleidleisiwch o blaid Cymru.

Adam Price

EIN GWELEDIGAETH

Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

Er mwyn edrych ymlaen, mae'n rhaid i ni edrych yn ôl. Mae'n rhaid i ni ddeall ein problemau er mwyn cael hyder y bydd y dyfodol yn wahanol. Mae'r rhaglen hon ar gyfer Llywodraeth Plaid Cymru wedi'i seilio ar hanes ein cenedl, ac wedi'i siapia gan brofiadau ein pobl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwersi'r pandemig ar gyfer dyfodol ar ôl Covid

1. Ein cyfrifoldeb ni

Does dim byd na allwn ni ei wneud gyda'n gilydd fel cenedl. Drwy ddilyn ein llwybr ein hunain – y llwybr cywir i'n cymunedau a'r llwybr cywir i Gymru – rydyn ni wedi gweld yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o weithredu. Mae argyfwng Covid wedi dangos beth yw gwerth y lefel gyfyngedig o hunan-lywodraeth sydd ganddon ni, a pha mor bwysig yw gweithredu'n annibynnol ar San Steffan.

O system olrhain cysylltiadau gynnar Ceredigion, i'r timau gofal sylfaenol lleol a ddaeth at ei gilydd, ar ôl diflasu ar aros i system iechyd ganolog sydd mor bell o'u cymunedau drefnu dosbarthu'r brechlyn, i wneud hynny drostyn nhw eu hunain. Rydyn ni wedi gweld mai'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru sydd yn y sefyllfa orau i'n cadw ni'n ddiogel. Bydd y datrysiadau i'n problemau yn dod ganddon ni i gyd, gyda'n gilydd, ac nid gan rym pellennig senedd arall mewn lle arall, na drwy lywodraeth na wnaethon ni ei hethol yn ymyrryd yn ein materion ni.

2. Mae'r gwasanaethau a'r nwyddau rydyn ni i gyd yn dibynnu arnyn nhw yn amhrisiadwy

Rydyn ni bellach yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi faint rydyn ni'n dibynnu ar wasanaethau sylfaenol sy'n hanfodol er mwyn goroesi, a gwerth darparwyr fel ein

cynhyrchwyr bwyd. Allwn ni ddim fforddio peidio â buddsoddi'n briodol yn yr hanfodion mwyaf sylfaenol. Serch hynny, mae Cymru wedi'i chlymu i system wleidyddol San Steffan sy'n gynyddol seiliedig ar hunanoldeb a thrachwant. Nid yw'n adlewyrchu ein gwerthoedd, nac yn gwarantu ein hanghenion mwyaf sylfaenol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu contractio allan a'u torri i'r asgwrn gan ddegawd o lymder San Steffan, ac wedi'n gadael ni'n fregus ac yn amharod yn llygad y storm. Yn nes at adref, rydyn ni wedi gweld system arall sydd wedi mynd o chwith yn ddifrifol – system addysg uwch sy'n cael ei gyrru nid gan addysg, ond gan y farchnad, sy'n blaenoriaethu elw dros fyfyrwyr ac iechyd y cyhoedd. Rydyn ni wedi gweld mor dwyllodrus yw'r syniad o ddarparu gofal – un o'n hanghenion mwyaf sylfaenol fel pobl – am elw. Yng Nghymru, fel yn Lloegr, rydyn ninnau hefyd wedi cwmpo i'r fagl o wario arian cyhoeddus i ddenu cwmnïau o'r tu allan i ddarparu swyddi, yn hytrach na thyfu ein busnesau bach a chanolig ein hunain. Rydyn ni wedi rhoi cymorthdaliadau hael gan y llywodraeth er mwyn i'r rhwydwaith trafnidiaeth – sydd yno i'n gwasanaethu ni i gyd – gael ei redeg fel busnes, gyda pherchnogion y busnes yn cerdded i ffwrdd pan nad oes mwy o elw i'w wneud. Yn y pen draw, y trethdalwr sy'n gorfod talu'r bil a thalu'r pris o gydymffurfio â San Steffan, a dilyn meddylfryd San Steffan.

3. Mae unrhyw beth yn bosib, os ydyn ni eisïau iddo ddigwydd

Mae'r pandemig wedi gorfodi newid, gan ddangos beth sy'n bosib pan fydd gwleidyddion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gorfod newid ffyrdd cyfarwydd a chyfforddus o weithio, a newid hynny'n gyflym. Mae llawer o drafod am roi diwedd ar ddigartrefedd wedi bod ers ugain mlynedd o ddatganoli, ond roedd diffyg ewyllys wleidyddol. Pan darodd Covid, gorfodwyd yr un hen sefyllfa flinedig i weithredu, a daeth digartrefedd i ben dros nos ar



Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

strydoedd Caerdydd. Allwn ni ddim dychwelyd at sut roedd pethau o'r blaen.

4. Mae Prydain wedi torri

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld ochr orau ac ochr waethaf dynoliaeth. Y gorau – yng ngwaith diflino a phenderfynol ein gweithwyr allweddol a'n gwirfoddolwyr lleol. Y gwaethaf – yn y gwleidyddion sydd mewn grym yn San Steffan, a ymatebodd yn rhy hwyr ac sydd wedi achosi anghydraddoldeb eithafol, a gyda hynny, y gyfradd farwolaethau uchaf yn Ewrop.

Yn wir, mae'r pandemig wedi dangos realiti Prydain fodern i ni: gwladwriaeth sydd wedi'i diffinio gan dlodi dwys, wedi'i rheoli gan elft llygreddig sy'n rhoi contractau i'w cyfeillion ac yn gwadu ffyrlo i'w cymdogion, gan wario biliynau ar system olrhain cysylltiadau fethedig sy'n cael ei redeg am elw gan y sector preifat. Gwelson ni'n ddiamheuaeth nad yw San Steffan yn darparu 'polisi yswiriant' o fath yn y byd, wrth iddi beidio â thalu pan oedd angen ymestyn y cynllun ffyrlo arnon ni er mwyn cael Cyfnod Atal hirach ym mis Tachwedd y llynedd. Mewn gwledydd datblygedig, y rhai sydd â'r anghydraddoldebau uchaf yw'r rhai sydd â'r nifer uchaf o farwolaethau – yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig – dwy gymdeithas nad ydyn nhw'n unedig o gwbl, ond sydd wedi'u rhannu gan ddsbarth, daearyddiaeth, hil a chyfoeth.

Ond erbyn 2021, Cymru oedd wedi dioddef y gyfradd farwolaethau waethaf, hyd yn oed yng nghyd-destun Prydain. Gwelson ni hefyd nad yw San Steffan yn gyfrwng i ddatblygu buddiannau gweithwyr nac i wella bywydau neb – fel Cymru, mae effeithiau'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau ôl-ddiwydiannol yng ngogledd Lloegr hefyd, ac wedi gwaethygu gwahaniaethau rhanbarthol hanesyddol gwladwriaeth Prydain. Ar y llaw arall, fel gwlad annibynnol, gallen ni fod wedi talu pobl i ynysu'n gywir ac achub y blaen ar y feirws.

5. Mae'n rhaid i bobl Cymru gymryd yr awenau gyda'u dyfodol eu hunain

Fel pe bai amheuaeth erioed, gallwn ddweud nawr â sicrwydd nad yw San Steffan yn gweithio i Gymru. Pa bynnag blaid Lundeinig sydd mewn grym, fydd Cymru byth yn flaenoriaeth i San Steffan, ac ni fydd ein blaenoriaethau yn cael eu gwarantu gan San Steffan. Mae Cymru a San Steffan yn ddau fydysawd cynyddol wahanol, lle:

- Mae cynnydd o 1 y cant yng nghyflogau nyrsys, a chynnydd o 44 y cant ar gyfer arfau niwclear.
- Mae tanwariant hanesyddol yn rheilffyrdd ein gwlad, tra bod mwy na £100 biliwn yn cael ei wario ar HS2 a fydd yn cysylltu'r wlad drws nesaf, heb ddim cyllid o ganlyniad ar gyfer rheilffordd cyflymder uchel rhwng gogledd a de ein gwlad.
- Caiff £12 biliwn eu gwario ar adnewyddu Palas San Steffan, tra bod senedd etholedig Cymru yn cael ei hanwybyddu a'i phwerau yn cael eu tynnu oddi arni, gan danseilio'r datganoli y pleidleisiodd pobl Cymru drosto ar ddim llai nag 14 achlysur, drwy ddau refferendwm a thrwy ethol mwyafrif o blaid datganoli ym mhob etholiad ers 1997.

Mae'r amser wedi dod i Gymru ddewis ei dyfodol – dyfodol yn ein dwylo ni, neu ddyfodol wedi'i bennu yn San Steffan a gan San Steffan.

Y pandemig blaenorol

Mae'r gair 'argyfwng' yn deillio o'r gair 'cyfwng' – lle daw cyfuniad o amgylchiadau at ei gilydd i greu gwasgfa. Ac mae Covid-19 yn sicr wedi amlygu'r argyfwng blaenorol sydd wedi bod yn gwasgu ar adeilwaith cymdeithas Cymru, a chyfleodd bywyd ein pobl, am lawer yn rhy hir. Clefyd tlodi, cyflogau isel a thai o safon wael, pla anghydraddoldeb rhywedd a hil, dadfeiliad dinesig ein diffyg democrataidd. Mae'r ystadegau'n siarad drostyn nhw eu hunain.

- **Tlodi plant** – Mae 70,000 o blant mewn tlodi yng Nghymru nad ydyn nhw hyd yn oed yn cael prydau ysgol am ddim.

Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

- **Argyfwng tai** – Mae 67,000 o deuluoedd ar restr yn aros am dŷ.
- **Cyflogau tldi** – Mae dros hanner ein gweithwyr gofal yn cael eu talu'n is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- **Disgwyliad oes** – Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd marwolaethau anorfod ddwywaith mor debygol yn ardaloedd tlawd Cymru o gymharu ag ardaloedd mwy cyfoethog y wlad.
- **Anghydraddoldeb hil** – Rydych chi bum gwaith a hanner yn fwy tebygol o fynd i'r carchar os ydych chi'n ddu na phe baech chi'n wyn yn yr Unol Daleithiau; yng Nghymru, mae'r ffigwr hwn yn codi i chwech a hanner.
- **Trais ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd** – Caiff menyw ei lladd gan ddyn bob tri diwrnod yn y Deyrnas Unedig.
- **Amgylchedd** – Mae llygredd aer yn achosi tua 2,000 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn ac mae'r targed allyriadau carbon Net Sero cyfredol erbyn 2050 yn annigonol i gwrdd â graddfa'r her sy'n ein wynebu.
- **Diffyg gwybodaeth** – Nid yw bron i 40% o bobl Cymru yn gwybod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lechyd, wrth i negeseuon allweddol iechyd y cyhoedd gael eu drysu yn ystod y pandemig gan gyfryngau'r Deyrnas Unedig nad ydynt yn gwasanaethu anghenion Cymru.
- **Diffyg democrataidd** – Dydy Cymru erioed wedi ethol mwyafrif Toriaidd yn Aelodau Seneddol, ond rydyn ni wedi cael Llywodraethau Ceidwadol yn San Steffan am ddau draean o'r cyfnod ers yr Ail Ryfel Byd.

Wynebu'r dyfodol gyda'n
gilydd – adeiladu Cymru well

Nid dyma'r wlad ddylen ni fod. Nid dyma'r wlad allwn ni fod. Ac nid dyma'r wlad rydyn ni'n dymuno bod.

Mae Cymru ar groesffordd. Mae'r etholiad hwn yn edrych tua'r dyfodol. Rhaid i'r dyfodol fod yn wahanol i'r gorffennol, ac fe fydd yn wahanol, os dewiswn ni ein dyfodol ein hunain. Dyna'r cyfle hanesyddol sydd ganddon ni o'n blaenau yn yr etholiad hwn. Yn debyg i'n cyndeidiau ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gallwn ni benderfynu wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd, ac adeiladu gwlad newydd. Yn yr ugeinfed ganrif, Prydain oedd hynny, ond bellach yn yr unfed ganrif ar hugain, Cymru newydd yw hi.

Mae gan Gymru botensial anhygoel fel cenedl. Dydy'r problemau rydyn ni wedi'u profi ers cenedlaethau ddim yn anochel. Gallwn ni ddatrys y problemau hyn, gyda'n gilydd. Ond y cam cyntaf yw ethol Llywodraeth newydd, sydd â'r uchelgais i adeiladu Cymru newydd, fydd yn well na'r un a fu.

Bydd Rhaglen Lywodraethu Plaid Cymru yn seiliedig ar gyflawni pum prif nod.

1. Dechrau da mewn bywyd i bob plentyn

- Prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd gan ddefnyddio'r cynnyrch gorau o Gymru.
- Buddsoddi mewn 4,500 o athrawon a staff cynorthwyol ychwanegol, lleihau maint dosbarthiadau, rhoi gwerth ar y proffesiwn addysgu.
- Gofal plant am ddim i bawb o 24 mis oed ymlaen.

2. Llwybr at lwyddiant i'r wlad gyfan

- Sbardun Economaidd Gwyrdd er mwyn helpu i greu 60,000 o swyddi.
- Gwarant o swydd neu hyfforddiant o safon uchel i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
- Benthyciadau di-log i gefnogi busnesau bach i adfer ac adfywio ar ôl Covid.

3. Chwarae teg i deuluoedd

- Torri biliau cyfartalog y Dreth Gyngor, gan helpu pob punt i fynd ymhellach.
- Taliad ychwanegol o £35 y plentyn bob wythnos i deuluoedd sy'n byw o dan y ffin tldi.
- 50,000 o dai cymdeithasol a fforddiadwy, a rhenti teg ar gyfer y dyfodol.

Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

4. Y gwasanaeth iechyd a gofal gwladol gorau

- Hyfforddi a recriwtio 1,000 o Feddygon newydd a 5,000 o Nyrsys a staff cysylltiedig newydd.
- Gofal personol am ddim pan fydd angen ar gyfer yr henoed, gan roi diwedd ar y rhaniad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwarantu isafswm cyflog o £10 yr awr i weithwyr gofal.

5. Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd


- Cyflwyno Cenhadaeth Cymru 2035 i ddatgarboneiddio ac i gyrraedd allyriadau sero-net.
- Sefydlu Ynni Cymru fel cwmni datblygu ynni gyda tharged o gynhyrchu 100 y cant o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.
- Cyflwyno Deddf Natur gyda thargedau statudol i adfer bioamrywiaeth erbyn 2050.

Yr ymrwymïadau hyn yw sylfaen ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Ond os ydyn ni am wireddu ein potensial fel cenedl, mae angen i Gymru fod â'r grym i wneud yr holl benderfyniadau mawr sy'n effeithio ar ein bywydau bob dydd.

Nid dim ond diwygio'r cyfansoddiad fydd annibyniaeth, dyna'r unig ffordd y byddwn ni'n creu dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer ein gwlad yn y pen draw, gan sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac economaidd.

Dyfodol Cymru yn nwylo Cymru

Bydd Prif Weinidog Plaid Cymru yn gadael i bobl Cymru, ac nid San Steffan, benderfynu ar ein dyfodol, a bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn cynnal refferendwm ar annibyniaeth erbyn 2026, gan roi hawl ddemocrataidd i bobl Cymru benderfynu a ydyn nhw'n cytuno gyda ni y dylai pob penderfyniad sy'n effeithio ar Gymru gael ei wneud yng Nghymru.



Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

Cymru ar ei newydd wedd erbyn 2030 – cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Plaid Cymru

Bydd yr ymrwymïadau sydd wedi'u cynnwys yn y manifest o hwn yn rhoi Cymru ar lwybr newydd. Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n cyflawni'r ymrwymïadau yn y rhaglen lywodraethu hon sydd wedi'i chostio'n llawn yn y tymor cyntaf, ond maen nhw hefyd yn ffurfio rhan o'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol Cymru, a Chymru wedi'i thrawsnewid erbyn 2030. Byddwn ni'n llywodraethu ar gyfer heddiw ac yn paratoi ar gyfer yfory, i greu gwlad sydd wedi'i thrawsnewid erbyn troad y degawd hwn, wrth i ni fynd ati i adeiladu cenedl annibynnol newydd, gynaliadwy, gyfartal, a chyfiawn yn gymdeithasol Dyma'r amcanion sy'n sail i'n cenhadaeth genedlaethol Cymru 2030.

- Bydd economi Cymru dan berchnogaeth leol ac yn talu cyflogau uchel.
- Bydd swyddi a buddsoddi'n cael eu rhannu'n deg ar draws y wlad gyfan.
- Bydd yr economi'n fwy cytbwys ac amrywiol, a bydd ein harian cyhoeddus yn gryfach.
- Bydd y doniau sydd ganddon ni yng Nghymru'n cael eu datblygu a'u cynnal.
- Bydd ynni'r wlad yn hollol adnewyddadwy ac wedi'i berchnogi a'i gynhyrchu yn lleol.
- Bydd Cymru wedi'i datgarboneiddio ac yn cynhyrchu dim allyriadau.
- Bydd ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth yn ffynnu.
- Bydd ein sector amaethyddol yn rhan allweddol o system fwyd gynyddol leol.
- Bydd pobl yn byw bywydau hirach a mwy heini, mewn cymdeithas iachach sy'n atal salwch.
- Bydd pobl hŷn yn cadw annibyniaeth ac urddas wrth iddyn nhw heneiddio, ac yn cael cymorth pan fydd ei angen arnynt.
- Bydd ein dinasyddion ymhlith y rhai mwyaf dysgedig a medrus yn y byd.
- Bydd ein cymdeithas yn amddiffyn menywod, plant a'r rhai sy'n agored i niwed.

- Bydd gan bawb hawl i gartref.
- Bydd grym ac atebolrwydd yn aros mor agos â phosib at y bobl, a bydd sefydliadau cenedlaethol ein gwlad yn atebol i'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.
- Ni fydd pleidlais neb yn cael ei gwastraffu, a bydd ein democratiaeth yn adlewyrchu pob llais ac yn cynrychioli poblogaeth amrywiol Cymru ar bob haen o'r llywodraeth.
- Bydd dinasyddion Cymru'n wybodus ac wedi'u hymgysylltu, a byddan nhw'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddal penderfynwyr i gyfrif.
- Bydd y Gymraeg yn cael ei normaleiddio a'i defnyddio fel iaith fyw, iaith gwaith, a iaith gweinyddiaeth gyhoeddus a phreifat.
- Bydd hiliaeth, agweddau misogynistaidd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu ac anoddefgarwch yn cael eu gwaredu.
- Bydd ein dinasyddion yn rhannu dealltwriaeth gyffredin am hanes diwylliannol, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaeth, profiadau a safbwyntiau pobl Cymru, a bydd hunaniaeth genedlaethol Cymru'n cael ei chryfhau fel bond cynhwysol a blaengar er budd pawb.
- Bydd gwladwriaeth Cymru'n ymgorffori hawliau sylfaenol ei dinasyddion mewn siarter ysgrifenedig o hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, yn seiliedig ar ddinasyddiaeth genedlaethol gyfartal sy'n croesawu goddefgarwch ac amrywiaeth.
- Bydd cymunedau ym mhob rhan o Gymru'n gynaliadwy, wedi'u cysylltu, a bydd gan unigolion fynediad at gyfleustodau a gwasanaethau'n nes at adref.
- Bydd cysylltiadau teithio rhwng y gogledd a'r de, a'r dwyrain a'r gorllewin, yn gwneud teithio yng Nghymru yn haws ac yn gyflymach.
- Bydd band llydan cyflym iawn ar gael i bob eiddo a busnes yng Nghymru.
- Bydd Cymru'n chwarae ei rhan fel cenedl yn ei rhinwedd ei hun ar lwyfan byd-eang, gan anelu am heddwch.
- Bydd Cymru'n wynebu cyfrifoldebau ein gorffennol, a realiti ein presennol.

Ein Gweledigaeth: Rhaglen ar gyfer Dyfodol Cymru

Cartref i bawb yn y Blaid – a Chymru i bawb

O'r dechrau un, mae Plaid Cymru wedi cael ei gyrru nid gan y syniad o beth yw Cymru, ond beth allai fod. Er mwyn adeiladu cymuned genedlaethol sy'n seiliedig ar ddinasyddiaeth deg, parch at draddodiadau a diwylliannau gwahanol, a gwerth cyfartal unigolion, waeth beth yw eu hil, dewis iaith, cenedligrwydd, rhywedd, lliw, ffydd, rhywioldeb, oedran, gallu na chefnidir cymdeithasol. Dyma yw ein gwerthoedd craidd.

Fydd dyfodol mwy disglair Cymru, o dan arweinyddiaeth ffres Llywodraeth Plaid Cymru, y byddwn ni'n ei gyflwyno yn y tudalennau hyn ddim ond yn bosib gyda'n gilydd.

Mae'r syniad o Gymru fel cymuned o gymunedau, wedi'u huno yn eu hamrywiaeth, wedi bod wrth galon cenhadaeth Plaid Cymru erioed. Pan fydd ein cenedl yn ymuno fel un – gogledd a de, dwyrain a gorllewin, dinasyddion hen a newydd – ac yn mentro gwreiddu'r grym sydd ganddon ni – fydd dim byd yn sefyll yn ein ffordd.

Mae adeiladu Cenedl Gyfartal lle mae Pawb yn Gydradd – gwlad annibynnol sy'n edrych allan ar y byd ac yn gadael y byd i mewn – wrth wraidd ein rhaglen.

Mae cartref i bawb yn y Blaid, a bydd y Gymru y byddwn ni'n ei hadeiladu gyda'n gilydd yn Gymru i bawb.

Gadewch i ni wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd.



LLEDAENU FFYNIANT

Crynodeb

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">– Creu Sbardun Economaidd Gwyrdd gwerth £6 biliwn a fydd yn creu 60,000 o swyddi yn ystod y tymor pum mlynedd.– Sefydlu Gwarant Swydd leuenctid cenedlaethol i bawb rhwng 16 a 24 oed.– Seilio strategaeth economaidd amgen ar yr egwyddor Lleol yn Gyntaf, gan gynyddu cyfran contractau cwmnïau o Gymru o'r gyllideb caffael cyhoeddus o 52 y cant i 75 y cant.– Creu Ffyniant Cymru, sef asiantaeth ddatblygu hyd braich, i ganolbwyntio ar dyfu cwmnïau bach a chanolig Cymru. | <ul style="list-style-type: none">– Datblygu Clystyrau Arloesi Diwydiannol ym meysydd allweddol yr economi.– Ymestyn rôl Banc Datblygu Cymru a chefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol i helpu busnesau dan berchnogaeth ddomestig i dyfu eu cyfran o'r farchnad. |
|---|--|



Lledaenu Ffyniant

Nodau Economaidd: Ymagwedd Newydd

Mae economi Cymru'n methu â darparu elfennau sylfaenol o fywyd priodol i ormod o'n pobl. Mae'n rhaid i hynny newid, ac fe fydd hynny'n newid.

Wrth galon ein polisi economaidd bydd sicrhau bywyd priodol i'n holl ddinasyddion a lleihau anghydraddoldeb. Mae'n rhaid i gynnydd economaidd fod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni cyfiawnder cymdeithasol, lles unigol a gwydnwch amgylcheddol. Mae'r economi'n ymwneud â llawer mwy na chynhyrchu nwyddau ar gyfer y farchnad, mae'n ymwneud â phopeth sydd ei angen arnon ni i dyfu, i ffynnu, ac i lwyddo fel cymuned.

Byddwn ni'n newid sut rydyn ni'n mesur llwyddiant economaidd, gan ddefnyddio dau brif fesuriad:

1. Cynnydd yn nifer y swyddi o ansawdd da, a dosbarthiad mwy teg o'r swyddi hynny.
2. Gostyngiad yn yr anghydraddoldeb o ran incwm gwario net aelwydydd yng Nghymru o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, ac o fewn Cymru, yn seiliedig ar le, rhywedd ac ethnigrwydd

Wrth gymharu perfformiad Cymru'n rhyngwladol, byddwn ni'n defnyddio dangosydd mwy cynhwysfawr na chynnyrch mewnwladol crynswth – sef Mynegai o Les Economaidd Cynaliadwy neu ddangosydd cyfwerth a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol.

Bargen Werdd Cymru

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n cymryd camau ar unwaith i gynllunio a darparu rhaglen fuddsoddi gwerth £6 biliwn i gefnogi adferiad economaidd parhaus Cymru ar ôl argyfwng

Covid-19. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn mewn seilwaith, a £2 biliwn o wariant ychwanegol ar yr economi sylfaenol yn ystod y tymor o bum mlynedd.

Byddwn ni'n rhoi tasg i'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar unwaith i weithio ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Banc Datblygu, partneriaid llywodraeth leol ac eraill, i droi adroddiad Cyflwr y Genedl sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai yn rhaglen fanwl o brosiectau y gellir buddsoddi ynddynt a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer Cymru wydn newydd.

Bydd cynlluniau buddsoddi'n cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- Ymestyn a thrydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd.
- Ôl-osod miloedd o gartrefi i'r safonau amgylcheddol uchaf.
- Adeiladu miloedd o gartrefi cymdeithasol newydd i fynd i'r afael â'r angen am gartrefi.
- Datblygu system fwyd ac amaeth gynaliadwy i Gymru.
- Buddsoddi mewn ymchwil datgarboneiddio (er enghraifft, ar gyfer sectorau diwydiannol allweddol fel dur, a chryfder newydd Cymru ym maes ynni morol a hydrogen).
- Tyfu perchnogaeth Cymru ar y sector adnewyddadwy.
- Adeiladu'r cyfleusterau i alluogi Cymru i ddod yn arweinydd byd-eang ym maes gwynt ar y môr.
- Ail-bwrpasu siopau a swyddfeydd gwag.
- Darparu cysylltiad Gigabit ledled Cymru.
- Sicrhau bod swyddi a buddsoddiadau newydd o fudd i'r grwpiau a'r llefydd sy'n wynebu rhwystrau strwythurol rhag gweithio ac sydd wedi'u tangynrychioli yn y gweithle, fel rhan o'r agenda Cenedl Gyfartal.

Lledaenu Ffyniant

Ariannu Bargaen Werdd Cymru

Ni all y setliad datganoli presennol ymdopi ag economeg Covid-19 nac effaith barhaus Brexit. Mae angen ehangu grymoedd economaidd Cymru, ac yn enwedig cynyddu capasiti Llywodraeth Cymru i fenthg er mwyn buddsoddi ar y ffordd i adferiad. Yn y tymor byr, mae'n rhaid rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ymdrin â'r argyfwng presennol. Dylai hyn gynnwys:

- Tynnu'r cyfyngiad benthg blynyddol o £150 miliwn.
- Tynnu'r cyfyngiad blynyddol ar dynnu arian i lawr o gronfa wrth gefn Cymru.
- Cynyddu capasiti benthg cyffredinol Llywodraeth Cymru o £1 biliwn i £5 biliwn dros bum mlynedd, gyda rhan helaeth o hynny yn y dechrau, er mwyn mynd i'r afael ar unwaith ag effaith economaidd Covid-19 a Brexit. Amcangyfrifir y byddai taliadau llog yn £120 miliwn y flwyddyn, a fyddai'n dod o gyllideb Llywodraeth Cymru.

Serch hynny, os bydd San Steffan yn gwrthod rhoi'r capasiti benthg uwch sydd ei angen arnon ni, byddwn ni'n gweithredu cynllun amgen. Mae ein cynllun ariannu manwl amgen yn seiliedig ar yr elfennau canlynol:

- Bargaen Dwf Werdd genedlaethol ar y cyd ag awdurdodau lleol, a fydd yn adeiladu ar y Bargeinion Dinesig a Thwf sy'n bodoli eisoes.
- Rhagor o ddefnydd o Gyfalaf Trafodion Ariannol, er enghraifft wrth ariannu prosiectau tai fel yr awgrymwyd gan Gyngor Sir Gâr a'r gymdeithas dai Tirion.
- Defnydd priodol o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan addasu ei ddefnydd i ardaloedd ychwanegol.
- Buddsoddiad gan Fanc Seilwaith y Deyrnas Unedig a buddsoddwyr sefydliadol eraill fel Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Archwilio posibiliadau Bond Gwyrdd Cymru fel y cynigiwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Lledaenu Ffyniant

Ochr yn ochr â'r rhaglen fuddsoddi hon, byddwn ni'n rhoi sylfaen statudol i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, gan ymestyn ei gwmpas i gynnwys seilwaith cymdeithasol a'i uno gyda Chomisiwn Dylunio Cymru, gan ei droi'n 'ganolfan ragoriaeth' ar gyfer dylunio a darparu seilwaith cyhoeddus.

Gwarant Swydd Ieuenctid Cymru

Yn wyneb y posibilrwydd o ddiweithdra ar raddfa eang ymhlith pobl ifanc, byddwn ni'n gwarantu cyflogaeth ddiogel, ar Gyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, i bob person ifanc rhwng 16 a 24 oed nad dynt mewn addysg amser llawn.

Byddwn ni'n creu Cynllun Cyflogaeth Cenedlaethol i gyflwyno'r swyddi sydd eu hangen arnon ni i gyflawni'r Gwarant Ieuenctid. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ein cynlluniau ar gyfer cynyddu swyddi a llefydd hyfforddi ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant ac addysg, adeiladu ac yn yr economi carbon isel.

Gan Gymru, i Gymru: Economi Fwy Doeth

O'r holl economïau datblygedig, mae Cymru ymhlith yr isaf o ran perchnogaeth leol ar fusnesau. Mae'n rhaid i hyn newid. Dro ar ôl tro, mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i ddenu buddsoddiad newydd, ac yna mae'r buddsoddwr un ai'n allforio'r enillion neu'n cerdded i ffwrdd. Dyma hanes datblygu economaidd yng Nghymru ers dros hanner can mlynedd.

Yn hytrach, bydd ein cynlluniau ar gyfer economi fwy doeth yn seiliedig ar ehangu, cefnogi, a diogelu busnesau domestig.

Lleol yn Gyntaf

Byddwn ni'n mabwysiadu polisi Lleol yn Gyntaf newydd, wedi'i lunio ar sail perchnogaeth leol o'r economi, seilwaith a busnesau, a sylfaen sgiliau gynaliadwy ar gyfer gweithlu ac economi wedi'u hadfywio.

Fel rhan o hyn, byddwn ni'n creu model o gaffael cyhoeddus lleol, wedi'i seilio ar yr economi sylfaenol.

Gan ddefnyddio cyllideb gaffael £6.3 biliwn Llywodraeth Cymru ei hun, a thrwy weithio mewn partneriaeth agos â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, byddwn ni'n gosod targed o gynyddu lefel caffael y sector cyhoeddus o 52 y cant i 75 y cant o'r holl wariant. Amcangyfrifir y bydd hyn yn creu 46,000 o swyddi ychwanegol.

Byddwn ni:

- Yn ceisio cytundeb brys ledled y sector cyhoeddus i ymestyn contractau gyda busnesau o Gymru mewn sectorau allweddol fel bwyd am o leiaf ddwy flynedd, i roi sicrwydd economaidd cynyddol yn ystod adferiad Covid.
- Yn canfod ac yn cysylltu â chyflenwyr posib o Gymru ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau sy'n cael eu caffael y tu allan i Gymru ar hyn o bryd, i lenwi'r diffygion yn economi Cymru.
- Yn defnyddio'r rhyddid newydd ar ôl Brexit i'w lawn botensial er mwyn blaenoriaethu busnesau Cymru mewn caffaeliadau cyhoeddus.
- Yn pasio Deddf Caffael Cyhoeddus sy'n roi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i lynu at ganllawiau caffael cenedlaethol.
- Yn cynyddu nifer y swyddi a gaiff eu creu drwy gynyddu lefel y cynnwys o Gymru a gaiff ei brynu gan gyflenwyr haen gyntaf ac ail haen yn y sector cyhoeddus.
- Yn torri contractau i lawr, lle bo'n bosib, i'r lotiau lleiaf posib er mwyn galluogi cwmnïau bach i wneud cais amdanynt.

Lledaenu Ffyniant

- Yn tynnu'r fiwrocratiaeth o brosesau tendro'r sector cyhoeddus.
- Yn ymrwymo i roi diwedd ar roi gwaith ar gcontractau allanol yn y sector cyhoeddus a'i wrthdroi, gan ddychwelyd gweithgarwch yn fewnol neu o leiaf o dan reolaeth a darpariaeth leol.
- Yn defnyddio caffael cymdeithasol i yrru amcanion eraill yn eu blaen, gan gynnwys cefnogi hunangyflogaeth a chyflogaeth ymhlith grwpiau wedi'u tangynrychioli fel menywod a phobl groenliw, twf busnesau cydweithredol a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Cynnyrch Cymru

Yn y sector preifat a'r sector cydfuddiannol, byddwn ni'n gosod targedau i gynyddu'r gyfran o'n heconomi sydd dan berchnogaeth ddomestig yn sylweddol. Byddwn ni:

- Yn blaenoriaethu busnesau lleol dros gorfforaethau sy'n allforio elw fel sylfaen i'n heconomi.
- Yn datblygu strategaeth i gynyddu maint busnesau presennol sydd â photensial twf uchel.
- Yn cyflwyno rhaglen olyniaeth busnesau a chymorth ariannol priodol i gadw busnesau llwyddiannus dan berchnogaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ehangu nifer y busnesau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr.
- Yn creu brand swyddogol 'Gwnaed yng Nghymru' a fydd yn cael ei roi ar gynnyrch neu wasanaeth lle mae 50 y cant o'i werth wedi'i greu yng Nghymru.
- Yn lansio ymgyrchoedd prynwch gan Gymru a phrynwch yn lleol, er mwyn cynyddu'r lefelau defnydd yng Nghymru o nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu creu yng Nghymru.
- Yn annog cynhyrchion amaethyddol arloesol a chynhyrchwyr bwyd lleol iach.

- Yn datblygu systemau dosbarthu cyhoeddus, fel nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at y farchnad (lle mae wedi'i monopoleiddio gan archfarchnadoedd, manwerthwyr mawr, a llwyfannau ar-lein fel Amazon neu Uber) a'u bod yn gallu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr.

Ffyniant Cymru: Asiantaeth Datblygu Economaidd ar gyfer yr 21ain Ganrif

Byddwn ni'n sefydlu Ffyniant Cymru, asiantaeth ddatblygu hyd-braich genedlaethol, i ddarparu gwaith gweithredu polisi llwyddiannus, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Datblygu sail gryfach o gwmnïau maint canolig rhwng 50 a 250 o bobl.
- Datblygiad ar sail lle a'r economi sylfaenol.
- Cydweithio rhwng prifysgolion a busnesau, yn enwedig mewn perthynas â strategaethau arloesi.
- Datgarboneiddio a'r chwyldro diwydiannol gwyrdd.
- Cyllideb gaffael £6.3 biliwn sector cyhoeddus Cymru.
- Mewnfuddsoddiad wedi'i dargedu, gan ddenu buddsoddiad i Gymru yn benodol gan fusnesau symudol byd-eang ym maes ymchwil a datblygu a busnesau cymharol newydd.
- Allforion gweithgynhyrchu, gan fodelu ein hunain ar genhedloedd bach sy'n allforwyr sylweddol fel Iwerddon, Denmarc, a'r Ffindir.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau ac ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Hyfforddiant rheoli i staff busnesau bach a chanolig, a hyfforddiant technegol ar gyfer y gweithlu ehangach.

Bydd Ffyniant Cymru yn cydweithio'n agos gydag Asiantaeth Arfor ar gyfer arfordir y gorllewin, a Cymoedd, sef Awdurdod

Lledaenu Ffyniant

Datblygu'r Cymoedd. Bydd wedi'i adeiladu ar sylfaen Banc Datblygu Cymru sydd eisoes â thua 200 o staff yn gweithio o swyddfeydd prwpasol yng Nghaerdydd, Llanelli, a Wrecsam. Bydd y ddau'n cael eu cyfuno yn un sefydliad, gydag un Bwrdd, ond gan gadw hunaniaeth a gweithrediad y Banc Datblygu fel prif fraich ariannol y sefydliad.

Tâl Teg, Chwarae Teg

Prif nod ein polisi economaidd fydd codi safonau byw drwy greu swyddi o ansawdd uchel â chyflogau teg ym mhob rhan o Gymru. Byddwn ni'n creu 60,000 o swyddi newydd dros gyfnod y Senedd, gan gynnwys:

- Swyddi newydd â chyflogau da yn yr economi sylfaenol, gan ehangu cyflogaeth mewn swyddi'n ymwneud â phobl, sy'n llai agored i gael eu hawtomeiddio, yn enwedig ym maes gofal, addysgu a'r celfyddydau.
- Miloedd o swyddi newydd drwy Fargen Werdd Cymru ym maes adeiladu, peirianeg, ynni, bwyd, yr amgylchedd adeiledig a natur.

Byddwn ni'n gyrru lefelau anweithgarwch economaidd yng Nghymru am i lawr, drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno ein Cynllun Gwarant Swydd leuenctid.
- Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed.
- Buddsoddi mewn strategaethau ataliol sy'n lleihau salwch.
- Datblygu strategaeth, a chyflwyno cymhellion, i leihau allfudo ymhlith pobl ifanc, a denu'r rhai sydd wedi gadael i ddychwelyd.
- Annog cyflogwyr i fabwysiadu arferion gweithio modern, a chroesawu gweithio o bell a gwasgaredig, sy'n allweddol er mwyn gwneud gwaith yn fwy hygyrch i fenywod, pobl anabl, a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli'n hanesyddol yn y gweithlu.

Gan fod cyflogau'r sector cyhoeddus yn aml yn gosod y 'cyflog gwaelodol' mewn llawer o economïau lleol yng Nghymru, bydd codi lefelau cyflog y gweithwyr sy'n cael eu talu isaf yn dod yn rhan bwysig o symud oddi wrth economi gyflog-isel. Byddwn ni:

- Yn codi isafswm cyflog gweithwyr gofal i £10 yr awr, ac yn cyflwyno cydraddoldeb cyflog rhwng ieuchyd a gofal.
- Yn defnyddio ymrwymïadau Gwaith Teg ym maes caffael cyhoeddus ac yn gyfnewid am gymorth ariannol.

Ynghyd â chyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, bydd ein Llywodraeth yn sefydlu cyrff partneriaethau cymdeithasol newydd ar sail sectorau ar draws yr economi, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sectorau cyflog-isel.

O ystyried y setliad datganoli presennol, mae'n debygol mai cyrff ymgynghorol fydd y rhain yn y lle cyntaf. Byddan nhw'n gweithio i gytuno ar y cyd ar nodau hirdymor ar gyfer sectorau yng Nghymru, ac yn gosod safonau gwaelodol ar gyfer cyflogau a thargedau ar gyfer twf cyflog.

Mae ein buddsoddiad yn sgiliau a gwybodaeth ein pobl, sy'n hollbwysig i'n ffyniant yn y dyfodol, yn hanfodol i'n gweledigaeth ar gyfer yr economi. Byddwn ni'n buddsoddi mewn rhaglenni hyfforddi sylweddol, gyda thargedau ar gyfer menywod a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli'n hanesyddol yn y gweithlu, mewn meysydd allweddol lle mae angen sgiliau newydd arnon ni fel y maes adeiladu, amgylchedd, ieuchyd a gofal, a digidol.

Dros yr hirdymor, mae angen i ni baratoi am ddyfodol lle mae'n bosib y bydd gan waith rôl wahanol yn yr economi o ganlyniad i awtomeiddio a defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a thechnolegau cysylltiedig. Byddwn ni'n ceisio'r pwerau sydd eu hangen i gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol fel ffordd o sicrhau urddas economaidd i bawb, a byddwn ni'n cyflwyno cynllun peilot i Gymru ar gyfer Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

Lledaenu Ffyniant

Arloesedd ac Entrepreneuriaeth

Wrth galon ein strategaeth economaidd mae ein nod o amrywio ein heconomi, gan lansio busnesau newydd mewn ardaloedd newydd. Mae hyn yn golygu y bydd gyrru lefelau arloesedd ac entrepreneuriaeth yn hanfodol.

Byddwn yn buddsoddi mewn creu diwylliant o greadigrwydd, menter ac arloesedd ym mhob sector – cyhoeddus, preifat, ac nid-er-elw – ac ym mhob rhan o fywyd.

Byddwn ni'n cefnogi creu Clystyrau Arloesi Diwydiannol, lle bydd gan bob clwstwr gorff arweiniol pwrpasol i ddatblygu Mapiau Ffordd Trawsnewid Diwydiannol.

Byddwn ni'n creu Corff Arloesi Cenedlaethol, i ddisodli Cyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi a Chyngor y Prif Gynghorydd Gwyddoniaeth, i ddod yn brif gorff a fydd yn arwain ac yn cydlyn System Arloesi Cymru, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd, amgylchedd, a chymdeithasol Cymru. Byddwn ni'n gosod y nod uchelgeisiol o gynyddu buddsoddiad busnesau mewn ymchwil a datblygu bob blwyddyn tan iddo gyrraedd cyfartaledd y Deyrnas Unedig, a chynyddu cyfran Cymru o gyllid ymchwil a datblygu cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

Buddsoddiad fel Gyrrwr Economaidd

Er mwyn meithrin annibyniaeth economaidd Cymru, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ceisio cytundeb gan Drysorlys y Deyrnas Unedig er mwyn i Fanc Datblygu Cymru weithredu'n fwy llawn fel banc, er enghraifft benthycu gan ffynonellau fel cronfeydd pensiwn i fenthycu i'r cyhoedd a'r sector preifat.
- Sefydlu Strategaeth Fuddsoddi Busnesau Bach a Chanolig, a fydd yn cynnwys benthyciadau hirdymor di-log gyda gwyliau

ad-dalu hir, benthyciadau ailgychwyn, a benthyciadau adfer, a bargeinion newydd ar gyfer cwmnïau twf neu gwmnïau cymharol newydd.

- Creu adran seilwaith yn y Banc Datblygu, gan adlewyrchu gwaith Banc Seilwaith y Deyrnas Unedig.
- Sefydlu strwythur penodol, fel is-adran i'r Banc Datblygu, i reoli buddiant Llywodraeth Cymru mewn busnesau.
- Buddsoddi mewn Banc Cymunedol newydd i helpu busnesau bach, a dychwelyd gwasanaethau bancio lleol i gwsmeriaid yn y cymunedau niferus yng Nghymru sydd wedi colli eu banciau lleol.
- Archwilio creu Bond Gwyrdd Cymru i fuddsoddi yn yr amgylchedd, yr economi, a seilwaith, a chadw cyfran fwy o gynilion yng Nghymru.



Specialty Coffee

VINCA EL CORAZO

Región Santa Fe

Toro El Corno

Variedad Bonaire

Procesado: Pulp Process

Altitud: 1800 msnl

Harvest: December 15th

Coultura: El Salvador

Espresso

Cortado

Flat White

Long Black

Americano

Latte

Cappuccino

Tea

2.2

2.4

2.7

2.3

2.4

2.9

2.9

2.5

CUBAEE
Direct Trade
William Cutrup

2.3

Loose Leaf Tea

English Breakfast

Earl Grey

Opuscula Anillo

Chai Tea

Peppermint

Orange Blossom Lemon

Peach Blossom White

Jasmine Green

Kidney Bean

Juniper + Rose White

2.2

2.2

2.7

2.7

2.7

2.9

2.9

2.7

2.5

Chai Latte

Matcha Latte

2.9

2.2

Hot Chocolate

Milk Hot Chocolate

Dark Hot Chocolate

White Hot Chocolate

Sea Salt + Caramel

70% Dark Hot Chocolate

2.9

2.6

2.2

2.2

2.2

@kinandilk

KIN+ILK

kinandilk.com

CODI'R GENEDL

Crynodeb

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">– Creu chwe rhanbarth economaidd strategol i ledaenu ffyniant yn gyfartal ar draws y wlad gyfan.– Sefydlu Swyddfa benodedig ar gyfer Datblygiad a Buddsoddiad Rhanbarthol i arwain ar ddatblygiad rhanbarthol a datganoli llywodraeth ledled Cymru.– Sefydlu Cymoedd, sef Awdurdod Datblygu'r Cymoedd a fydd â chylch gwaith o yrru'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â Metro'r Cymoedd. | <ul style="list-style-type: none">– Cydgysylltu datblygiad economaidd, cynllunio iaith, trafnidiaeth, a buddsoddiad yn rhanbarth Arfor ar arfordir y gorllewin, fel bod gan bobl ifanc y rhanbarth fynediad at swyddi sgiliau uchel â chyflog da yn eu cymunedau lleol.– Cynhyrchu cynlluniau datblygu cyffrous ar gyfer Clwyd, Powys, Bae Abertawe a'r de-ddwyrain.– Cryfhau democratiaeth llawr gwlad gyda Chynghorau Cymuned a Thref diwygiedig. |
|---|---|

Codi'r Genedl

Trawsnewid cynllunio economaidd a gofodol

Mae gan Blaid Cymru weledigaeth hollol newydd ar gyfer datblygiad economaidd a buddsoddi Cymru, sy'n seiliedig ar adeiladu, cysylltu a grymuso'r wlad a'n holl gymunedau. Ein blaenoriaeth yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau rhwng rhannau mwy tlawd a chyfoethog y wlad.

Mae rhanbarthau cynllunio strategol presennol Cymru yn ymateb i flaenoriaethau San Steffan, gan gynnwys cronfeydd Bargaen Ddinesig a Twf a Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n diystyru tri chwarter Cymru o ran hyfywedd economaidd a diwylliannol, ac yn parhau i olygu bod ein dyfodol yn ddibynol ar friwsion oddi ar fwrdd rhywun arall, yn hytrach na gwasanaethu fel cyfrwng i gysylltu ein cymunedau yn y gogledd a'r de, y dwyrain a'r gorllewin, a gwireddu potensial ein gwlad.

Ein gweledigaeth amgen yw cynllunio ar mwyn i Gymru gyfan ffynnu, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Dosbarthu cyfoeth, grym, a buddsoddiad yn deg ar draws Cymru gyfan, drwy dargedu ymyrraeth i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.
2. Gwellu cysylltedd o'r gogledd i'r de, ynghyd â'r dwyrain i'r gorllewin.
3. Gwneud Wrecsam yn brifddinas ariannol i Gymru, gan adeiladu ar ei rôl fel cartref Banc Datblygu Cymru. Byddwn ni'n gosod pencadlys Ffyniant Cymru, ein hasiantaeth datblygu economaidd newydd, yn Wrecsam, ynghyd â cheisio denu sefydliadau newydd eraill fel Banc Cymunedol
4. Datgloi potensial datblygu cynaliadwy ein cenedl amrywiol gyfan.

Nid yw'r blaenoriaethau hyn yn golygu y byddwn ni'n troi ein cefnau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gan brosiectau unigol a

weithredir yn llwyddiannus gan awdurdodau lleol gyda Bargeinion Twf a Dinesig Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Serch hynny, byddwn ni'n eu cysoni gyda'r angen i ledaenu buddsoddiad a ffyniant yn decach ar draws Cymru gyfan.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu ein gweledigaeth amgen, mae Plaid Cymru'n credu y dylai dyfodol llywodraethu Cymru barhau i gynnwys haenau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth wneud penderfyniadau ac y dylid gweithredu ar y lefelau cywir a gydag atebolrwydd democrataidd clir i'r bobl. I'r perwyl hwn, byddwn ni'n diddymu pedwar rhanbarth cynllunio Llafur a'u Cyd-bwyllgorau Corfforaethol annemocrataidd, gyda chwe rhanbarth strategol i ledaenu ffyniant yn deg ar draws y wlad.

Byddwn ni'n creu Swyddfa benodedig ar gyfer Datblygiad a Buddsoddiad Rhanbarthol yn Adran y Prif Weinidog i arwain ar ddatblygiad rhanbarthol ar draws y llywodraeth.

Byddwn ni'n darparu cyllid a sefydliadau economaidd pwrpasol ar gyfer Cymoedd y de ac arfordir y gorllewin, rhanbarth rydyn ni'n alw'n Arfor. Y Cymoedd a rhanbarth Arfor fydd lleoliadau y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus newydd, a byddwn yn symud swyddi presennol sydd wedi'u lleoli yn y brifddinas ar hyn o bryd yno hefyd.

Yn ogystal, byddwn ni'n diddymu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol diffygiol ac yn cyflwyno cynllun datblygu cenedlaethol diwygiedig yn seiliedig ar ein map cynllunio gofodol newydd. Yn ogystal â rhanbarthau Arfor a'r Cymoedd, mae rhanbarthau ar gyfer y gogledd-ddwyrain, y canolbarth, Bae Abertawe, a'r de-ddwyrain, sef Dinas-Ranbarth Caerdydd. Cyfrifoldeb Ffyniant Cymru fydd darparu ar gyfer y rhanbarthau hyn. Ni fydd dim rhan o Gymru'n cael ei gadael ar ôl.

Codi'r Genedl

Ein Cynllun ar gyfer y Cymoedd

Yn y Cymoedd – o Gwm Aman yn y gorllewin, i Flaenau Gwent a Thorfaen yn y dwyrain – mae llawer o heriau economaidd a chymdeithasol mwyaf ein gwlad.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn sefydlu Cymoedd, sef Awdurdod Datblygu'r rhanbarth, a fydd â chylch gwaith o yrru'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â Metro'r Cymoedd, yn enwedig CroesReilffordd y Cymoedd. Bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau'r GroesReilffordd. Trafnidiaeth Cymru fydd yn gyfrifol am adeiladu Metro'r Cymoedd a darparu'r cerbydau, a'r Awdurdod Datblygu fydd yn gyfrifol am ddatblygiad y teithiau ar ei hyd.

Er mwyn annog teithio llesol ar dir adnabyddus o serth y Cymoedd, byddwn yn sefydlu gwneuthurwr beiciau trydanol yng nghalon y Cymoedd. Bydd beiciau wedi'u gosod ym mhob gorsaf drenau i sicrhau teithio didrafferth.

Bydd Cymoedd yn ategu Bargeinion Dinesig Caerdydd a Bae Abertawe, yn hytrach na'u disodli. Bydd yn gweithio'n agos gyda Ffyniant Cymru, yr awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, a'r sector preifat i sicrhau bod caffael cyhoeddus mor lleol â phosib, ac i gydlyn buddsoddiad a busnesau lleol.

Bydd Cymoedd yn cynnull tîm i hyrwyddo datblygiad busnesau yn agos at orsafoedd a mannau cyfnewid y Metro, a'r prif goridorau cymudo. Bydd hefyd yn hyrwyddo ynni adnewyddadwy cymunedol a phrosiectau eraill, fel y nodir yn *Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd*, a luniwyd gan Aelod o'r Senedd y Rhondda, Leanne Wood.

Bydd Cymoedd yn nodi tair canolfan ar draws canol y cymoedd i ddod yn drefi angor, sy'n cysylltu drwy GroesReilffordd y Metro. Merthyr Tudful fydd ffocws datblygiad allweddol coridor

Blaenau'r Cymoedd. I roi ysgogiad ariannol i'r rôl hon, bydd yr Awdurdod Datblygu yn mynd ati i gefnogi'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth Ddiwydiannol arfaethedig yng Nghastell Cyfarthfa, gyda'i barc 190 acer ar ddwy ochr i Afon Taf ym Merthyr.

Byddwn ni'n comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar greu tref newydd ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd.

Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn nodi ac yn hyrwyddo nifer o atyniadau blaenllaw yn ymwneud â'r celfyddydau a threftadaeth, a allai sicrhau proffil rhyngwladol mewn lleoliadau ledled y Cymoedd. Fel rhan o'n hymrwymiad i gael 'mwy na miliwn' o siaradwyr Cymraeg, bydd yr awdurdod hefyd yn blaenoriaethu creu gofodau Cymraeg er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y Cymoedd.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn gyfrifol am ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Bydd hyn yn bwysig er mwyn cyfleu asedau amgylcheddol a threftadol y Cymoedd, nid yn unig i ddarparu rhagor o gyfleoedd hamdden, ond i greu amgylchedd mwy deniadol ar gyfer buddsoddiadau gan fusnesau a thwristiaeth.

CroesReilffordd y Cymoedd

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer strategaeth drafnidiaeth gwerth dros £1 biliwn, sy'n cynnwys CroesReilffordd Caerdydd o Laneirwg i Lantrisant, ynghyd â 'Lein Gylch' gyda phont reilffordd dros Afon Taf. Yn ddiamheuaeth, bydd hyn yn gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd. Nawr, mae angen gweledigaeth yr un mor gyffrous ar gyfer y Cymoedd.

Mae angen buddsoddiad mwy penodol yn y Metro i'r gogledd o Gaerdydd, a fydd yn cyflymu'r adfywiad sydd ei angen ar y Cymoedd. Gan ddefnyddio leiniau sydd eisoes yn bodoli, rhai newydd, a rhai wedi'u hadfer, bydd CroesReilffordd y Cymoedd yn cysylltu

Codi'r Genedl

Treherbert yn y Rhondda gyda Phont-y-pŵl, drwy Bontypridd, Nelson, Ystrad Mynach, Hengoed, y Coed Duon, Trecelyn a Chrymlyn.

Bydd CroesReilffordd y Cymoedd yr un mor berthnasol i drafnidiaeth ag y bydd i ddatblygiad busnesau, adfywio trefol, a thai. Bydd y cynllun o fudd uniongyrchol i dros 250,000 o bobl, gan arwain at ledaeniad mwy teg o weithgarwch economaidd.

Ein Cynllun ar gyfer Arfor

Mae strategaeth Arfor Plaid Cymru yn cynnwys creu tair eco-ganolfan newydd fel estyniadau o aneddiadau presennol – ar y Fenai rhwng Bangor a Chaernarfon, yn Aberystwyth, ac yng Nghaerfyrddin. Byddan nhw'n hybiau cyflogaeth, hamdden, diwylliannol ac adloniant bywiog, yn gwasanaethu'r ardaloedd gwledig o'u cwrmpas ac wedi'u cysylltu gan gysylltiad rheilffordd ar hyd arfordir y gorllewin rhwng Bangor a Chaerfyrddin.

Bydd gan Asiantaeth Datblygu Arfor rymoedd yn y lleoliadau hyn o ran caffael tir, ynghyd â'r cyllid i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol, tai, a chymhellion economaidd eraill. Bydd yr Asiantaeth yn gweithredu mewn strwythur cynllunio democrataidd lleol wedi'i osod gan yr awdurdodau lleol.

Bydd eco-ganolfannau Arfor yn ganolbwynt ar gyfer rhyngweithiadau cymdeithasol a gwaith gyda'r ardaloedd gwledig ehangach. Byddan nhw'n hybiau ar gyfer creu swyddi newydd o ansawdd uchel ym maes arloesedd a gwyddorau iechyd mewn cysylltiad â'u prifysgolion a'u hysbytai lleol, yn y diwydiannau amgylcheddol a chreadigol, ac mewn mentrau cymdeithasol. Gan gefnogi diwylliant Cymraeg bywiog, byddan nhw'n ffocws rhanbarthol ar gyfer profiad trefol ieuencid sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol y Gymraeg. Byddan nhw:

1. Yn creu swyddi newydd ym maes adeiladu, cynnal a chadw, a rheoli tai cymdeithasol fforddiadwy, gyda llawer o gyfleoedd hyfforddi.
2. Yn enghreifftiau carbon niwtral o ddatblygu cynaliadwy, gyda'u hanghenion ynni wedi'u cyflenwi gan ynni adnewyddadwy.
3. Wedi'u cysylltu drwy reilffordd, gan gwblhau'r cysylltiadau rheilffordd coll rhwng Sir Gâr ac Aberystwyth, a Phwllheli a Bangor.

Yn ogystal, bydd Asiantaeth Datblygu Arfor:

- Yn cydweithio gyda Phrifysgolion Bangor, Aberystwyth, a'r Drindod Dewi Sant i gynhyrchu mentrau cysylltiedig ar sail ymchwil.
- Yn cydweithio gyda thri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth y Rhanbarth i ddatblygu prosiectau Gwyddorau Bywyd a Gofal Iechyd perthnasol.
- Yn arwain ar y defnydd o gaffael cyhoeddus fel offeryn datblygu economaidd.
- Yn datblygu strategaeth sgiliau a marchnad lafur wedi'i chynllunio i annog preswylwyr Arfor, yn enwedig y rhai ifanc, i ystyried y rhanbarth fel endid sy'n darparu ystod eang o gyfleoedd gyrfaol blaengar.
- Yn hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol y mae'r gymuned yn berchen arnynt.
- Yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i sefydlu a datblygu mentrau busnes, gan gynnwys mentrau cydweithredol a chymdeithasol, ac yn eu hannog i redeg y busnesau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn cefnogi'r ymrwymiad cenedlaethol o gael 'mwy na miliwn' o siaradwyr, gan wneud y Gymraeg yn iaith gweinyddiaeth fewnol yn y sector cyhoeddus a sefydliadau sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus ar draws y rhanbarth, ac yn hyrwyddo gofodau preifat a gwirfoddol newydd lle mai'r Gymraeg yw'r norm.

Codi'r Genedl

- Yn creu strategaethau penodol ar gyfer y sector, yn benodol ar gyfer bwyd-amaeth, lletygarwch, a thwristiaeth. Dylai'r strategaeth dwristiaeth gynnwys creu Sefydliad Bwyd ac Academi Dwristiaeth, yn gysylltiedig ag un o'r Prifysgolion, gyda gwesty lleol yn addysgu lletygarwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Bwrdd Arfor, a fydd wedi'i leoli ym Machynlleth wrth ganol y rhanbarth, yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol y rhanbarth, y prifysgolion a'r sectorau amgylchedd, mentrau cymdeithasol a ffermio. Bydd yn gytbwys o ran rhywedd ac yn mynd ati i wella cynrychiolaeth grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli.

Coridor rheilffordd gorllewinol Arfor

Gan weithio mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, un o brif amcanion Asiantaeth Datblygu Arfor fydd cwblhau'r cyswllt rheilffordd rhwng Bangor a Chaerfyrddin.

Y cam cyntaf fydd adfer y cyswllt rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Bydd gwasanaeth rheilffordd i deithwyr ar hyd y rhan fwyaf o arfordir y gorllewin yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, gan ddarparu cysylltedd hanfodol ar gyfer rhanbarth Arfor. Bydd yn cryfhau cynaliadwyedd hirdymor cymunedau, busnesau, a sefydliadau cyhoeddus, er enghraifft y prifysgolion yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth.

Datblygiad Cymru gyfan

Ni fydd Llywodraeth Plaid Cymru'n gadael yr un rhanbarth yng Nghymru ar ôl. Bydd Ffyniant Cymru, ein hasiantaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd, yn gyfrifol am oruchwylio strategaethau datblygu ar gyfer Clwyd, Powys, Bae Abertawe a'r de-ddwyrain.

Mae ystyriaethau ar gyfer datblygu'r rhanbarthau hyn yn cynnwys:

Clwyd

- Gweithgynhyrchu yw ei rôl economaidd graidd a'i hunaniaeth, gan symud tuag at dechnoleg werdd. Dylai gael ei ystyried fel 'Gweithdy Cymru', gyda chwmnïau angor allweddol fel Airbus.
- Bydd Wrecsam yn dod yn brifddinas ariannol i Gymru, ac yn datblygu fel hyb diwylliannol ffilm a theledu, gan gysylltu Prifysgol Glyndŵr, Cymru Greadigol, Comisiwn Ffilm Prydain, a'r cyngor sir.
- Fel eu cyfoedion yn Arfor, bydd trefi fel Wrecsam, Rhuthun, Dinbych a Chorwen yn cael eu hyrwyddo fel canolfannau diwylliannol y Gymraeg, gyda ffocws rhanbarthol ar brofiad trefol ifanc sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol y Gymraeg.
- Datblygu Mostyn fel porthladd dŵr dwfn sy'n arbenigo mewn ynni ar y môr a chynhaliaeth morlyn llanw yn Aber Dyfrdwy a Bae Colwyn.

Powys

- Dylai ddatblygu diwydiannau unigryw sy'n gysylltiedig â'i ddiwylliant amaeth cryf, gan ychwanegu gwerth gyda chyfleusterau prosesu lleol newydd yn Llanidloes ac Aberhonddu. Byddwn ni'n cefnogi creu Canolfan Ymchwil Gwlân Cymru yn y Drennewydd i ychwanegu gwerth drwy drosglwyddo technoleg a gwybodaeth wrth ddatblygu mentrau newydd.
- Annog darpariaeth lletygarwch a thwristiaeth gryfach sy'n gysylltiedig â threftadaeth Cymru a cherdded (llwybrau cerdded pellter hir).
- Mae ei leoliad canolog yn ei wneud yn bwynt cyfarfod allweddol ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau. Byddwn ni'n datblygu cyfleuster cynadledda newydd mewn lleoliad addas yn Llandrindod neu Lanfair-ym-Muallt.

Codi'r Genedl

Bae Abertawe

- Fel dinas Cymru ar gyfer cydweithredu academiaidd, cyfreithiol a busnes, dylai Abertawe adeiladu ar ei hanes o gwmnïau deillio uwch-dechnoleg y Brifysgol – er enghraifft prosiect Troi Adeiladau yn Orsafoedd Pŵer, a Chanolfan ar gyfer Meddyginiaethau Arbenigol Cymru. Dylid sefydlu tîm ymchwil academiaidd diwydiannol yn Llandarcy i ddod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer olew gwastraff a chynhyrchion plastig.
- Dylai Bai Abertawe ddod yn ganolfan ddatblygu ar gyfer technoleg ynni adnewyddadwy Cymru – mae Plaid Cymru'n ymrwymo i Forlyn Llanw Abertawe a menter gysylltiedig i greu Canolfan Bywyd Môr Cymru.
- Datblygu cynigion Metro Bae Abertawe, ailagor hen leiniau a gorsafoedd rheilffordd – gan gynnwys y Cocyd, Glandŵr, a Lein Ardal Abertawe – a chreu llwybrau uniongyrchol i Gwm Tawe a Chymoedd Aman gerllaw.

Y De-ddwyrain

- Dylai Caerdydd barhau i ddenu a chefnogi mentrau na fydden nhw'n ymsefydlu y tu allan i amgylchedd dinesig mawr. Ar yr un pryd, mae angen iddi ddatblygu sail mwy arbenigol o ran cyd-arloesedd, yn enwedig yn y celfyddydau ac ymchwil wyddonol, yn enwedig yn y gwyddorau bywyd.
- Dylai Sir Fynwy adeiladu ar ei henw da fel prifddinas fwyd Cymru, ac fel lleoliad deniadol ar gyfer busnesau digidol twf uchel.
- Dylai Casnewydd ganolbwyntio ar ddatblygu ein potensial ynni morol – gyda morlynnoedd llanw, gwynt ar y môr, ac ynni'r tonnau i greu chwyldro Swyddi Gwyrdd.

Llywodraethu Cymunedol Newydd

Bydd chwe rhanbarth cynllunio strategol Plaid Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer ymagwedd chwyldroadol tuag at greu arweinyddiaeth ddemocrataidd newydd ar lefel y gymuned ledled Cymru.

Bydd y 22 awdurdod unedol presennol, sydd wedi bod mor effeithiol yn ystod pandemig y Coronafeirws, yn cael eu cadw. Ochr yn ochr â nhw, byddwn ni'n creu system newydd o Gyngorau Cymuned a Thref fydd â grym, fel sylfaen ar gyfer llywodraeth leol Cymru.

Byddwn yn lleihau nifer y Cyngorau Cymuned a Thref i raddfa fwy effeithiol o oddeutu 150, nifer sy'n cyfateb mewn rhai agweddau â'r 164 o gyngorau dosbarth trefol a gwledig a oedd yn bodoli cyn ail-drefnu llywodraeth leol ym 1974, ac mewn agweddau eraill â dalgylchoedd ysgolion uwchradd.

Bydd gan y Cyngorau Cymuned a Thref newydd rymoedd cynllunio a rôl ddatblygu economaidd yn hyrwyddo busnesau newydd lleol, mentrau cymdeithasol a chydweithredol, twristiaeth, cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach, ac ailgylchu. Byddan nhw'n gyfrwng ar gyfer darparu strategaethau adnewyddu a fydd yn cael eu gosod gan Cymoedd, sef Awdurdod Datblygu'r Cymoedd, Asiantaeth Datblygu Arfor, ac mewn mannau eraill gan Ffyniant Cymru, ein hasiantaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd.



TACLO NEWID HINSAWDD

Crynodeb

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none">– Cyflwyno Cenhadaeth Cymru 2035 i ddatgarboneiddio ac i gyrraedd allyriadau sero-net.– Sefydlu Ynni Cymru fel cwmni datblygu ynni â tharged o gynhyrchu 100 y cant o drydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.– Cyflwyno Deddf Natur gyda thargedau statudol i adfer bioamrywiaeth erbyn 2050.– Darparu gofodau gwyrdd diogel o ansawdd da o fewn taith gerdded pum munud i bob cartref yng Nghymru. | <ul style="list-style-type: none">– Gwahardd plastigau untro nad ydyn nhw'n hanfodol yn 2021, gan sicrhau nad oes dim gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, a rhoi diwedd ar losgi gwastraff yn llwyr erbyn 2030.– Cynyddu lefel y buddsoddiad mewn lliniaru llifogydd i £500 miliwn dros gyfnod y Senedd hon. |
|--|---|

Taclo Newid Hinsawdd

Wynebu'r Argyfwng Hinsawdd a Natur

Wynebu'r Argyfwng Hinsawdd a Natur yw her ein cyfnod, ac ar sail hyn y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ein beirniadu fwyaf. Oni bai bod llywodraethau ledled y byd yn camu i'r adwy, bydd digwyddiadau tywydd anghyffredin yn dod yn gyffredin, bydd newidiadau eithafol i'n hinsawdd yn effeithio ar y rhai mwyaf difreintiedig, a bydd ein byd natur yn dioddef niwed na fydd modd ei ddadwneud. Mae Plaid Cymru'n barod i wynebu'r her hon fel llywodraeth.

Er mwyn cymryd newid hinsawdd o ddifrif, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r mater ar draws sawl maes, a'i wreiddio wrth galon penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth. Bydd mynd i'r afael â'n heffaith niweidiol ar y blaned yn gyfrifoldeb casgliadol ar y llywodraeth gyfan, dan arweiniad Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, fydd â'r cyfrifoldeb uniongyrchol cyffredinol.

Byddwn ni'n sicrhau bod pob cyllideb adrannol yn y Llywodraeth yn ymroddedig i adfer yr hinsawdd a natur. Drwy hyn, bydd pob Gweinidog yn buddsoddi ac yn gwreiddio natur mewn penderfyniadau a fydd, yn y pen draw, yn darparu ar gyfer pawb – o benderfyniadau iechyd hyd at gynllunio llywodraeth leol. Bydd ein llywodraeth hefyd yn adolygu'r gyllideb gyfan er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir i ddatgarboneiddio ac adfer natur yn cyfateb i'r angen dybryd, ac yn adlewyrchu ein huchelgais.

Bydd gofyn i awdurdodau lleol leihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (carbon deuocsid, methan, ac ocsid nitraidd) yn eu hardal drwy osod cyllidebau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr lleol. Dylai cynlluniau pensiwn llywodraeth leol ddadfuddsoddi o danwydd ffosil, a chydweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i nodi cyfleoedd ail-fuddsoddi addas.

O dan ymbarél y Banc Datblygu ac ar y cyd â'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, byddwn ni'n creu Banc Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Bydd hyn yn ariannu'r gwaith o gynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy ar gyfer adeiladau cyhoeddus, tai, a gweithleoedd. Bydd yn cynnig credyd ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chyfleustodau ynni lleol, fel bod modd i gymaint o'r seilwaith hwn â phosib fod dan berchnogaeth ddemocrataidd ar lefel leol.

Cymru 2035

Nid yw'r targed presennol o allyriadau carbon sero-net yng Nghymru erbyn 2050 yn ddigon cyflym. Bydd Plaid Cymru'n newid llwybr allyriadau Cymru eleni. Byddwn yn gosod targed i allu cyflenwi holl ynni Cymru – trydan, gwres, a thrafnidiaeth – o ynni adnewyddadwy yn llwyr erbyn 2035. Byddwn ni hefyd yn gosod targed i Gymru gyflawni allyriadau carbon net-sero erbyn 2035.

Bydd cael annibyniaeth yn y degawd i ddod yn rhoi grym polisi hanfodol i ni allu cyrraedd y nod hwn. Serch hynny, os yw Cymru erbyn diwedd y degawd yn dal i ddibynnu ar benderfyniadau polisi allweddol sy'n cael eu gwneud yn San Steffan, mae'n bosib y byddwn ni'n cael ein gorfodi i addasu'r dyddiad targed.

Bydd **Cymru 2035** yn dod yn genhadaeth genedlaethol draws-sectorol a thraws-gymunedol, fydd â'r cynlluniau canlynol:

- Datgarboneiddio ein holl reilffyrdd erbyn 2035.
- Deddfu i wahardd gwerthu ceir a faniau petrol a disel newydd cyn dyddiad y Deyrnas Unedig, sef 2030.
- Ateb holl alw Cymru am drydan drwy drydan adnewyddadwy erbyn 2030.
- Cynhyrchu dim ond trydan adnewyddadwy erbyn 2035.

Wedi'n hysbrydoli gan darged Cyngor Dinas Caerdydd i'r brifddinas ddod yn garbon niwtral

Taclo Newid Hinsawdd

erbyn 2025, byddwn ni'n lansio Cronfa Her i ddinasoedd, trefi a chymunedau sy'n ceisio dod yn arloeswyr carbon yng Nghymru drwy gyrraedd niwtraliaeth carbon cyn 2035.

Cartrefi Mwy Gwyrdd

Byddwn ni'n sicrhau bod gan bob cartref, swyddfa, ac adeilad cyhoeddus y lefel uchaf o effeithlonrwydd ynni erbyn 2050.

Tai Newydd

Byddwn ni'n cynllunio tai mewn ffordd a fydd yn caniatáu trosglwyddiad llyfn i dechnolegau newydd. Byddwn ni'n mynd ati i gyflwyno tai ynni-bositif sy'n gallu allforio ynni dros ben i'r grid trydan.

Wrth gynllunio cartrefi newydd, byddwn ni'n gwahardd y defnydd o ynni tanwydd ffosil o 2022 ymlaen, a bydd angen i bob tŷ newydd fod yn hynod ynni effeithlon erbyn 2023.

Ôl-osod

Byddwn ni'n creu cynllun seilwaith effeithlonrwydd ynni hirdymor i ôl-osod stoc dai gyfan Cymru i safonau amgylcheddol uwch yn ystod y 30 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cyfrannu at roi diwedd ar dlodi tanwydd a'r 'marwolaethau ychwanegol' cysylltiedig yn y gaef.

Er mwyn cyrraedd ein targed o ôl-osod pob cartref erbyn 2050, bydd angen i ni adnewyddu 200,000 o gartrefi yn ystod y tymor hwn o'r Senedd. Bydd y rhaglen hon yn darparu arbedion effeithlonrwydd o 20% ar draws stoc ddomestig Cymru.

Gwresogi â thrydan a phympiau gwres fydd ein blaenoriaeth, ac felly byddwn ni'n datblygu rhaglen sylweddol o osod pympiau gwres, gan flaenoriaethu cartrefi nad ydynt ar y grid.

Bydd pob cartref yn cael cynnig archwiliad ynni am ddim ac argymhellion ar gynllun trosi.

Ynni

Gydag ewyllys ac uchelgais yn y llywodraeth, gallwn ni sicrhau bod Cymru'n gallu ateb ei holl alw am ynni drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Ein targed fydd adeiladu 11GW o gapasiti wedi'i osod erbyn y flwyddyn honno.

Atlas Ynni ac Ynni Cymru

Byddwn ni'n dechrau drwy gomisiynu rhestr genedlaethol o botensial ynni gwyrdd yng Nghymru, 'Atlas Ynni i Gymru', a fydd yn esblygu yn Gynllun Ynni manwl ar gyfer defnydd cynyddol o adnoddau naturiol a datblygiad cwmnïau brodorol a phrosiectau ynni cymunedol.

Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r amrediad llanw oddi ar arfordiroedd y de a'r gogledd, a mapio potensial hydrogen gwyrdd yng Nghymru. Byddwn ni'n cefnogi datblygu morlynnoedd llanw. Bydd pob datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cyfyngu ar unrhyw ddifrod posib i fioamrywiaeth, drwy ddatblygu canllawiau lleoliadol gwell i ddatblygwyr yn amgylcheddau'r môr a'r tir.

Byddwn ni'n sefydlu Ynni Cymru fel cwmni datblygu prosiectau ynni, yn debyg i Drafnidiaeth Cymru a Banc Datblygu Cymru. Bydd Ynni Cymru yn galluogi Cymru i ymuno â'r drefn arferol yn Ewrop o sefydlu cwmni ynni wedi'i gefnogi gan y wladwriaeth.

Bydd Ynni Cymru wedi'i leoli ar Ynys Môn, a bydd yn helpu i hwyluso masnachu trydan rhwng microgridiau ac ynysoedd ynni rhithiol.

Cynhyrchu a Defnyddio

Byddwn ni'n newid y targed presennol i ateb galw Cymru am drydan drwy ffynonellau adnewyddadwy, o 70 y cant erbyn 2030 i 100 y cant, ac yn gosod targed newydd y bydd 100 y cant o gynhyrchiant trydan Cymru yn adnewyddadwy erbyn 2035.

Taclo Newid Hinsawdd

Byddwn ni:

- Yn datblygu ein technolegau tonnau a llanw i wireddu ein potensial arfordirol yn llawn.
- Yn anelu am gynnydd sylweddol mewn cynhyrchu â gwynt, yn enwedig ar y môr. Byddwn ni'n cefnogi ymestyn ffermydd solar yng Nghymru, a thoeon ffotofoltäig.
- Yn buddsoddi mewn ymchwil ar ddatgarboneiddio, ar gyfer sectorau diwydiannol allweddol fel dur yn benodol, ac yn sefydlu ein hunain fel arweinwyr byd eang gyda chryfderau newydd Cymru fel ynni morol a hydrogen.
- Yn ehangu storfeydd trydan Cymru yn sylweddol; mae Cymru eisoes mewn sefyllfa gref gyda'i dwy weithfa pŵer dŵr â phwmp.
- Yn ei gwneud yn ofynnol fod gan bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru sy'n uwch na 5MW berchnogaeth gymunedol a lleol sydd rhwng 5 y cant a 33 y cant o leiaf, i gefnogi economïau gwledig ac arfordirol.
- Yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol, yn enwedig ynni dŵr.
- Yn gofyn i'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol lunio cynllun i baratoi gridiau trydan Cymru at y dyfodol.

Natur a'r Amgylchedd

Rydyn ni'n ymrwymo i adael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr gwell, gan adeiladu tuag at adfer pob cynefin posib.

Byddwn ni'n cyflwyno Deddf Natur i osod dyletswydd statudol a thargedau i adfer bioamrywiaeth yn amgylcheddau'r tir a'r môr.

Bydd Cynllun Natur Cenedlaethol hirdymor yn cyflwyno mantolen cyfalaf naturiol

genedlaethol, gyda chynigion ar gyfer enillion cyfalaf a chynhaliaeth gyda gwariant, a phroses archwilio annibynnol wedi'i nodi'n glir. Byddwn ni'n buddsoddi mewn diogelu a datblygu rhwydwaith eang o safleoedd bywyd gwyllt, gyda ffocws penodol ar wella safleoedd gwarchodedig presennol.

Byddwn ni'n cynyddu cyllideb gorfodi amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn ni'n sicrhau bod dirwyon yn ddigonol er mwyn atal mwy o lygredd. Byddwn ni'n defnyddio datblygiadau newydd ym maes technoleg ddigidol i fesur datgoedwigo, colli cynefinoedd, amrywiaeth genetig a biolegol, ansawdd pridd, a glendid dŵr afon a'r môr yn rheolaidd ac yn gywir. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro cynnydd a gwella effeithiolrwydd gwaith gorfodi.

Bydd ein Deddf Natur hefyd yn cau'r bwlch llywodraethu amgylcheddol sydd wedi'i greu drwy ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, drwy sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol ar gyfer Cymru.

Byddwn ni'n buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhwydwaith eang o safleoedd bywyd gwyllt, gyda ffocws penodol ar wella safleoedd gwarchodedig presennol.

Yn ogystal, bydd sicrhau y bydd gofod gwyrdd o ansawdd da o fewn pum munud ar droed i bob cartref yng Nghymru yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth. Byddwn ni'n defnyddio'r system gynllunio i sicrhau bod gofodau gwyrdd naturiol yng nghymunedau pobl yn hawl sylfaenol; mae hyn yn hanfodol ar gyfer ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl, ac er mwyn adfer natur.

Byddwn ni'n gwella ac yn ymestyn ardaloedd gwarchodedig morol Cymru, a byddwn ni'n ymchwilio i greu Parc Cenedlaethol y Môr ym Mae Ceredigion a'r Môr Celtaidd. Bydd ein hymagwedd yn cynnwys yr holl randdeiliaid ac yn ystyried cynaliadwyedd diwydiant pysgota Cymru.

Taclo Newid Hinsawdd

Fel blaenoriaeth, yn ein blwyddyn gyntaf yn y Llywodraeth, byddwn ni'n cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru er mwyn diogelu, drwy ddeddf, iechyd ein dinasyddion a'n hecosystemau rhag llygryddion yn ein hatmosffer.

Bydd ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Parciau Cenedlaethol yn adlewyrchu'r rôl allweddol sydd ganddyn nhw i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Coedwigaeth

Bydd ail-goedwigo Cymru yn nod cenedlaethol. Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu ac yn ei roi ar waith i sicrhau bod coed yn llenwi o leiaf 20 y cant o ardaloedd trefol. Bydd hyn yn cynnwys cryfhau goruchwyliaeth reoleiddiol i ddiogelu gofodau gwyrdd. Bydd angen trwydded arbennig i gwmpo coed, a bydd angen plannu coed ychwanegol yn eu lle.

Mae ein targed ar gyfer creu coedwigoedd yn cynnwys plannu 100,000 hectar o goetir cymysg bob degawd yng Nghymru, gan arwain at gynydd o 300,000 hectar erbyn 2050.

Byddwn ni'n sicrhau gwaith rheoli gweithredol gwell o goetiroedd newydd a phresennol, er mwyn gwella cynefin bywyd gwyllt a phlanhigion, ac i sicrhau ein bod ni'n plannu detholiad amrywiol o goed i ddiogelu yn erbyn plâu ac afiechydon newydd gydag ymagwedd 'y goeden gywir yn y lle cywir' wrth adfer coedwigoedd.

Bydd yr ymagwedd 'gwrychoedd a lleiniau' yn chwarae rhan allweddol yn helpu i gyflawni ein targedau, a byddwn ni'n gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir, fel rhan o'u rôl amaeth-amgylcheddol, i ymestyn cynefinoedd gwrychoedd, lleiniau cysgodi, ochr nentydd ac ymylon caeau.

Bydd ein huchelgais o ran coedwigaeth yn ymestyn i foroedd Cymru, gyda choedwigoedd gwymon a dolydd morwellt yn cyfrannu at ein targedau bioamrywiaeth a lleihau carbon. Byddwn ni'n gwneud Cymru yn genedl lle nad oes datgoedwigo, drwy weithio gyda Llywodraeth

y Deyrnas Unedig i ddeddfu er mwyn rhoi diwedd ar fewnforio nwyddau sydd wedi achosi datgoedwigo. Byddwn ni hefyd yn cyflwyno targedau dim datgoedwigo ym mholisi caffael Cymru fel rhan o'n trosglwyddiad i ddefnyddio nwyddau cynaliadwy sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

Gwastraff a Phlastig

Erbyn 2030, fydd dim gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, a byddwn ni'n rhoi diwedd ar losgi gwastraff. Bydd unrhyw gynnyrch na ellir ei aildefnyddio, ei drwsio, ei ail-lenwi, ei ail-gylchredeg neu ei ailgylchu yn cael ei gynllunio allan o'r system. Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r broblem gwastraff plastig drwy wahardd plastigau untro nad ydyn nhw'n hanfodol yn syth yn 2021, gan gynnwys bagiau plastig, gwellt yfed plastig, cyllyll a ffyrç plastig, Styrofoam a chadachau gwlyb nad ydyn nhw'n fioddiraddadwy.

Fel cam tuag at hynny, byddwn ni'n cynyddu'r targed statudol ar gyfer ailgylchu gwastraff trefol i 80 y cant erbyn 2026, gan ychwanegu mwy o ddeunyddiau i'r rhestr o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, a gosod targedau uchelgeisiol newydd ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol. Byddwn ni'n cyflwyno targedau rhwymol i haneru gwastraff bwyd o'r fferm i'r fforc erbyn 2030.

Bydd targedau ailgylchu yn cael eu cymell drwy gronfa her ar gyfer cymunedau di-wastraff mewn trefi, dinasoedd, pentrefi a chymoedd sy'n dymuno arloesi yn y daith tuag at economi gylchol.

Byddwn ni'n deddfu i wneud cwmnïau sy'n cynhyrchu pecynnu yn gyfrifol yn ariannol am eu heffaith amgylcheddol, ac yn creu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli a chaniau. Er mwyn atal gwastraff, byddwn ni'n cyflwyno ardoll ar bob cwpan un defnydd a lenwir ar y pwynt gwerthu, y bydd y cwsmer yn ei dalu, er mwyn annog pobl i ddefnyddio opsiynau aildefnyddiadwy.

Taclo Newid Hinsawdd

Llifogydd ac Afonydd

Byddwn ni'n rhoi mwy o bwyslais ar atal llifogydd mewn canllawiau cynllunio, gan gydnabod y bydd newid hinsawdd yn gwneud digwyddiadau llifogydd difrifol yn fwy tebygol yn y dyfodol.

Byddwn ni:




- Yn darparu safon wydnwch genedlaethol yn erbyn llifogydd, gyda thebygolrwydd blynyddol o 0.5 y cant erbyn 2050. Byddwn ni'n gofyn i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gyflwyno ei asesiad o'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r targed hwn.
- Yn ymrwmo i gynyddu lefel y buddsoddiad mewn rheoli llifogydd, gan gynnwys rheoli llifogydd naturiol, i £500 miliwn dros gyfnod y Senedd hon.
- Yn diwygio rheoliadau cynllunio i sicrhau bod pob datblygiad newydd o 2022 ymlaen yn wydn yn erbyn llifogydd, gyda thebygolrwydd blynyddol o 0.5 y cant am ei oes, ac nad yw'n cynyddu risg mewn mannau eraill.
- Yn gofyn i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol gyflwyno cynlluniau wedi'u diweddarau ar gyfer eu hardaloedd erbyn mis Medi 2021.

Byddwn ni'n sicrhau bod cyfrifoldeb awdurdodau perthnasol dros reoli llifogydd wedi'i nodi'n glir. Byddwn ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r cymdogaethau hynny sydd mewn perygl uchel o lifogydd, ynghyd â'r rhai sydd â chyfran uchel o breswylwyr sy'n agored i niwed. Byddwn ni'n gweithio gyda'r cymunedau hyn fel blaenoriaeth i ddatblygu ac i ariannu cynlluniau cymunedol ar gyfer atal ac addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys datrysiadau ar sail natur.

Gan weithredu drwy Gyfoeth Naturiol Cymru, byddwn ni'n creu rhwydwaith o weithredwyr systemau afonydd, a fydd yn gyfrifol am bob

un o'r dalgylchoedd afonydd, i atal llygredd a chydlynu buddsoddiad mewn gwaith rheoli llifogydd naturiol amgen.

Rydyn ni'n ymrwmo i gynnal ymchwiliad cyhoeddus ar lifogydd i ddysgu gwersi gan y llifogydd sylweddol a ddigwyddodd ledled Cymru yn 2020 ac i weithredu ar ei argymhellion.





GOFALU AM BOBL CYMRU

Crynodeb

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">- Adeiladu Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol lle ceir gofal personol am ddim pan fo'i angen.- Gwneud Cydraddoldeb Iechyd yn nod gan y Llywodraeth, gyda phwyslais ar fesurau ataliol sy'n gwella iechyd meddwl ac yn annog ymarfer corff.- Cyflwyno Deddf Aer Glân ac archwilio'r achos dros Dreth Bwyd Sothach.- Darparu 6,000 o weithwyr gofal iechyd ychwanegol i Gymru – 4,000 o nyrsys, 1,000 o feddygon, a 1,000 o weithwyr iechyd cysylltiedig. | <ul style="list-style-type: none">- Cynllunio ar gyfer adfer y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl Covid-19 i: (i) Drin cleifion sydd â'r angen mwyaf, yn enwedig y rhai â Covid Hir; (ii) Cefnogi staff sydd â straen parhaus; a (iii) Paratoi ar gyfer pandemigau posib yn y dyfodol.- Darparu canolfannau diagnostig newydd ar gyfer canser a chyflyrau eraill i sicrhau triniaeth gynnar. |
|---|---|



HOPE

Gofalu am Bobl Cymru

Yn dilyn y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni i gyd yn gwerthfawrogi ein gwasanaethau iechyd a gofal yn fwy nag erioed. Rydyn ni wedi gweld anhunanoldeb y staff, sydd wedi mynd yr ail filltir ddydd ar ôl dydd i'n cadw ni'n ddiogel, i achub bywydau, ac i ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed.

Ond rydyn ni hefyd wedi gweld pa mor fregus ac anghynnaladwy yw'r gwasanaethau hynny, y diffyg buddsoddiad a arweiniodd at orddibyniaeth ar ewyllys da ac ymrwymiad llwyr y gweithlu iechyd a gofal.

Mae'n hanfodol ein bod ni nawr yn rhyddhau'r pwysau, yn eu had-dalu am eu hymrwymiad pan oedden ni mewn angen, i roi'r cymorth sydd ei angen arny'n nhw i wneud yr hyn maen nhw wedi'u hyfforddi i'w wneud. Gofalu.

Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y foment hon, nid yn unig i ailadeiladu ac i ddal i fyny gyda'r gwaith sydd wedi cronni, ond i greu cynaliadwyedd newydd, gwydnwch newydd, mewn Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol ar ei newydd wedd.

Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol

Un o lwyddiannau mwyaf yr 20fed Ganrif oedd creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, fel na ddylai salwch, damweiniau nac afiechydon arwain at fygythiad o fynd i ddyled ariannol.

Mae Plaid Cymru'n credu bod angen yr un dull arnon ni ar gyfer gofal personol. Boed hynny oherwydd oedran, anabledd, salwch dros dro, neu gyflwr cronig, bydd angen cymorth gyda bywyd bob dydd ar lawer ohonon ni. Mae'n bosib y bydd angen gofod diogel i fyw ynddo a gofal parhaol ar rai ohonon ni.

Ein huchelgais yw bod gofal personol am ddim pan fo'i angen.

Er bod angen mwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaethau, gall Cymru fod yn falch iawn o'r gwasanaethau gofal a gynigir ar hyn o bryd i bobl sy'n byw gartref ac mewn gofal preswyl. Yn achos y rhai ohonon ni sy'n derbyn gofal gan y gwasanaethau hyn, neu sydd ag anwyliad yn y sefyllfa hon, dydy ymroddiad y staff yn ddim byd newydd i ni, ond mae COVID-19 wedi agor llygaid llawer o bobl eraill i'r gwaith caled, y dyfeisgarwch a'r heriau a wynebwr wrth ddarparu cymorth gofal yn y cartref, gofal nyrsio yn y gymuned, ac ansawdd bywyd i breswylwyr mewn cartrefi gofal.

Ein huchelgais yw sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ym maes gofal yn cael eu gwobrwyo a'u cydnabod fel maen nhw'n ei haeddu, a bod ganddyn nhw'r hunan-reolaeth a'r cyllid i ddarparu gwasanaethau gofal o ansawdd uchel y gallan nhw fod yn falch ohono.

Mae'n peri pryder i bobl pan fyddan nhw'n gorfod aros yn yr ysbyty neu ddiodeff pan fydd gwasanaethau'n dadlau a yw'r anghenion gofal yn fater 'cymdeithasol' neu 'iechyd', a phwy fydd yn talu am y pecyn gofal. Mae'r system bresennol yn annerbyniol ac allwn ni ddim o'i hamddiffyn.

Pam ddylai person â dementia sydd angen cymorth gofal personol 24 awr y dydd er mwyn mynd i'r tŷ bach, symud i atal briwiau pwysedd, cymorth gyda bwydo ac yfed, glywed nad yw eu hanghenion yn anghenion gofal iechyd, ac nad oes cyllid gan y GIG ar gael?

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn cymryd y camau canlynol i gyflawni ein gweledigaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf:

- Byddwn ni'n sefydlu Comisiwn i archwilio ffyrdd y gallwn gyrchu arian ychwanegol i ariannu'r gwaith o greu Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol di-dor, sydd am ddim pan fo'i angen. Bydd y Comisiwn yn adrodd mewn blwyddyn, ac yn ystyried yr opsiwn a ffefrir gan Blaid Cymru, sef defnyddio

Gofalu am Bobl Cymru

trethiant cyffredinol. Bydd hefyd yn ystyried Cronfa Gofal Cymdeithasol ar sail ardoll, yn debyg i'r hyn a awgrymwyd gan Gerald Holtham.

- Bydd ein Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol newydd yn sefydlu fframweithiau cenedlaethol ar gyfer darparu pob agwedd ar iechyd a gofal, ac ar gyfer integreiddio'n ddi-dor i ddarparu ar lefel leol, gan ddod â llywodraeth leol a byrddau iechyd ynghyd mewn Partneriaethau Gofal Rhanbarthol newydd.
- Diwygio'r broses asesu gofal er mwyn iddi ganolbwyntio ar nodi angen gofal personol, n hytrach na bod yn seiliedig ar ddiffiniad mympwyol o 'iechyd' neu 'ofal cymdeithasol'.
- Gosod ein disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y cyfraniad byw unigol (neu gostau 'gwesty') angenrheidiol – ac yn bwysicach fyth, gosod cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer lleihau neu gael gwared ar yr agwedd hon.
- Buddsoddi yn ystod ac ansawdd y gofal yn y gymuned, drwy ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys nyrsio cymunedol, a chynyddu nifer y nyrsys ardal a'r nyrsys sydd â gradd meistr gymunedol.
- Byddwn ni'n gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod tâl, telerau ac amodau gweithwyr gofal yn cael eu cynyddu i fod yn gyson â rhai staff y GIG, gan ddechrau gyda gwneud lleiafswm cyflog o £10 yn orfodol ar gyfer pob darparwr gofal sy'n cael arian cyhoeddus a mynd i'r afael â chyflog salwch.
- Codi proffil a statws nyrsys a gofal nyrsio mewn cartrefi gofal, drwy gynyddu lleoliadau myfyrwyr nyrsio mewn cartrefi gofal, ochr yn ochr â datblygu llwybrau

gyrfaol i swyddi arbenigol ac ymgynghorol ym meysydd gofal Pobl Hŷn, Atal a Rheoli Heintiau, a gofal dementia.

Cydraddoldeb yn Iechyd y Cyhoedd

Mae'r twf mewn disgwyliad oes yng Nghymru wedi arafu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae anghydraddoldebau iechyd wedi cynyddu. Mae modd gweld yn barod mai'r cymunedau tlotaf sydd wedi'u taro waethaf gan COVID-19. Mae gormod o bobl yng Nghymru yn cael eu hatal rhag gweithio, gofalu, a mwynhau bywyd oherwydd iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael.

Cydraddoldeb iechyd fydd y nod i Lywodraeth Plaid Cymru – gyda chmau i wella mynediad at ofal i bawb, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff. Byddwn ni:

- Yn annog mynd am dro a beicio, gan ganolbwyntio'n benodol ar hygyrchedd ar gyfer grwpiau anabl. Bydd buddsoddiad mewn pafinau gwell, cyrbiau isel, tai bach cyhoeddus a meinciau, ac mewn gwella hygyrchedd i'r cyhoedd at gyfleusterau fel parciau, a thrafnidiaeth gyhoeddus bysiau a rheilffyrdd. Bydd rheoliadau cynllunio i gefnogi hygyrchedd yn cael eu cryfhau.
- Yn buddsoddi yn y Gwasanaethau Ieuencid a Chanolfannau Ieuencid ym mhob ardal – gan sicrhau eu bod yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n cynnig cyngor iechyd meddwl a chynghor iechyd rhyw.
- Yn cynyddu mynediad at wasanaethau iechyd rhyw, a gwybodaeth, profion, a thriniaeth gynnar.
- Yn gweithio gyda chyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus, fel y GIG a llywodraeth leol, i sicrhau bod gan staff fynediad at wasanaeth iechyd galwedigaethol a chyfleusterau hamdden a chwaraeon – a byddwn ni'n gweithio gyda darparwyr

Gofalu am Bobl Cymru

busnesau i weld sut gellir ehangu'r mynediad hwn i weithwyr busnesau bach a chanolig.

- Yn ei gwneud yn ofynnol bod pob ysgol yn cyflawni'r gofyniad bod plant yn cael cyfle i wneud o leiaf ddwy awr o ymarfer corff yr wythnos.
- Yn sicrhau bod sefydliadau ôl-16 yn darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden ac yn annog cyfranogiad gan fynychwyr.
- Yn annog ac yn ehangu ar ragnodi cymdeithasol – fel garddio, cerdded a nofio – a byddwn yn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgarwch cymunedol.
- Yn annog bwyta'n iach drwy fonitro mynediad at fwyd iach yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, gan sicrhau bod coginio ar y cwrwclwm, ac archwilio'r opsiwn o gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer Treth Bwyd Sothach.
- Yn fflworideiddio cyflenwad dŵr Cymru i greu lleihad o 25 y cant mewn ceudodau yn nannedd plant.

Byddwn ni'n anelu i roi diwedd ar drosglwyddo HIV yng Nghymru erbyn 2026. Byddwn ni:

- Yn cynyddu mynediad at wasanaethau iechyd rhyw, gwybodaeth, profion, a thriniaeth gynnar.
- Yn ariannu mynediad at broffylacsis cyn gysylltiad (PrEP).
- Yn cefnogi addysg, ymchwil a grwpiau cymunedol sy'n brwydo yn erbyn AIDS.

Deddf Aer Glân

Byddwn ni'n cyflwyno Deddf Aer Glân i sefydlu parthau aer glân mewn trefi a dinasoedd. Bydd hyn:

- Yn creu Parthau Aer Glân mewn ardaloedd â llygredd uchel, gyda gwaith wedi'i dargedu ar drafnidiaeth, diwydiant, a

llosgi pren a thanwydd solet domestig, gyda Chaerdydd, Abertawe, Wrecsam, a Chasnewydd yn cael eu trin fel mater o frys.

- Yn rhoi hawl i gymunedau osod offer monitro llygredd y tu allan i ysgolion ac ysbytai.
- Yn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno ffioedd llygredd.

Treth Bwyd Sothach

Byddwn ni'n archwilio'r achos iechyd y cyhoedd dros dreth bwyd sothach, fel sydd wedi'i chyflwyno mewn gwledydd eraill fel Mecsico a Hwngari. Rydyn ni'n gwybod bod cynnyrch bwyd sy'n cynnwys lefelau uchel o siwgwr a halen yn gyfrifol am achosi gordewdra a chyflyrau cysylltiedig fel diabetes a chlefyd cardiofasgwlaidd. Byddai treth ar gynnyrch bwyd afiach yn debygol o newid ymddygiad a pherswadio gweithgynhyrchwyr i wella eu cynnyrch, fel ddigwyddodd gyda'r dreth diodydd siwgrog.

Iechyd Meddwl

Mae iechyd meddwl gwael yn gallu effeithio ar oddeutu chwarter y boblogaeth dros unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Serch hynny, dim ond 11 y cant o gyllideb y GIG sy'n cael ei gwario ar wasanaethau iechyd meddwl. Dim ond un ymhob tri pherson â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael triniaeth – a hyd yn oed ar gyfer y lleiafrif ffodus hwn, mae rhestrau aros hir. Rydyn ni'n ymrwymo i gynyddu'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i iechyd meddwl ac emosiynol bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf.

Byddwn ni'n sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Lles Ieuencid ar gyfer cymorth iechyd meddwl a chorfforol i bobl ifanc nad ydyn nhw'n ddigon sâl i fod angen triniaeth seiciatryddol uwch, ond y mae angen cymorth arnyn nhw. Byddwn ni'n gosod y Canolfannau hyn mewn trefi ledled Cymru sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da, gyda'r nod o wneud y gwasanaeth mor hygyrch â phosib.

Gofalu am Bobl Cymru

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn ehangu'r cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc mewn gofal i 25 oed.
- Yn darparu Therapi Ymddygiad Gwybyddol a therapïau siarad eraill yn ehangach.
- Yn cynnwys adsefydlu a thrin y rhai sydd ag anhwylderau bwyta yn ein darpariaeth iechyd meddwl.
- Yn sicrhau bod iechyd meddwl ac emosiynol yn cael ei blethu i graidd ymarfer iechyd, er mwyn helpu i gyfyngu ar y nifer o bobl sy'n mynd i'r ysbyty.

Mae'n rhaid hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol fel rhan hanfodol o iechyd y cyhoedd. Byddwn:

- Yn hyrwyddo gwydnwch emosiynol a iechyd meddwl da mewn ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 a chanolfannau ieuencid.
- Yn buddsoddi mewn nyrsys ysgolion a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- Yn sicrhau bod cwnsela ar gael mewn gofal sylfaenol, a bod gan Feddygon Teulu fynediad at adnoddau lleol er mwyn cyfeirio pobl yn briodol.
- Yn archwilio mynediad at wasanaethau iechyd meddwl fel rhan o wasanaethau iechyd galwedigaethol, ac yn chwilio am ffyrdd o wneud y cymorth hwn ar gael i bob cyflogwr.
- Yn cynyddu addysg broffesiynol mewn Therapi Ymddygiad Gwybyddol a therapïau siarad eraill i gynyddu argaeledd y gwasanaeth hwn.
- Yn chwilio am bob cyfle i annog buddsoddiad cymunedol mewn cyfleusterau chwaraeon y tu hwnt i gyllid gan y Llywodraeth.

Mynediad at Ofal

Caiff anghydraddoldebau iechyd eu creu a'u gwaethygu pan fydd cymunedau'n methu â chael mynediad at wasanaethau gofal. Mae angen i ni feddwl yn ofalus ac yn greadigol am sut rydyn ni'n siapio ein gwasanaethau i addasu at anghenion y boblogaeth, yn hytrach na disgwyl i bobl ymdrechu i addasu i'r gwasanaeth, a'u beio nhw pan na allan nhw wneud hynny.

Mae Trafnidiaeth Gyhoeddus yn enghraifft amlwg o hyn – os nad oes llwybr bysiau yn mynd heibio i'r ysbyty, sut mae disgwyl i bobl heb gar deithio yno? Mae canoli gwasanaethau iechyd heb gynllunio ar gyfer yr angen hwn yn annerbyniol.

Mae Mynediad Ar-lein at wasanaethau yn gynyddol bwysig. Mae llawer o bobl eisoes wedi elwa ar y gallu i gael ymgynghoriad â'r Meddyg Teulu dros y ffôn, neu adnewyddu eu presgripsiwn ar-lein. Serch hynny, mae angen i ni sicrhau bod gan bob cymuned fynediad at y math hwn o dechnoleg, a'r sgiliau i'w defnyddio, ac na chaiff neb eu gadael ar ôl.

Byddwn ni'n creu cronfa arloesedd digidol i greu apiau therapiwtig digidol ar gyfer y prif gyflyrau iechyd, er mwyn rhoi'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol ym mhoced pawb erbyn 2025.

Ymhlith y meysydd eraill sydd angen eu hystyried mae pa mor hygyrch yw ein gwasanaethau gofal i gymunedau anabl, fel y rhai sydd â nam ar eu clyw neu eu golwg. Mae angen cymorth ar grwpiau fel y rhai ag anableddau dysgu i gael mynediad at wasanaethau, ac mae cymunedau fel y gymuned LHDT yn adrodd am brofiadau annymunol o gamddealltwriaeth a rhagfarn.

Gofalu am Bobl Cymru

Chwe Mil yn Ychwanegol o Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol i Gymru

Bydd gan Lywodraeth Plaid Cymru gynllun pum mlynedd i recriwtio ac i addysgu 4,000 o nyrsys ychwanegol, 1,000 o feddygon, a 1,000 o weithwyr gofal iechyd cysylltiedig, fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac ati.

Bydd ein strategaethau ar gyfer y gweithlu yn edrych ar addysgu myfyrwyr gofal iechyd mewn ffordd sy'n darparu'r ymgynghorwyr a'r arbenigwyr fydd eu hangen arnon ni mewn ugain mlynedd. Bydd yr ymagwedd hon tuag at addysg o fudd i ddatblygiad gwasanaethau, ac yn denu'r myfyrwyr gorau a'r mwyaf disglair.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn ni'n cynnal sioeau teithiol ledled Cymru, a fydd yn gwasanaethu'r ddau ddiben o hyrwyddo bywydau mwy iach a hyrwyddo gyrfaedd mewn gofal. Bydd hyn yn cynnwys mynd i ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion.

Byddwn ni:

- Yn gwella mynediad at ofal sylfaenol drwy archwilio cymhellion i Feddygon Teulu weithio mewn ardaloedd lle mae prinder. Byddwn ni'n creu mwy o swyddi cyflogedig meddygon teulu ac ymarferwyr nyrsio uwch mewn ardaloedd sy'n methu â denu gyda'r modelau meddyg teulu mwy traddodiadol.
- Yn gwella ansawdd gofal drwy sicrhau bod gan staff iechyd a gofal cymdeithasol fynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Yn sefydlu Strategaeth Cadw Nyrsys y GIG er mwyn atal y broblem niweidiol a drud bod staff nyrsio'n gadael.
- Yn gwella gallu pobl, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed fel pobl â dementia a phlant ifanc, i gael mynediad at ofal yn

Gymraeg. Byddwn ni'n cyflawni hyn drwy gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg, ac yn darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd eisoes yn ein gweithlu er mwyn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg yn broffesiynol.

Adfer ac Ailadeiladu ar ôl COVID-19

Ymhlith y dioddef a'r aflonyddwch a ddigwyddodd i'n bywydau yn sgil Covid-19, mae'r anawsterau y mae'r bobl yn ein gwasanaethau gofal wedi'u hwynebu a'u cryfder wedi bod yn syfrdanol. Mewn rôl sydd eisoes yn gofyn llawer, mae ein staff wedi mynd ymhellach nag erioed o'r blaen, gan beryglu eu bywydau i ofalu am y rhai mewn angen. Mae angen i ni ddeall graddfa'r trawma a'r blinder mae ein staff yn ei wynebu, a chynllunio ein gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd nesaf mewn modd priodol.

Er bod natur y pandemig hwn yn wirioneddol anrhagweladwy yn y camau cynnar, mae'n amlwg y gellid bod wedi paratoi cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol yn well. Mae'n rhaid ni beidio â bod ofn dysgu gwersi gan y pandemig hwn, fel bod y genhedlaeth nesaf mewn sefyllfa well i wynebu unrhyw anawsterau tebyg.

Tarfwyd ar wasanaethau gofal iechyd rheolaidd wrth i nifer fawr o staff gael eu symud i gefnogi gofal dwys a chartrefi gofal, ac yna sicrhau bod y brechiad yn cael ei gyflwyno'n llyfn. Yn anffodus, bydd rhestrau aros ac angen heb ei fodloni yn cronni ar raddfa nad ydyn ni wedi'i gweld ers degawd, a bydd angen i ni fel cenedl gynllunio ar gyfer hyn.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru:

- Yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer pandemig drwy fod â phentyrrau cyfarpar diogelu personol priodol a threfniadau cyrchu, ynghyd â phrotocolau cyfathrebu a mesurau eraill yr ystyrir eu bod yn

Gofalu am Bobl Cymru

angenrheidiol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

- Yn cynyddu nifer y Nyrsys Atal a Rheoli Heintiau arbenigol, ac yn sicrhau bod y cyngor a'r cymorth hwn yn ehangu i gynnwys cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cymunedol.
- Yn sicrhau bod gan staff iechyd a gofal cymdeithasol fynediad at gwnsela a gwasanaethau cymorth eraill sydd eu hangen arnynt.
- Yn cynllunio ein hadferiad o wasanaethau gofal 'arferol' mewn modd synhwyrol a chynaliadwy.
- Yn sicrhau bod gan GIG Cymru yr adnoddau a'r craffu effeithiol sydd ei angen arno er mwyn sicrhau rhaglenni effeithiol ar gyfer adrodd ystadegol, brechu, a phrofi ac olrhain yn y dyfodol.
- Yn cynnal ymchwiliad penodol i Gymru i sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o ymateb Cymru i'r pandemig.

Gwasanaethau Gofal Arbenigol

Mae sawl maes o ofal arbenigol yng Nghymru sydd wedi cael eu hesgeuluso, a bydd angen cynlluniau strategol penodol ar gyfer buddsoddi. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gofal newyddenedigol, lle mae pobl yng Nghymru wedi gorfod dewis rhwng gorweithio staff presennol neu gau gwasanaethau ers llawer yn rhy hir. Enghraifft arall yw gwasanaethau gofal diwedd oes, lle mae angen buddsoddi mewn gofal hosbis a gofal diwedd oes yn y gymuned. Ar hyn o bryd, mae "COVID hir" yn dod i'r amlwg fel cyflwr lle bydd angen sylw cenedlaethol i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar waith ar gyfer y rhai sy'n dioddef.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod yr holl feysydd hyn yn cael sylw strategol, a bod llinell atebolrwydd genedlaethol glir i wella gwasanaethau ledled Cymru.

Canser

Byddwn ni'n cyflwyno cynllun canser newydd i Gymru. Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at ohirio rhaglenni diagnostig a sgrinio, ac mae perygl y byddwn ni'n rhoi sawl diagnosis o ganser yn hwyrach nag y bydden ni fel arall. Byddwn ni'n blaenoriaethu'r gwaith parhaus o gyflwyno canolfannau diagnostig amlddisgyblaethol ledled Cymru, gan wneud mynediad at brofion diagnostig yn haws i gleifion ac i Feddygon Teulu.

Lle mae'r dystiolaeth glinigol yn cefnogi hynny, byddwn ni'n ehangu rhaglenni sgrinio ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hyrwyddo'n gywir. Byddwn ni'n defnyddio unedau sgrinio symudol i fynd â'r gwasanaeth at y cymunedau anoddaf eu cyrraedd, ac yn sicrhau trosiant cyflym o ganlyniadau fel bod modd rhoi diagnosis o ganser yn gynharach.

Ar ôl rhoi diagnosis, byddwn ni'n sicrhau triniaeth gynharach, gan osod targedau mwy uchelgeisiol o'r diagnosis i'r driniaeth, yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol am yr hyd priodol.

Ar gyfer cleifion sy'n cael diagnosis hwyr, byddwn ni'n ceisio rhoi opsiynau i gymryd rhan mewn profion clinigol i gael mynediad at driniaethau newydd addawol. Byddwn ni hefyd yn sicrhau mynediad blaenoriaeth at dechnoleg y sector preifat fel y ganolfan therapi pelydrau proton yng Nghasnewydd.

Deintyddiaeth

Mae llawer o bobl wedi methu gwasanaethau rheolaidd ac ataliol yn ystod argyfwng y coronafeirws. Gyda llawer o ardaloedd gwledig hefyd yn colli deintyddfeydd y GIG, bydd argyfwng iechyd y geg ar draws y genedl, lle bydd angen cymryd camau ar frys. Felly, byddwn:

- Yn lansio ymgyrch recriwtio i ddenu deintyddion yn ôl i weithio i'r GIG, ac yn ail drafod contractau i wneud gwaith o'r fath yn fwy deniadol yn ariannol.

Gofalu am Bobl Cymru

- Yn adeiladu ar y penderfyniad i sefydlu Uned Hyfforddi ar gyfer y gogledd ym Mhrifysgol Bangor, er mwyn ei gwneud yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant deintyddiaeth ar gyfer Cymru gyfan.
- Yn adfer unedau deintyddion symudol ar gyfer cefn gwlad, gan ddod â gwasanaethau deintyddol i gymunedau sydd wedi cael anhawster yn eu cyrraedd yn y gorffennol.
- Yn cynnal adolygiad o'r ffioedd deintyddol mae cleifion yn eu hwynebu, gan bennu i ba raddau mae hyn yn gweithredu fel rhwystr rhag cael triniaeth, ac yn ystyried ystod o opsiynau i ddisodli'r ffioedd hyn i annog pobl i fynd at y deintydd er mwyn atal pydredd dannedd yn nes ymlaen.

Llywodraethu Gwell a Hawliau Cleifion a Gofalwyr

Byddwn ni'n cyflwyno Siarter Hawl i Ofal, a fydd yn gosod disgwyliadau cenedlaethol o ran amseroedd aros am driniaeth, a'n haddewid hirsefydlog i fod â gwasanaethau hanfodol fel mamolaeth ac achosion brys o fewn pellter rhesymol i gartrefi pobl.

Byddwn ni'n diwygio gwaith llywodraethu a rheoleiddio cyrff iechyd yng Nghymru, i roi mwy o bwyslais ar fod yn agored, ymgysylltiad a ffydd y cyhoedd, canlyniadau'r cleifion, a gwerth i'r cyhoedd. Mae angen bod yn fwy agored a thryloyw wrth gyhoeddi data a gwybodaeth am iechyd, a dylid ei roi ar gael yn hawdd i'r cyhoedd. Dylai cleifion a theuluoedd fod â hawl i gael gwrando ar bwyllgorau adolygu mewnol.

Mae angen eiriolwyr cleifion i helpu cleifion a gofalwyr i ymdrin a dal y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel nawdd cymdeithasol, addysg, awdurdodau lleol a darparwyr tai, i gyfrif.

Byddwn yn sefydlu corff rheoleiddio ar gyfer rheolwyr y GIG, a fydd yn gyfrifol am osod cymwyseddau a datblygiad proffesiynol i reolwyr y GIG, a bydd ganddyn nhw'r gallu i gosbi perfformiad gwael.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Oes Ddigidol

Mae sector iechyd Cymru wedi methu â manteisio ar lawn botensial technoleg ddigidol. Byddwn ni'n cyflwyno'r nod y bydd Cymru'n arweinydd yn y don nesaf o ddigideiddio gofal iechyd.

Byddwn ni'n creu cronfa arloesedd digidol i greu apiau therapiwtig digidol ar gyfer y prif gyflyrau iechyd, er mwyn rhoi'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal Gwladol ym mhoced pawb erbyn 2025.

Byddwn ni'n buddsoddi mewn technoleg ddigidol newydd i sicrhau bod systemau technoleg gwybodaeth yn gydnaws, a bod pawb yng Nghymru'n gallu trefnu apwyntiad gyda Meddyg Teulu ar-lein.

Byrddau Iechyd Newydd ar gyfer y gogledd

Roedd Bwrdd Iechyd y Gogledd o dan Fesurau Arbennig am fwy na phum mlynedd. Mae'n rhy fawr, mae'n cyflogi gormod o ymgynghorwyr rheoli a staff asiantaeth, ac mae ganddo gydberthnasau gwael gyda'r undebau. Byddwn ni'n ei ddisodli gyda dau Fwrdd newydd.

Bydd un ar gyfer y gogledd orllewin, gydag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Bangor yn ganolog iddo, a fydd yn anelu i fod yn arweinydd y byd ym maes meddygaeth wledig. Bydd y llall, ar gyfer y gogledd ddwyrain, yn canolbwyntio ar driniaeth ddewisol, yn sefydlu canolfan ar gyfer rhagoriaeth nyrsio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr, ac yn datblygu gwasanaethau arbenigol sy'n aml yn gorfod cael eu contractio allan i Loegr.

ADDYSG

Crynodeb

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">- Darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn o deuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol, gan ehangu hyn i bob plentyn ysgol gynradd erbyn diwedd ein tymor cyntaf.- Sefydlu addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar o ansawdd byd-eang, gan gynnig 30 awr yr wythnos am ddim i bob plentyn rhwng 24 mis oed ac oedran ysgol.- Cyflogi 4,500 o athrawon a staff cynorthwyol arbenigol ychwanegol mewn ysgolion ledled Cymru erbyn diwedd ein tymor cyntaf. | <ul style="list-style-type: none">- Cynnal adolygiad Gweinidogol o ddarpariaeth ôl-16, gan roi systemau ar waith i roi diwedd ar gystadleuaeth ddiangen mewn addysg ôl-16, a rhoi addysg alwedigaethol ar yr un sylfeini â dysgu academiaidd yn yr ysgol a'r brifysgol.- Lleihau uchafswm y ffi ddysgu y gellir ei chodi ar fyfyrwyr o Gymru ym mhrifysgolion Cymru i £7,500.- Darparu hawliad dysgu gydol oes ar gyfer ailhyfforddi gwerth £5,000 i bawb dros 25 oed. |
|---|--|

Addysg

Prydau Ysgol am Ddim

Ein nod yw darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd ac uwchradd, gyda phwyslais ar ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, cefnogi ffermwyr lleol a busnesau lleol.

Yn y cyfnod cyntaf o gyflwyno'r polisi hwn, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn codi'r trothwy cymhwysedd fel bod plant ym mhob cartref sy'n cael Credyd Cynhwysol yn cael prydau ysgol am ddim. Yna, byddwn ni'n gosod amserlen i ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i bob disgybl, gan ddechrau gyda phrydau ysgol am ddim i'r holl fabanod, ac yna'r holl blant mewn ysgolion cynradd erbyn diwedd ein tymor cyntaf.

Bydd bwyd a chynhyrchu bwyd wedi'i wreiddio ym mywyd ein hysgolion. Drwy gaffael contractau yn lleol lle bo'n bosib, bydd plant yn dysgu o ble mae eu bwyd yn dod, ac yn datblygu'r arfer o fwyta bwyd maethlon sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol yn gynnar yn eu bywyd, gan arwain at blant iachach a manteision ar gyfer yr economi a'r amgylchedd.

Blynyddoedd Cynnar

Byddwn ni'n sefydlu gwasanaeth addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg cenedlaethol am ddim, sef Meithrin Cymru, a fydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel i blant o 12 mis oed tan eu bod yn gymwys ar gyfer addysg lawn amser.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyflwyno dros ddau dymor Llywodraeth, a bydd llawer ohono'n cael ei weithredu yn y tymor cyntaf. Fel cam cyntaf, bydd 30 awr o ofal plant yr wythnos ar gael i blant waeth beth yw statws gwaith eu teulu. Erbyn diwedd tymor cyntaf y Llywodraeth, bydd y cynnig wedi'i ehangu i 30 awr o ofal plant i bob plentyn 2 oed neu'n hŷn.

Byddwn yn buddsoddi yn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys cynyddu nifer yr athrawon meithrin sydd wedi'u cymhwyso â gradd.

Ein nod yw symud tuag at roi Statws Athro Cymwysedig i gymaint o'r sector â phosib, gyda'r cynnydd mewn cyflog, amodau, a statws y byddai hyn yn ei gynnwys. Byddwn ni'n creu cronfa ariannu bwrpasol i gyflawni hyn.

Byddwn ni'n defnyddio'r cam cyntaf o ddatblygiad i sicrhau bod modd i bob plentyn ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol. Drwy weithio gyda darparwyr gofal plant, fel y Mudiad Meithrin, byddwn ni'n anelu i sicrhau bod gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ym mhob rhan o Gymru. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cefnogi gan waith cynllunio gweithlu, targedau a diwygiadau pellach mewn Deddf Addysg Gymraeg.

Byddwn ni'n cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg am ddim i athrawon meithrin yn y sector cyfrwng Saesneg, fel bod modd iddyn nhw fanteisio ar gyfleoedd gwaith newydd cyfrwng Cymraeg.

Ysgolion

Cyllid

Bydd Plaid Cymru'n buddsoddi mwy yn ein hysgolion i gyflogi mwy o staff. Erbyn diwedd ein tymor cyntaf yn y Llywodraeth byddwn ni:

- Yn recriwtio ac yn cadw 4,500 o athrawon a staff cynorthwyol arbenigol ychwanegol.
- Yn cyflogi mwy o gydlynwyr Anghenion Dysgu.
- Yn cynyddu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol.

Byddwn yn darparu cyllideb tair blynedd ar gyfer addysg fel bod ysgolion a lleoliadau addysg bellach yn gallu cynllunio a defnyddio eu hadnoddau yn well. Byddwn ni'n sicrhau bod cyllid yn cyrraedd y rheng flaen mewn modd effeithiol a phrydlon, gan symud oddi wrth grantiau penodol a dyraniadau munud olaf. Bydd y cyllid ychwanegol rydyn ni wedi'i

Addysg

ddynodi yn caniatáu mwy o gapasiti i ysgolion ar gyfer prosiectau arbennig a datblygu cwricwlwm.

Byddwn ni'n lleihau gweinyddiaeth a biwrocratiaeth ddiangen. Byddwn ni'n sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Byddwn ni'n symleiddio'r hyn a elwir yn 'haen ganol' rhwng ysgolion a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia addysg, prifysgolion, Estyn, CBAC, a Chymwysterau Cymru.

Ysgolion Teulu

Rydyn ni'n credu y dylai ysgolion gynnig gwasanaethau cyfannol ac amlasiantaethol i deuluoedd, gan ddechrau gyda'r Blynyddoedd Cynnar. Byddwn ni'n datblygu meini prawf y cytunir arnynt er mwyn diffinio nodweddion ysgolion teulu, ac yn eu hadeiladu'n rhan o gynlluniau strategol ysgolion.

Bydd ein polisïau rhianta yn adeiladu ar y dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf, i helpu rhieni i ddarparu'r dechrau cynnar gorau posib i'w plant. Rydyn ni'n ymrwymo i dreialu a gwerthuso rhaglenni arloesol a chyflwyno arfer gorau ar fyrder.

Y proffesiwn addysgu

Ar hyn o bryd, mae un ymhob tri athro yn rhoi'r gorau i'r ystafell ddosbarth yn eu pum mlynedd gyntaf. Byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn drwy roi gwerth ar y proffesiwn, a chreu amodau gweithio a chyfleoedd gwell.

Byddwn ni'n codi cyflog cychwynnol athrawon yng Nghymru 10 y cant i £30,000 o 2022 ymlaen, ac yn darparu egwylliau sabothol canol gyrfa i athrawon.

Rydyn ni'n ymrwymo i wneud addysgu yn broffesiwn lefel Meistr, gan ddechrau gyda'r gofyniad bod pob athro newydd gymhwyso yn gweithio tuag at radd meistr a ariennir gan y llywodraeth mewn addysg neu bwnc sy'n

berthnasol i'w gwaith yn yr ystafell ddosbarth o fewn pum mlynedd. Byddwn ni hefyd yn annog athrawon sy'n ymarfer i gael y cymhwyster drwy astudio'n rhan-amser.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn gwella'r gymhareb athrawon-disgyblion, er mwyn galluogi mwy o addysgu grŵp ac un-i-un.
- Yn datblygu llwybrau gyrfaol, gan gynnwys cynlluniau mentora a diwygio cynlluniau cymhelliant.
- Yn penodi mwy o staff nad ydynt yn addysgu i ymdrin ag anghenion disgyblion y tu hwnt i addysg.
- Yn symleiddio'r strwythur athrawon cyflenwi drwy ddychwelyd at system sy'n cael ei rhedeg gan Awdurdodau Addysg Lleol. Dylai fod yr holl weithwyr addysg, athrawon cyflenwi ac athrawon llawn amser fel ei gilydd fynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfa.
- Yn cynnal adolygiad o Addysg Gychwynnol Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i bennu eu perthnasedd i ofynion y cwricwlwm newydd.

Mae gan gynorthwyyr addysgu a staff cynorthwyol ran hanfodol i'w chwarae yn gwneud ysgolion yn drefnwyr profiad y tu hwnt i ffiniau'r ysgol. Byddwn ni'n datblygu hyn fel rhan o rôl fwy deniadol a ffurfiol ar gyfer cynorthwyyr dysgu nad oes ganddyn nhw lwybr gyrfaol clir ar hyn o bryd.

Cymhwysedd Digidol

Rydyn ni'n credu y dylai fod gan bob plentyn yr hyn sydd ei angen arnynt nhw i ddysgu gartref, gan gynnwys gliniadur a darpariaeth di-wifr ddigonol. Byddwn ni'n cyflwyno 'hawliad digidol' ar gyfer pob dysgwr, gan ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau digidol a mynediad rhyngwryd cyflym yn cael eu darparu i bob disgybl.

Addysg

Byddwn ni'n cyflwyno rhaglen gydweithredol fawr newydd ar sgiliau digidol, gan ddod ag addysg, cyflogwyr a'r Llywodraeth ynghyd. Wrth ei chalon bydd ymdrech gasgliadol genedlaethol i sicrhau bod mwy o bobl (pobl ifanc yn benodol) yn dewis ymgysylltu â rhaglenni addysg dechnegol a digidol, i ateb galw'r gymdeithas a'r economi am sgiliau a chymwyseddau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Byddwn ni'n gosod targed o greu 5,000 o raddedigion technoleg ychwanegol y flwyddyn, gyda phwyslais cryf ar gynyddu nifer y graddedigion sy'n fenywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli.

Byddwn ni'n adolygu rôl academiâu addysg a hyfforddiant arbenigol, fel yr Academi Meddalwedd Genedlaethol a'r Sefydliad Codio, i asesu a ydyn nhw'n barod i ateb y galw presennol a'r ehangiad posib y bydd ei angen yn y dyfodol. Byddwn ni'n asesu a oes modd i academiâu arbenigol weithio'n agosach gydag ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a sefydliadau dysgu yn y gwaith, er mwyn prif ffrydio hyfforddiant digidol arbenigol. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r rhaniad digidol, o ran rhywedd, oedran, a gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cymdeithasol, yng nghydestun y gweithlu digidol presennol.

Cau'r bwlch cyrhaeddiad

Mae tiwtora neu hyfforddiant un-i-un yn gallu newid pethau'n llwyr – ond prin yw'r teuluoedd sy'n gallu fforddio hyn ar hyn o bryd. Mae disgyblion sy'n cael tiwtora un-i-un yn dueddol o wneud yn well na'u cyfoedion mewn ystafell ddosbarth draddodiadol. Byddwn ni'n cyflwyno system genedlaethol o diwtora un-i-un ac mewn grwpiau bach mewn ysgolion, lle bydd hawl gan bob disgybl i system hyblyg o diwtora yn yr ysgol.

Mae'r bwlch cyrhaeddiad yn tyfu yn ystod misoedd yr haf pan nad yw plant yn yr ysgol. Byddwn ni'n adeiladu ar raglenni haf gwirfoddol sydd wedi'u cynllunio i bontio'r bwlch.

Er ei bod yn llai cyffredin yng Nghymru na gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, mae addysg breifat yn cyfrannu at anghyfartaledd ym maes addysg. Byddwn ni'n diddymu rhyddhad ardrethi i ysgolion preifat gan ddilyn argymhellion adolygiad Barclay yn yr Alban.

Bydd ysgolion mewn cymunedau difreintiedig yn cael adnoddau i recriwtio ac i gadw athrawon cymwys a phrofiadol. Byddwn ni'n cynllunio llwybrau gyrfaol addysg fel eu bod yn amodol ar dreulio amser mewn ysgolion sydd â lefelau uwch o amddifadedd.

Byddwn ni'n ehangu cyfleoedd i rieni i fod yn rhan o waith dysgu disgyblion. Byddwn ni'n peilota rôl yn arddull 'para-athro' yn yr ystafell ddosbarth, er mwyn atynnu ystod ehangach o bobl i rannu eu sgiliau a'u profiadau. Byddwn ni'n creu rolau mentora a hyfforddi mewn ysgolion ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol.

Cwricwlwm

Mae datblygiad y cwricwlwm newydd yn cyflwyno cyfleoedd cyffrous i drawsnewid ein system addysg. Mae ganddo botensial i hyrwyddo creadigrwydd, cydweithredu, ac arloesedd. Bydd Plaid Cymru'n sicrhau bod gan athrawon yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i baratoi ac i ddefnyddio datblygiad proffesiynol i weithredu'r cwricwlwm yn effeithiol.

Rydyn ni'n cefnogi rôl y cwricwlwm newydd yn meithrin dealltwriaeth well o iechyd meddwl a lles, addysg gorfforol fel elfen graidd, ynghyd â gwersi ar gydberthnasau iach, dinasyddiaeth, hawliau plant, hunaniaeth Gymreig, a thaclo ystrydebau rhywedd. Bydd hanes a straeon Cymru yn eu holl amrywiaeth, gan gynnwys hanesion pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn dod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yn ôl y gyfraith. Byddwn ni'n sicrhau bod gan athrawon y deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw.

Addysg

Drwy ein rhaglen Gorwelion genedlaethol, byddwn ni'n buddsoddi mewn dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Dylai hyn gynnwys dysgu antur a gweithgareddau allgyrsiol o bob math, gan gynnwys ymweliadau astudio a theithiau ysgol, chwaraeon, cerddoriaeth a drama.

Cymwysterau ac Asesu

Rydyn ni o'r farn ei bod hi'n bryd archwilio rhoi mwy o bwyslais ar asesu parhaus yn hytrach nag arholiadau.

Ar ôl ymgynghori â phrifysgolion a chyflogwyr, byddwn ni'n dod â chymwysterau TGAU, Safon Uwch a BTEC i ben yn raddol. Ein nod yw eu disodli gyda fersiwn Cymru o'r Fagloriaeth Ryngwladol. Bydd hon yn drawsddisgyblaethol, ar sail portffolio, o ansawdd uchel, yn ddeinamig ac yn ddigidol. Bydd y Fagloriaeth newydd yn symud oddi wrth y strategaeth o wthio nifer cynyddol o ddisgyblion drwy lwybr academaidd cul, ac yn rhoi statws cyfwerth i addysg fwy galwedigaethol neu dechnegol y bydd ei hangen ar lawer o swyddi'r dyfodol.

Byddwn ni'n adeiladu system addysg sy'n cynnwys profiad byd go iawn, interniaethau, a phrosiectau cymunedol o fathau amrywiol. Gallai hyn gynnwys anfon disgyblion i rannau eraill o'r wlad, neu i wledydd eraill hyd yn oed, er mwyn dod i adnabod diwylliannau eraill a chwblhau prosiectau gwasanaeth gydag aelodau o'r cymunedau hynny.

Cynllun ysgolion yr 21ain Ganrif

Byddwn ni'n sefydlu Comisiwn i archwilio ffyrdd y gall ysgolion ddod yn fwy croesawgar i deuluoedd ac yn fwy addas i ddysgu. Bydd hyn yn cynnwys asesu manteision ailgynllunio'r flwyddyn draddodiadol tri thymor, i'w chysoni ag anghenion yr oes fodern. Bydd hefyd yn archwilio rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion yn strwythur y diwrnod ysgol.

Bydd y Comisiwn hefyd yn archwilio cynlluniau ac amgylcheddau ysgolion, er mwyn eu gwneud nhw'n fwy creadigol, personol, gwresog a chroesawgar. Bydd yn hyrwyddo awyru da, ansawdd aer gwell, ac yn blaenoriaethu golau dydd naturiol, sydd i gyd yn effeithio ar berfformiad yn sylweddol. Bydd hefyd yn annog amrywio maint dosbarthiadau, gyda'r nod o gynyddu cydweithio.

Addysg Ôl-16

Ers yn rhy hir, rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio ar roi dewisiadau deuaidd i bobl ifanc pan maen nhw'n 16 oed: y chweched dosbarth neu'r coleg, y gweithle, neu'r brifysgol.

Byddwn ni'n disodli'r oedran gadael ysgol 16 oed gydag 'oedran cyfranogiad sgiliau' newydd, sef 18 oed. Mae hyn yn golygu y bydd y garfan gyfan un ai mewn addysg neu waith gyda hyfforddiant. Byddwn ni'n gweithio gyda chyflogwyr a cholegau Addysg Bellach i sicrhau, drwy ein diwygiadau Addysg Bellach a gweithio hyblyg, fod pawb sy'n dymuno cael hyfforddiant yn y gwaith yn gallu cael mynediad ato.

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb statws pob llwybr, byddwn ni'n cynyddu cyllid i wasanaethau gyrfaol a chynghori mewn ysgolion a cholegau – gan wyrdroi toriadau dros nifer o flynyddoedd. Bydd yn orfodol bod y rhain yn annog llwybrau galwedigaethol cyn ac ar ôl 16 oed, ynghyd ag addysg uwch.

Byddwn ni'n sefydlu adolygiad strwythurol o'r holl sector Addysg Uwch ac ôl-16 yn ystod chwe mis cyntaf Llywodraeth Plaid Cymru.

Bydd yr adolygiad hwn yn gyfrifol am ddarparu diwygiadau cwricwlwm mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, yn debyg i'r rhai sy'n cael eu cyflawni ar gyfer plant rhwng tair ac 16 oed. Bydd y

Addysg

diwygiadau hyn yn symud o ganolbwyntio ar arholiadau, profion ac ardystiadau, er mwyn pwysleisio gwybodaeth, dysg a sgiliau. Bydd y diwygiadau'n cael gwared ag arbenigo cynnar, y duedd i 'addysgu ar gyfer y prawf', a'r dewisiadau artiffisial rhwng pynciau STEM a phynciau eraill.

Bydd cyflog ac amodau darlithwyr yn cael eu gwella i gadw ac i ddenu gweithwyr proffesiynol o ansawdd uchel.

Addysg Bellach

Byddwn ni'n cynnal adolygiad Gweinidogol o ddarpariaeth ôl-16, gan roi systemau ar waith i roi diwedd ar gystadleuaeth ddiangen mewn addysg ôl-16, a rhoi addysg alwedigaethol ar yr un sylfeini â dysgu academaidd yn yr ysgol a'r brifysgol.

Rydyn ni'n cefnogi proffesiynoli'r gweithlu Addysg Bellach. Drwy ddefnyddio deddfwriaeth bresennol, gallwn osod safonau proffesiynol a gofynion sylfaenol ar gyfer cymhwysedd athrawon Addysg Bellach. Byddwn yn blaenoriaethu denu a chadw'r darlithwyr proffesiwn deuaidd gorau yn yr ystafell ddosbarth.

Byddwn ni'n gweithredu argymhellion adroddiad Colegau Cymru 2020, *Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth* ar addysg alwedigaethol. Bydd rhwydwaith Colegau Addysg Bellach Cymru yn cael ei droi'n hybiau cymunedol ar gyfer cydweithio gyda busnesau ac awdurdodau lleol i greu marchnadoedd llafur lleol mwy cydlynol. Y flaenoriaeth gyntaf fydd gwella sgiliau a chymwysterau'r gweithlu mewn perthynas â gweithgareddau sylfaen yn y sectorau gofal, adeiladu ac amaethyddiaeth.

Byddwn ni'n creu Sefydliadau Technoleg ar safleoedd Addysg Bellach presennol. Bydd hyn yn cryfhau cydweithio rhwng busnesau a Sefydliadau Addysg Bellach, yn cefnogi

cymhwyso arloesedd a thechnoleg newydd yn ymarferol, ac yn cryfhau cadwyni cyflenwi rhwng busnesau bach a chanolig a chwmnïau angor.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn sicrhau bod Cymru'n ymuno ag Arolwg o Sgiliau Oedolion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sef y PIAAC, ac yn gosod nodau mor fanwl ag yr ydyn ni'n ei wneud ar gyfer ysgolion yng nghyd-destun PISA.
- Yn cynyddu gwerth ariannol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg i £45 yr wythnos, a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr Addysg Bellach i £2,350 y flwyddyn – gan eu dychwelyd at lefelau canol y 2000au. Byddwn yn codi'r trothwy cymhwysedd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru fel nad oes yr un person ifanc mewn tlodi yn colli allan.

Prentisiaethau

Byddwn ni'n mabwysiadu model o brentisiaethau hirach gyda mwy o hyfforddiant y tu allan i'r swydd ar oedran iau, gan ehangu prentisiaethau ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, yn unol ag economïau datblygedig eraill. Er mwyn gwneud hyn, byddwn ni'n annog cydweithio rhwng darparwyr hyfforddiant annibynnol a'n rhwydwaith colegau Addysg Bellach cenedlaethol.

Byddwn ni'n adolygu'r grymoedd treth sydd ganddon ni, er mwyn archwilio sut gallen nhw ddatgloi buddsoddiad busnesau mewn sgiliau yn well. Bydd pob cyflogwr sy'n cael arian cyhoeddus ar gyfer datblygu sgiliau, fel ym mhob maes arall, yn atebol o ran rheolau gwaith teg.

Dylid partneru pob prentis o dan 21 oed gyda choleg Addysg Bellach er mwyn sicrhau cymorth priodol, gan gynnwys mynediad at ddiwrnodau yn y coleg neu hyfforddiant/addysg

Addysg

oddi ar y safle ar gyfer sgiliau allweddol neu ddewisiadau addysg priodol eraill.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn sefydlu rhwydwaith sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl ifanc, o bob cefndir, sy'n cael mynediad at brentisiaethau gradd a lefel uwch fel dewis amgen i'r brifysgol.
- Yn gwella mynediad i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig at y prentisiaethau gorau. Bydd cyfran o arian ardoll yn cael ei neilltuo ar gyfer gwario ar fwsariaethau, allgymorth, neu deithio ar gyfer prentisiaid difreintiedig.
- Yn creu porth tebyg i borth UCAS, lle gall pobl ifanc ddod o hyd yn hawdd i wybodaeth am brentisiaethau a chysiau Addysg Bellach ac ymgeisio amdanynt, er mwyn mynd i'r afael â'r broses ymgeisio dameidiog ac i gynyddu cydraddoldeb statws o gymharu â llwybrau academiaidd.
- Yn peilota rhaglen 'Arbenigydd Crefft' newydd, gyda'r nod o ddarparu llwybrau i weithwyr hyn rannu eu profiad gyda chenedlaethau iau. Bydd hyn yn adeiladu ar y fframwaith prentisiaeth meistr grefftwr presennol sy'n cael ei beilota ym maes Peirianeg yng Nghymru.
- Yn cefnogi rhyngwladoli'r cwricwlwm Addysg Bellach, gan roi mynediad at sgiliau a thechnoleg ddiwydiannol o ansawdd byd eang i ddysgwyr technegol a galwedigaethol Cymru.
- Yn diweddarau lefel sgiliau rolau traddodiadol menywod, gan gynyddu eu cyflog a'u statws.
- Yn dynodi cyfran benodol a chynyddol o gyfanswm y gyllideb brentisiaethau i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyfran y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

- Yn mynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth menywod a phobl groenliw mewn prentisiaethau drwy dargedau ymestynnol, yn gysylltiedig â chyllid, ar gyfer pob darparwr hyfforddiant sy'n darparu prentisiaethau er mwyn iddynt fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd ar draws llwybrau prentisiaethau.

Addysg Uwch

Erbyn diwedd tymor y Senedd, rydyn ni'n anelu i sicrhau bod prifysgolion Cymru ymhlith y prifysgolion sy'n cael eu hariannu orau yn y Deyrnas Unedig, drwy wneud y canlynol:

1. Cynyddu nifer y bobl sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru. Bydd denu mwy o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, ynghyd â chadw'r nifer presennol o fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig a thramor, yn arwain at gynydd net yn y myfyrwyr cyffredinol.
2. Cynyddu Buddsoddiad y Llywodraeth mewn Ymchwil a Datblygu.

Fel rhan o'i nod, bydd yn rhaid i'r buddsoddiad hwn helpu prifysgolion Cymru i godi yn y rhestrau byd-eang, ac felly cynyddu pa mor atyniadol ydyn nhw i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd ar hyn o bryd â'u bryd ar brifysgolion yn Lloegr.

Yn gyfnewid am y buddsoddiad uwch hwn ym mhrifysgolion Cymru, byddwn yn mynnu rhaglen ddiwygio uchelgeisiol. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chostau cyflog cynyddol gweinyddu a rheoli mewn Prifysgolion, drwy osod meincnodau ar gyfer nifer y myfyrwyr i weinyddwyr, a gweinyddwyr i gyfadrannau ym mhrifysgolion Cymru. Mae'n rhaid i ni hefyd roi diwedd ar yr arfer gwarthus lle mae Is-Gangellorion yn talu cyflogau gormodol iddyn nhw'u hunain ac yn ecsbloetio telerau ac amodau staff ar lefelau is ar yr un pryd. Byddwn ni'n cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu ym mhrifysgolion Cymru i bennu a ydyn nhw'n addas at y diben,

Addysg

ac yn sicrhau bod swyddi ar y lefel uchaf yn cynrychioli amrywiaeth y dysgwyr maen nhw'n eu gwasanaethu.

Ymchwil

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n cymryd rôl arweiniol yn darparu cyllid ar gyfer ymchwil. Byddwn ni'n ceisio datganoli cyfran Cymru o wariant Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig, a dyrannu grant bloc yn seiliedig ar boblogaeth.

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n gwario oddeutu 1% o'i chynnyrch mewnwladol crynswth ar ymchwil a datblygu (tua £750 miliwn y flwyddyn). Dylen ni osod nod cenedlaethol i ddyblu hynny i 2% erbyn 2030. Byddwn ni'n cynyddu ariannu gan y Llywodraeth ar gyfer arloesedd ac ymchwil a datblygu £100 miliwn erbyn diwedd tymor y Senedd.

Bydd strategaeth a darpariaeth arloesi Cymru'n cael ei gyrru gan gorff Arloesi Cenedlaethol newydd.

Yn ogystal, byddwn yn creu Sefydliad Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Economi'r Dyfodol gan gynnwys Labordy ar gyfer Arloesi'r Gweithle, a fydd yn helpu i roi Cymru ar fap byd-eang fel cenedl ddigidol, ac i hwyluso ymagwedd fwy integredig tuag at gymhwyso ymchwil flaengar ar Ddeallusrwydd Artiffisial ledled Cymru.

Cymorth Ariannol i Fyfirwyr

Byddwn ni'n gostwng uchafswm y ffi ddysgu y gellir ei chodi ar fyfirwyr o Gymru ym mhrifysgolion Cymru i £7,500. Dyma fydd y cam cyntaf tuag at ein nod hirdymor o wneud addysg brifysgol yn rhad ac am ddim unwaith eto.

Bydd benthyciadau a grantiau dysgu a chynhaliath yn cael eu darparu fel maen nhw ar hyn o bryd i fyfirwyr sy'n astudio mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru.

Byddwn ni'n cynyddu'r taliad grant addysgu sy'n gysylltiedig â phob myfyriwr i adlewyrchu costau rhesymol y pwnc yn well, ynghyd â'i werth cymdeithasol ac economaidd i fyfirwyr a threthdalwyr.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Addasu'r rhwydwaith Seren i gynnwys partneriaeth rhwng prifysgolion Cymru i gefnogi pobl o gefndiroedd difreintiedig i wneud cais i'r brifysgol.
- Yn cyflwyno cymorth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i dalu costau Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i ddarparu darpariaeth fwy ar gyfer cyrsiau STEM, peirianeg, rheoli, rhai cyrsiau meddygol, a chysiau technoleg.
- Yn diogelu symudedd myfirwyr am i mewn ac allan rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeidd ar ôl Brexit.

Dysgu Gydol Oes

Er mwyn cydbwysu buddsoddiad addysgol, mae angen i ni ymrwymo i fuddsoddi mewn dysgu gydol oes, yn hytrach na chynnig geiriau gwag. Mae angen i ni ddechrau drwy greu lwfans dysgu gydol oes. Bydd hyn yn cynnwys cymysgedd o grantiau, benthyciadau, a hawl i ddarpariaeth am ddim.

Byddwn ni'n cynnig grant o £5,000 i Gyfrifon Dysgu Personol pob unigolyn dros 25 oed i hyfforddi neu i ailhyfforddi, gyda benthyciadau ychwanegol i dalu am gysiau drutach a chostau cynhaliath pobl sydd am wneud cwrs yn llawn amser (a gaiff ei dalu yn yr un ffordd â benthyciadau myfirwyr). Byddan nhw ar gael i unrhyw un waeth pa gyllid blaenorol byddan nhw wedi'i gael. I ddechrau, byddwn ni'n treialu hyn gyda phobl sydd wedi'u diswyddo yn ddiweddar.

Bydd benthyciadau dysgu a chynhaliath ar Lefel 4, 5 a 6, gan gynnwys ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, ar gael i bob

Addysg

oedolyn 18 oed neu'n hŷn, a bydd ar gael ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch.

Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r cwmp mewn astudio'n rhan-amser ac astudio aeddfed dros y degawd diwethaf. Gallai hyn gynnwys mwy o opsiynau dysgu cyfunol, a symud i ffwrdd o raddau baglor tair blynedd llawn amser at gymysgedd mwy o gyrsiau byrrach rhan-amser a chysiau mwy galwedigaethol. Bydd ein cynnig gofal plant ar gael i'r rhai y mae cyfrifoldebau gofalu yn rhwystr sylweddol rhag dysgu.


Fframwaith Sgiliau i Gymru

Ar hyn o bryd, mae'r rhai sy'n dewis peidio â mynd i'r brifysgol yn cael eu gwasanaethu'n wael gan ein system addysg, os cânt gefnogaeth o gwbl. Drwy danfuddsoddi mewn addysg ymarferol, alwedigaethol, a thechnegol, rydyn ni'n gwastraffu doniau ac yn atal pobl rhag gwreiddu eu potensial.

Byddwn ni'n datblygu Fframwaith Sgiliau newydd i Gymru er mwyn cyflawni ffordd well o gyfateb swyddi i bobl a phobl i swyddi.

Byddwn ni'n creu llwyfan canolog a fydd yn dod â chymorth gyrfaol a chyflogadwyedd sy'n bodoli eisoes ynghyd, er mwyn galluogi pobl i wneud y canlynol:

- Nodi eu sgiliau, eu profiadau, a'u hanes gweithio mewn proffil ar-lein.
- Creu asesiad risg o'u proffil galwedigaeth a'u sgiliau presennol, a dod o hyd i hyfforddiant, profiad gwaith, a chyflogaeth amgen addas.
- Cysylltu ar-lein gyda chyflogwyr i drafod sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith.
- Dysgu am yrfaeodd, hyfforddiant, a chyfleoedd gwaith mewn amser go iawn.
- Cael mynediad at eu Cyfrif Dysgu Personol a gwneud penderfyniadau o ran sut dylid buddsoddi'r cyfrif hwnnw



AMAETH, CEFN GWLAD A THWRISTIAETH

Crynodeb

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">– Ailffocysu cefnogaeth er mwyn helpu ffermwyr i drosglwyddo at ffurfiau mwy cynaliadwy, amrywiol ac ecogyfeillgar o ddefnyddio'r tir.– Gweithredu Bil Amaethyddiaeth i Gymru a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar les cyhoeddus fel datgarboneiddio, cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, a mwy o fioamrywiaeth.– Sefydlu Senedd Wledig ymgynghorol i gryfhau llais cymunedau cefn gwlad.– Creu Comisiwn y System Fwyd traws-sectorol i ddatblygu strategaeth fwyd gyfannol i Gymru. | <ul style="list-style-type: none">– Cefnogi symudiad tuag at dwristiaeth ddiwylliannol i hyrwyddo ein diwylliant amrywiol i'r byd, a chyfrannu at statws y Gymraeg fel iaith fyw.– Dynodi 2023 fel blwyddyn Gŵyl Cymru i arddangos ein cynnig twristiaeth amrywiol i'r byd. |
|---|--|

Amaeth, Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Amaeth a'r Dyfodol

Mae Plaid Cymru'n cydnabod y cyfraniad enfawr y mae'r sector amaethyddol yn ei wneud i Gymru. Mae'r heriau niferus y mae'r sector yn eu hwynebu yn golygu ei bod yn bryd ffurfio cyd-destun newydd i amaethyddiaeth yng Nghymru, gan ddechrau drwy roi gwydnwch ein ffermydd teuluol wrth galon dadeni'r diwydiant. Mae ail-ddyrannu ein system cymorth i ffermydd ar gyfer y cyfnod ar ôl Covid a Brexit yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni wneud y newidiadau pendant sydd eu hangen, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a chydweithio.

Rydyn ni'n cefnogi ffermwyr Cymru yn eu nod i fod yn un o'r sectorau ffermio mwyaf amgylcheddol gynaliadwy yn y byd.

Byddwn ni'n cyflwyno Bil Amaethyddiaeth i Gymru a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar les cyhoeddus fel datgarboneiddio, cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, a mwy o fioamrywiaeth.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod y ffaith, os yw ffermydd am fod yn amgylcheddol gynaliadwy, bod rhaid iddyn nhw fod yn economaidd gynaliadwy. Byddwn ni'n cyflwyno taliad cymorth sylfaenol er mwyn cynnig mwy o sefydlogrwydd economaidd i'r diwydiant. Bydd y gefnogaeth hon yn cael ei defnyddio i annog y safonau uchaf o iechyd y cyhoedd a iechyd a lles anifeiliaid, ac i hwyluso symudiad tuag at ffermio carbon isel a gwerth natur uchel.

Byddwn ni hefyd yn defnyddio buddsoddiad ehangach i gefnogi symudiad at ffurfiau mwy cynaliadwy ac amrywiol o ddefnyddio tir, gan gynnwys ffermio organig, amaethyddiaeth adfywiol, amaethgoedwigaeth, a ffermio cymysg.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn ymrwymo i ddefnydd llawn o gyllid Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2023. Byddwn ni hefyd yn cadw ymrwymiad i'n dyraniad ni o gyllid tuag at yr hyn fyddai wedi dilyn y rhaglen, sef Rhaglen Datblygu Gwledig 2021-27. Byddwn ni'n comisiynu adolygiad annibynnol o

effeithiolrwydd a gwerth am arian prosiectau'r Rhaglen Datblygu Gwledig hyd yma, a fydd yn llywio ein cynigion ar gyfer cefnogaeth i gefn gwlad yn y dyfodol.

Grymuso Cymunedau Cefn Gwlad

Byddwn ni'n ailosod y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaethyddiaeth. Bydd Senedd Wledig ymgynghorol, yn debyg yn ei ffurf i Gynulliad Dinasyddion, yn cryfhau llais cymunedau cefn gwlad ac yn helpu i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw.

Bydd cymorth i ffermydd yn y dyfodol yn targedu ffermwyr gweithredol, a bydd Plaid Cymru'n datblygu strategaeth i ddod â phobl newydd ac ifanc i'r diwydiant. Bydd ffermydd awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol, a byddwn ni'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus a'r trydydd sector yn ehangach i ddod o hyd i ffyrdd o ddiogelu a gwella'r ystâd ffermydd gyhoeddus fel troedle pwysig ar gyfer pobl sy'n newydd i'r diwydiant yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod y cyfraniad cymdeithasol ehangach pwysig y mae clybiau ffermwyr ifanc ledled Cymru'n ei wneud, a byddwn ni'n gweithio gyda'r Clybiau Ffermwyr Ifanc i ddatblygu ac i gynyddu'r rôl allweddol maen nhw'n ei chwarae yn ein cymunedau cefn gwlad.

Rydyn ni'n ymrwymo i ddefnyddio'r mesurau mwyaf effeithiol i reoli ac i waredu TB, gan ddefnyddio gwersi o lefydd eraill yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Byddwn ni hefyd yn cefnogi gwaith i daclo heriau iechyd anifeiliaid eraill, fel Dolor Rhydd Feirysol Buchol a'r Clafr.

Byddwn ni:

- Yn gweithio'n agos gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â throseddau gwledig, yn benodol i geisio datganoli



Amaeth, Cefn Gwlad a Thwristiaeth

grymoedd i allu gweithredu'n fwy ar ymosodiadau cŵn ar dda byw ffermydd.

- Yn cefnogi diwydiant Gwlân Cymru, drwy annog defnydd o wllân Cymru mewn adeiladau cyhoeddus ac wrth adeiladu tai a phrosiectau adnewyddu, ynghyd â chefnogi ymdrechion i gynyddu ymchwil i Wllân Cymru a chapasiti prosesu.
- Yn buddsoddi mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wledig i ymchwilio, datblygu a hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o fodloni anghenion. Byddwn ni'n canolbwyntio'n benodol ar arloesedd yn ymwneud ag ymaddasu i newid hinsawdd, effeithlonrwydd defnydd o adnoddau, lleihau gwastraff, gwella cynyddau a da byw, a rheoli plâu a chlefydau.
- Yn gweithio gyda ffermwyr i leihau effaith a'r defnydd o wrtheithwyr, plaleiddiaid, chwynladdwyr, gwrthfotigau, a lefelau gwastraff nitradau.
- Yn anelu i gynyddu lefel y ffermio organig yng Nghymru yn sylweddol, a thyfu'r sector garddwriaeth yn sylweddol.
- Yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wella cysylltedd gwledig – yn benodol gwasanaethau band llydan a ffonau symudol.
- Yn ymrwymo i weithio gydag elusennau iechyd meddwl gwledig, undebau ffermio, Clybiau Ffermwyr Ifanc ac eraill er mwyn sicrhau bod cymorth a chynghor ar gael ac yn hygyrch i bawb sydd ei angen.

Bydd Plaid Cymru'n ailedrych ar reoliadau Parthau Perygl Nitradau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru ychydig wythnosau cyn yr etholiad.

Roedd gorfodi Parth Perygl Nitradau Cymru gyfan yn mynd yn groes i gyngor ymgynghorydd statudol Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydyn ni o'r farn bod y rheoliadau'n anghymesur, ac y gallai ymagwedd 'ffermio ar sail y calendr' achosi digwyddiadau llygredd eraill. Bydd y buddsoddiad cyfalaf y bydd ei angen i fodloni'r rheoliadau newydd (yr amcangyfrifir eu bod hyd at £360 miliwn gan y Llywodraeth) bron £100 miliwn yn uwch na

chyfanswm yr incwm o ffermio yng Nghymru yn 2019. Bydd hyn yn gorfodi llawer o fusnesau allan o fusnes.

Yn hytrach, byddwn ni'n gweithio gyda'r diwydiant, Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhanddeiliaid eraill i ddiddymu Parthau Perygl Nitradau Llafur, a chyflwyno rheoliadau wedi'u targedu'n well yn ein chwe mis cyntaf yn y Llywodraeth. Bydd hyn yn cael ei ategu ag ymagwedd wirfoddol wydn mewn meysydd eraill, yn seiliedig ar gynlluniau sydd wedi dangos llwyddiant yn lleihau lefelau nitradau.

Pysgodfeydd, Bwyd Môr a Dyframaethu

Mae gan sectorau pysgodfeydd, bwyd môr a dyframaethu Cymru gyfle i ddatblygu ac i gyfrannu at uchelgais Cymru i fod yn flaengar ym maes cynhyrchu bwyd cynaliadwy. Mae mwy o botensial allforio i pysgodfeydd Cymru hefyd nag sydd ganddon ni ar hyn o bryd. Mae'n rhaid manteisio ar dechnoleg a datblygiadau newydd ochr yn ochr ag ymagwedd fwy agored a chynhwysol tuag at reoli pysgodfeydd, lle mae gwyddoniaeth dda, ymgysylltu ac ymchwil wrth galon ymagwedd o gyd-reoli gyda'n cymunedau pysgota.

Mae'r sector wedi wynebu llawer o heriau yn y blynyddoedd diwethaf, gyda Brexit a phandemig Covid-19 yn eu plith. Mae Plaid Cymru'n ymroddedig i gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru. Byddwn ni'n gweithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant i ddatblygu polisi pysgodfeydd a dyframaethu, a fydd wedi'i gefnogi gan strategaeth sydd â chynaliadwyedd, buddsoddi ac ymgysylltu â'r diwydiant wrth ei wraidd.

Lles Anifeiliaid

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adeiladu ar y lefel uchel o safonau lles anifeiliaid sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Byddwn ni:

- Yn gwella gwaith gorfodi a gweithredu gofynion trwyddedu mewn perthynas â

Amaeth, Cefn Gwlad a Thwristiaeth

sefydliadau bridio cŵn yng Nghymru, gan adeiladu ar adolygiad diweddar Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru o'r rheoliadau.

- Yn gwella ar les ceffylau drwy weithredu ar rwybau ceffylau.
- Yn adolygu'r maes gwerthu anifeiliaid anwes, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoleiddio gwerthu anifeiliaid ar-lein.
- Yn cyhoeddi cynigion tenantiaeth model ar anifeiliaid anwes mewn cartrefi cymdeithasol, ac yn gweithio i leihau rhwystrau rhwng perchnogion anifeiliaid sy'n ddigartref a llochesi digartref.
- Yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Codau Ymarfer statudol ar gadw anifeiliaid egsotig yng Nghymru.
- Yn gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes.
- Yn rhoi diwedd ar roi anifeiliaid anwes fel gwobrau.

System Fwyd Cymru

Mae Plaid Cymru'n dymuno gweld Cymru lle mae gan bawb fynediad urddasol at fwyd maethlon sydd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy, mewn ffordd sy'n sicrhau incwm teg i ffermwyr a holl weithwyr y sector bwyd.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n datblygu strategaeth system fwyd i Gymru drwy sefydlu Comisiwn System Fwyd traws-sectorol, a fydd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu map ffordd tuag at 'System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'.

Byddwn ni'n cynyddu capasiti cynhyrchu Cymru drwyddi draw. Bydd dad-wneud y lleihad mewn capasiti prosesu lleol yn gam cadarnhaol ar gyfer y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, ar gyfer lles anifeiliaid, ar gyfer mynd i'r afael â'r newid hinsawdd, ac ar gyfer yr economi wledig.

Dylai pob caffaeliad cyhoeddus am fwyd flaenoriaethu prynu bwyd a gynhyrchwyd yng Nghymru. Gall caffael cyhoeddus lleol

a rhanbarthol – er enghraifft mewn ysgolion, ysbytai a swyddfeydd cyngor – helpu i greu marchnadoedd i fusnesau bwyd lleol.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn hyrwyddo brand 'Gwnaed yng Nghymru' ar gynhyrchion bwyd o Gymru, gan weithio gyda chynhyrchwyr i greu cynhyrchion o ansawdd uchel i apelio at farchnad ehangach.
- Yn creu llwyfan gwerthu ar-lein ar gyfer bwyd o Gymru i'r farchnad gartref.
- Yn darparu cyllid cychwynnol i greu siopau dan berchnogaeth gydweithredol neu gyhoeddus, sy'n arbenigo mewn cynhyrchion a wnaed yng Nghymru, er mwyn rhoi mynediad i bobl at fwyd o ansawdd uchel, rhoi mynediad uniongyrchol at gwsmeriaid i gynhyrchwyr, ac i adfywio canol ein trefi.
- Yn cefnogi datblygiad ffermydd trefol i greu systemau bwyd lleol iawn yn ein dinasoedd.

Twristiaeth

Mae Plaid Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth ledled Cymru fel cyflogwr ac o ran denu buddsoddiad i'r wlad. Byddwn ni'n annog y math o fentrau twristiaeth sy'n darparu'r budd gorau i gymunedau lleol, yn hytrach na'r math o dwristiaeth eithafol sy'n ystyried Cymru fel adnodd i gael ei ecsbloetio gan fuddiannau allanol. Gan gadw hyn mewn cof, byddwn ni'n archwilio ffyrdd o gynyddu perchnogaeth a rheolaeth leol o'r diwydiant.

Rydyn ni am hyrwyddo Cymru fel lleoliad twristiaeth gynaliadwy o ansawdd da, sydd â gweithgareddau a phrofiadau sy'n seiliedig ar ein hadnoddau naturiol, ein cynnyrch, ein harfordir a'n tirlun unigryw, a'n hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth.

Twristiaeth dreftadol yw'r ffurf fwyaf poblogaidd a thraddodiadol o dwristiaeth yng Nghymru, lle caiff twristiaid brofi'r hanes drwy amgueddfeydd

Amaeth, Cefn Gwlad a Thwristiaeth

a safleoedd treftadaeth. Rydyn ni'n cefnogi symudiad tuag at dwristiaeth ddiwylliannol sy'n gallu cyfrannu'n sylweddol at statws y Gymraeg fel iaith fyw. Mae twristiaeth ddiwylliannol hefyd yn hyrwyddo diwylliant amrywiol Cymru i'r byd. Mae'r symudiad hwn wedi bod yn boblogaidd ac yn llwyddiannus yn lwerddon, lle mae twristiaeth wedi canolbwyntio ar fwyd a gwyliau cerddoriaeth a llenyddol.

Enghraifft dda o fenter gymunedol o'r fath yn arwain y ffordd ym maes twristiaeth ddiwylliannol yw Llety Arall yng Nghaernarfon. Byddwn ni'n darparu grantiau ar gyfer mentrau tebyg ledled Cymru.

Byddwn ni'n adolygu rôl Croeso Cymru er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i ddenu twristiaid i Gymru. Byddwn ni'n parhau i ddod â mwy o bobl i Gymru ac yn gwella'r profiad i dwristiaid drwy ganolbwyntio ar gyd-wasanaethau, fel bod twristiaid yn gallu disgwyl aros yn agos at ddigwyddiadau, cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf, a dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Byddwn ni'n sefydlu Tasglu'r Diwydiant i ddatblygu strategaeth ar gyfer dyfodol y sector twristiaeth. Bydd yn ystyried manteision y canlynol:

- Cyflwyno gostyngiadau wedi'u targedu mewn cyfraddau busnes i helpu'r sector busnes drwy'r adferiad, a llobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau TAW ar gyfer busnesau twristiaeth.
- Cefnogi'r gwaith o greu dewisiadau amgen i lwyfannau'r sector preifat fel Uber ac Airbnb dan berchnogaeth leol a pherchnogaeth y cyhoedd.
- Creu fersiwn Cymru o system Parador sydd dan berchnogaeth y wladwriaeth yn Sbaen, lle mae modd adfer adeiladau treftadaeth (er enghraifft capeli wedi'u hadnewyddu) fel llety gwesty.

Byddwn ni'n cefnogi cais Llechi Cymru am Statws Treftadaeth y Byd, ac yn parhau i'w weithredu waeth beth fydd y canlyniad ym mis Gorffennaf.

Byddwn yn gweithio gyda stêm treftadaeth i ddiogelu dyfodol y sector ac i ddatblygu tanwydd amgen yn y tymor hir.

Twristiaeth Bwyd

Mae twristiaeth bwyd a gastronomiegy yn gyfle allweddol i hyrwyddo'r sector amaethyddol a lletygarwch. Mae twristiaeth bwyd yn cynnig ffordd wahanol o ddatblygu'n lleol ac yn rhanbarthol, gyda'r gallu i gryfhau hunaniaethau, cynyddu gwerthfawrogiad twristiaid a'r bobl leol o'r amgylchedd lleol, ac annog adfywio treftadaeth leol.

Byddwn ni hefyd yn cydweithio gyda'r Parciau Cenedlaethol i ymchwilio i gynigion a'u datblygu i greu brand ar gyfer cynnyrch sydd wedi'u cynhyrchu yn ein Parciau Cenedlaethol.

Gŵyl Cymru

Byddwn ni'n dynodi 2023 fel blwyddyn Gŵyl Cymru, i arddangos cyfleoedd twristiaeth amrywiol ein gwlad hyfryd i'r byd. Bydd hyn yn cynnwys y traethau, amgueddfeydd, dinasoedd, mynyddoedd, cefn gwlad, a'n treftadaeth ddiwylliannol a ieithyddol. Byddwn ni'n hyrwyddo teithiau 'adref' i Gymru ymhlith y Cymry ar wasgar yn rhyngwladol, fel bod modd iddyn nhw ymuno â ni i ddathlu ein llwyddiannau fel cenedl ac i hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi a dathliadau a digwyddiadau nodedig eraill Cymru.

Hyfforddiant Twristiaeth

Byddwn ni'n creu Academi Genedlaethol ar gyfer sector twristiaeth Cymru yn rhanbarth Arfor ar arfordir y gorllewin. Bydd hyn yn cynnwys gwesty a chanolfan gynadledda ar y safle, i ddarparu addysg ymarferol i fyfyrwyr ym maes arlwygo a lletygarwch, o brentisiaethau i lefel gradd.



CARTREFI I BAWB

Crynodeb

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none">– Rhoi diwedd ar gysgu ar y strydoedd unwaith ac am byth, drwy bolisi ail-gartrefu cyflym.– Rhoi diwedd ar achosion o droi allan heb fai yn ystod canlyniadau economaidd Covid-19, a gweithredu system newydd o rent teg ar gyfer y dyfodol.– Creu 50,000 o gartrefi cyhoeddus yn ystod y pum mlynedd nesaf<ul style="list-style-type: none">– 30,000 o dai cyngor neu dai cymdeithasol eraill, 5,000 o gartrefi rhent-gost ar rent canolradd, a 15,000 o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy i'w prynu. | <ul style="list-style-type: none">– Torri biliau'r talwr Treth Gyngor cyfartalog drwy ddiwygio'r system Treth Gyngor yn llwyr.– Defnyddio grymoedd cynllunio a threthi i fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi.– Penodi Rheolwyr i gydlynu'r gwaith o ddatblygu canol trefi. |
|--|---|



Cartrefi i Bawb

Digartrefedd

Byddwn ni'n ymgorffori'r hawl i gartref mewn cyfraith. Byddwn ni'n gwneud Tai yn Gyntaf yn opsiwn diodyn i unrhyw un sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n profi digartrefedd, ac yn penodi cyfarwyddwr cenedlaethol ar gyfer Tai yn Gyntaf ledled Cymru.

Yn ogystal:

- Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol ddefnyddio model ailgartrefu cyflym, lle bydd gwarant y bydd unrhyw un sy'n profi digartrefedd yn cael eu hystafell eu hunain, ac nid dim ond gofod llawr, am 12 awr y dydd fel llety brys.
- Byddwn ni'n diddymu Adran 74 Deddf Tai Cymru (2014) sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gael gwared ar eu dyletswydd i roi cymorth i bobl y mae'n hysbys eu bod nhw'n ddigartref. Byddwn ni'n dod â diwedd ar weithredu amodau 'Dim Hawl i Arian Cyhoeddus' yng Nghymru, fel bod modd cael mynediad at wasanaethau digartrefedd a thai i bawb yng Nghymru sydd angen hynny.
- Byddwn ni'n diddymu'r system angen blaenoriaethol erbyn diwedd y tymor hwn o'r Senedd.
- Byddwn ni'n diddymu'r dreth ystafell wely cyn gynted ag y mae'r grym ganddon ni i wneud hynny.

Creu cartrefi fforddiadwy newydd

Byddwn ni'n lansio'r rhaglen adeiladu tai cyhoeddus fwyaf ers hanner can mlynedd. Byddwn ni'n adeiladu neu'n trawsnewid 50,000 o gartrefi cyhoeddus yn ystod y pum mlynedd nesaf – 30,000 o dai cyngor neu dai cymdeithasol eraill, 5,000 o gartrefi rhent-gost ar rent canolradd, a 15,000 o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy i'w prynu.

Bydd y rhain yn cynnwys rhai o'r 26,000 o gartrefi gwag a'r fflatiau gwag uwchben siopau ledled Cymru a fydd yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Mae 67,000 o aelwydydd ar restrau aros am dŷ ar hyn o bryd ledled Cymru, a disgrifiwyd 11,500 o aelwydydd fel rhai digartref yn 2018-19.

Ein nod yw i dai a gaiff eu hadeiladu'n gyhoeddus ddod yn opsiwn prif ffrwd ar gyfer y rhai sydd ar incwm cyffredin – nid yn unig y rhai ar incwm isel.

Ein nod yw sicrhau bod pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru yn gallu fforddio prynu eu cartref eu hunain unwaith eto. Bydd ein diffiniad o gartrefi fforddiadwy yn adlewyrchu'r rheol benthyca morgeisi, sef 4.5 gwaith incwm cyfartalog aelwydydd lleol, neu tua £125,000.

Er mwyn cadw'r costau'n isel, byddwn ni'n datblygu model prydles gyhoeddus lle na fydd y tir y mae cartref prynu fforddiadwy wedi'i leoli yn gallu cael ei werthu, yn hytrach bydd yn cael ei brydlesu i berchennog y tŷ yn barhaus am ddim cost neu gost isel, gan dynnu elfen sylweddol o bris prynu'r eiddo.

Byddwn ni'n disodli system gymhleth cytundebau Adran 106 gydag un ardoll seilwaith cymunedol gyson, lle bydd awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gronni arian cyhoeddus a phreifat ar gyfer darparu cynlluniau tai sylweddol a seilwaith lleol.

Bydd Arfor a Cymoedd, y ddwy asiantaeth ddatblygu ranbarthol yn archwilio defnyddio grymoedd Corfforaeth Datblygu Trefol Newydd i ddatblygu cymunedau newydd sylweddol yng nghefn gwlad y gogledd a'r gorllewin ac ym Mlaenau'r Cymoedd. Byddwn ni'n defnyddio ein buddsoddiad mewn coridorau rheilffyrdd newydd a hybiau trafnidiaeth fel llwyfan ar gyfer datblygiadau tai newydd.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru:

1. Yn diwygio'r system gynllunio i atal creu adeiladau newydd o ansawdd gwael gan y sector preifat sy'n methu â darparu cartrefi fforddiadwy. Yn hytrach, byddwn ni'n disodli fframwaith diffygiol y Cynllun Datblygu Lleol

Cartrefi i Bawb

gyda system gynllunio fwy rheoledig, a fydd yn creu cymunedau cymysg o dai cymdeithasol a phreifat, wedi'u cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus a'r seilwaith angenrheidiol.

2. Yn deddfu fel y bydd angen i ddatblygiadau tai gynnwys o leiaf 50 y cant o dai gwirioneddol fforddiadwy, wedi'u darparu mewn lleoliad cymunedol.
3. Yn deddfu i ddarparu ystod eang o rymoedd tai i Lywodraeth Cymru, er mwyn ei galluogi i gaffael tir (ar sail orfodol os oes angen) a darparu tai, yn uniongyrchol ac ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai a'r sector preifat, er mwyn gallu gwneud darpariaeth dai ar sail gydlynol.
4. Byddwn ni'n dychwelyd rôl ganolog awdurdodau lleol yn bodloni'r angen am dai yn lleol mewn ystod o ffyrdd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Bydd modd iddynt ddefnyddio endid newydd, Unnos – Tir a Thai Cymru, i adeiladu mwy o dai cymdeithasol. Yn ogystal, byddan nhw'n cael eu grymuso i allu defnyddio eiddo gwag, a phrynu cartrefi sector preifat yn ôl gan landlordiaid sy'n gadael y farchnad i ehangu darpariaeth tai cyngor a thai cymdeithasol eraill.
5. Byddwn ni'n cefnogi ystod o fodelau arloesol ar gyfer datblygu tai fforddiadwy, gan gynnwys cydweithfeydd tai bychain a'r model bond elusennol, gan ddefnyddio arian trafodion ariannol fel y mae Llywodraeth yr Alban wedi bod yn arloesol yn ei wneud.

Unnos – Tir a Thai Cymru

Cwmni dan berchnogaeth y cyhoedd fydd Unnos – Tir a Thai Cymru, a bydd yn atebol i Lywodraeth Cymru, ac yn adrodd yn ôl i'r Senedd. Fel cwmni nid-er-elw-dosbarthadwy, bydd Unnos yn hunangynhaliol drwy'r taliadau y bydd yn eu codi am ei wasanaethau a'i gynhyrchion.

Ar adeg pan fo cyfraddau llog yn is nag erioed, mae'r ffrydiau rhent o ddatblygiadau tai cymdeithasol newydd yn gynyddol atyniadol i fuddsoddwyr hirdymor fel cronfeydd pensiwn. Gan weithredu drwy Unnos, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn defnyddio cyllid gan y buddsoddwyr hirdymor hyn i ariannu cynnydd sylweddol a pharhaus yn y ddarpariaeth o dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru, gan ddefnyddio cyfamod Llywodraeth Cymru i leihau cyfraddau llog ymhellach lle bo'n ddymunol gwneud hynny.

Bydd Unnos:

- Yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer arfer da ym maes adeiladu yn y sector tai, mewn perthynas â thai newydd i ddechrau, ond yn gynyddol mewn meysydd eraill hefyd, fel ôl-osod tai, a bydd yn ffynhonnell o gyngor ac arbenigedd i gymdeithasau tai ac i Awdurdodau Lleol sy'n dymuno ehangu eu gweithgarwch yn y sector tai.
- Yn creu cadwyni cyflenwi yng Nghymru ac yn defnyddio busnesau a gweithluoedd lleol, gan gefnogi'r economi leol ac adeiladwyr tai sy'n bodoli yng Nghymru sydd wedi cael eu gwasgu allan gan duedd y system gynllunio tuag at ddatblygwyr mawr.
- Yn chwarae rôl strategol ar gyfer crynhoi tir a phrynu gorfodol, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phartneriaid eraill, gan froceru ar draws adrannau Llywodraeth Cymru i ddod â thir i'r farchnad ac eiddo ar gyfer eu trosi'n breswylfeydd.
- Yn canolbwyntio ar ddulliau oddi ar y safle / Dulliau Adeiladu Modern. Bydd yn cael ei ddarparu gyda'r nod o sefydlu cyfleusterau cynhyrchu (drwy fenthyciad neu grant gan Lywodraeth Cymru) i gynhyrchu unedau tai. Bydd gwelliant ar unwaith i ansawdd amgylcheddol tai cymdeithasol newydd o ganlyniad uniongyrchol i hyn.

Cartrefi i Bawb

- Yn cefnogi busnesau adeiladu bach a chanolig lleol drwy gcontract fframwaith cenedlaethol ar gyfer caffael tai. Bydd yn anelu cymorth ariannol y Llywodraeth i'r sector, wedi'i sianelu drwy'r Banc Datblygu, at ddatblygwyr llai sydd â phrosiectau dichonadwy nad ydynt yn gallu codi cyllid prif ffrwd y sector preifat, gan gyfyngu ar elw datblygwyr a chyfyngu cymorth ar gyfer prisiau tai gwirioneddol fforddiadwy.
- Yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai i ddatblygu portffolio o fathau o dai i fodloni eu gofynion ac i gytuno gyda nhw ar biblinell alw.
- Yn darparu gwasanaeth cynnal a chadw ar gyfer yr eiddo a gaiff ei adeiladu, fel y bydd ymagwedd ddi-dor rhwng cynhyrchu a gwaith cynnal a chadw.
- Yn cynnwys, fel rhan o'i chenhadaeth, ddull adeiladu tai sy'n defnyddio'r lefel isaf bosib o garbon, o ran adeiladu ac o ran defnydd o ynni.

Safonau Amgylcheddol a Chynllunio

Bydd tai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu i'r safon amgylcheddol uchaf posib, gyda'r defnydd mwyaf effeithlon posib o ynni, a'r allyriadau isaf posib. Mae'n rhaid i adeiladau a datblygiadau ehangach ystyried eu cyd-destun hanesyddol, diwylliannol ac ecolegol.

Er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa warthus ystadau o ansawdd isel, byddwn ni:

- Yn deddfu i roi diwedd ar gartrefi prydles â ffioedd gwasanaeth annheg.
- Yn gosod amserlen a strategaeth ar gyfer tai yn y sector rhentu preifat i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Yn gwella amddiffyniad y cwsmer ar gyfer ansawdd gwael mewn tai newydd.

- Yn sicrhau bod perfformiad blaenorol o ran cyflawni yn erbyn rhwymedigaethau cynllunio yn gallu dod yn ystyriaeth berthnasol mewn ceisiadau cynllunio yn y dyfodol, fel na fydd modd i ddatblygwyr ag enw drwg barhau i gael eu cymeradwyo ar gyfer tai.
- Yn ceisio grymoedd i gyflwyno treth ar hap ar enillion datblygwyr mawr, a defnyddio'r enillion i ddatrys problemau o ganlyniad i adeiladau o safon wael, sy'n aml yn gallu clymu pobl i fflatiau a thai o ansawdd isel heb ddim atebolrwydd, fel yn achos y sgandal cladin.

Pris Tir a Thai

Mae'n rhaid i ni roi diwedd ar y broblem o dwf anghynladwy mewn prisiau tai. Bydd gan ein Llywodraeth ni nod penodol o ddod â phrisiau cyfartalog tai yn ôl o fewn cyrraedd y dinesydd cyffredin. Dros amser, dylid rhoi'r gorau i ystyried tai fel nwyddau neu asedau, ond yn hytrach fel lle priodol i fyw, yn gartref. Er mwyn cyflawni hyn byddwn:

- Yn cyflwyno cynigion am dreth dir ac eiddo newydd a thecach, fel ardoll cyfradd safonol ar berchnogion ac nid preswylwyr, yn seiliedig ar werthoedd cyfredol, i ddisodli cyfraddau busnes yn gyntaf, ac yna, treth gyngor.
- Yn diwygio pryniannau gorfodol fel bod modd caffael tir ar werth y defnydd presennol.
- Yn cyflwyno Deddf Hawliau Cymunedol newydd ac yn archwilio creu cronfa gyfoeth gymunedol i rymuso cymunedau i brynu asedau cymunedol, gan gynnwys tir, a gwasanaeth cenedlaethol newydd i'w cefnogi yn y broses.
- Yn archwilio cynigion am Ddeddf Eiddo, i ddarparu sylfaen ddeddfwriaethol i'n hymrwymiad i sicrhau bod cartrefi'n wirioneddol fforddiadwy i bobl ar incwm lleol.

Cartrefi i Bawb

- Yn cyflwyno moratoriwm ar werthu asedau cyhoeddus, gan gynnwys tir, i ddwylo preifat heb gyfamodau cadarn i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fudd cymunedol a chyhoeddus.

Hawliau Tenantiaid

Byddwn ni'n cyflwyno Bil Rhent Teg i ddarparu tenantiaethau hyd amhenodol a rhoi diwedd ar droi allan heb fai. Bydd pob rhent yn gorfod cael ei hasesu'n deg, a bydd cyfyngiad ar gynydd mewn rhent. Byddwn ni'n gwneud tenantiaethau yn dros glwyddadwy rhwng cenedlaethau, fel yr oedden nhw o dan Ddeddf Rhent i 1977.

Byddwn ni'n rhoi grym i awdurdodau lleol osod rheol Rhent Byw, a fydd yn rhoi cyfyngiad ar rent mewn parthau lle mae pwysau rhent, gyda'r uchafswm ar draean o incwm cyfartalog lleol. Yn y sector rhent cymdeithasol, byddwn ni hefyd yn defnyddio dull rhentu byw, sy'n cysylltu rhent gydag incwm lleol, gan roi diwedd ar y rhyddid presennol sydd gan gymdeithasau tai i gynyddu rhent yn uwch na chwyddiant.

Byddwn ni'n cyflwyno Cynllun Achub Morgeisi Brys, gan roi opsiwn i bobl ddod yn denantiaid yn hytrach na wynebu cael eu troi allan, gyda'r opsiwn o brynu'n ôl yn y dyfodol drwy strwythur perchnogaeth a rennir.

Byddwn ni'n rhoi mwy o ddisgresiwn i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, i osgoi troi allan pan fydd ôl-ddyledion wedi'u hachosi gan doriadau mewn budd-daliadau. Byddwn ni'n rhoi diwedd ar osod pobl o dan 18 oed mewn llety gwely a brecwast.

Byddwn ni'n gweithio gyda'r heddlu i sicrhau mai'r ymateb diodyn mewn sefyllfaoedd camdriniaeth ddomestig fyddai bod gan y dioddefwr hawl i aros yn eu llety oni bai bod problemau diogelwch sylweddol.

Byddwn ni'n cryfhau'r grymoedd i ymdrin â landlordiaid gwael nad ydynt yn bodloni

safonau tai neu gyfrifoldebau cymdeithasol. Drwy Rhentu Doeth Cymru, byddan nhw'n destun proses fetio flynyddol, ac yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr os byddan nhw'n methu â chydymffurfio. Yna, bydd Awdurdodau Lleol yn cael cyfle i brynu'r eiddo hyn i'w hadnewyddu a'u rhentu.

Llywodraeth Leol

Diwygio'r Dreth Gyngor

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn diwygio'r dreth gyngor er mwyn ei gwneud yn fwy teg ac yn fwy blaengar. Byddwn ni'n cynnal ailbrisiad, yn cynyddu nifer y bandiau ar ben uchaf gwerthusiadau tai, ac yn sicrhau bod y dreth gyngor yn fwy cyfrannol â gwerth yr eiddo. Yn ogystal, byddwn ni'n cyflwyno system newydd ar gyfer dyrannu grant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, gyda fformiwla ar sail anghenion yn cynnwys ystod o ffactorau, gan gynnwys tlodi a gwledigrwydd.

Pam fod angen diwygio'r dreth gyngor

Mae'r dreth gyngor yn hen ffasiwn, yn anflaengar, ac yn wydroedig. Mae gwerth tai mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru wedi newid yn ystod y ddeunaw mlynedd ers yr ailbrisiad diwethaf yn 2003. Er enghraifft, mae wedi cynyddu fwy na dwywaith cymaint ym Mlaenau Gwent ag y mae yn Wrecsam. Mae eiddo mewn bandiau treth cynyddol fympwyol. Gall dwy aelwyd sy'n byw mewn eiddo o werth tebyg yn yr un awdurdod lleol fod yn talu biliau treth sydd â channoedd o bunnoedd o wahaniaeth rhyngddynt, gan fod eu heiddo'n arfer bod yn werth swm gwahanol yn 2003. Mae'r dreth gyngor hefyd yn hynod anflaengar o ran gwerth eiddo.

Cartrefi i Bawb

Byddai treth gyngor fwy cyfrannol yn lleihau'r bwlch mewn cyfoeth eiddo rhwng perchnogion eiddo gwerth uchel ac isel. Rydyn ni'n disgwyl y bydd 20 y cant o'r cartrefi yn y rhan isaf o bump dosbarthiad incwm yn gweld eu biliau treth gyngor yn gostwng mwy na £200.

Byddwn ni'n cyflwyno cynigion ar gyfer un Dreth Dir ac Eiddo yn cynnwys tir preswyl, masnachol a diwydiannol (bydd tir amaethyddol yn parhau i fod wedi'i eithrio) – gan ddechrau drwy sgrapio'r system bresennol o ardrethi annomestig yn ystod y tymor hwn o'r Senedd.

Ail gartrefi

Mae'r nifer cynyddol o ail gartrefi yng Nghymru, yn enwedig ar hyd arfordir y gorllewin, wedi dod yn broblem gynyddol, sydd wedi'i hamlygu mewn ffordd druenus yn ystod pandemig Covid-19.

Yng Ngwynedd, mae 40 y cant o'r cartrefi sy'n mynd ar y farchnad bob blwyddyn bellach yn cael eu prynu fel ail gartrefi.

Mae'r gorddefnydd o eiddo fel ail gartrefi yn gwthio pobl leol allan o'r farchnad eiddo, gan roi pwysau annerbyniol ar wasanaethau lleol yn ystod y tymor brig, a gan arwain at drefi a phentrefi diffaith a hanner gwag yn ystod y gaeaf.

Mae llawer o argymhellion wedi'u gwneud yn ddiweddar, ond nid oes fawr ddim camau penodol wedi'u cymryd gan Llywodraeth bresennol Cymru. Mae Plaid Cymru o'r farn mai swydd y llywodraeth yw gweithredu argymhellion a sicrhau newid. Fis Medi diwethaf, er nad oeddem mewn llywodraeth, cyhoeddodd Plaid Cymru gynllun trawsbynciol *Ailadeiladu ein Cymunedau: cynllun gweithredu Plaid Cymru ar ail gartrefi* y gellir ei weithredu ar draws pob maes o'r llywodraeth.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n rhoi'r cynllun hwn ar waith. Byddwn ni:

- Yn newid y deddfau cynllunio i ganiatáu i gynghorau osod cyfyngiad ar nifer yr ail gartrefi, gan wrthod caniatâd i newid annedd o fod yn brif breswylfa i fod yn ail breswylfa.
- Yn caniatáu i gynghorau godi premiwm treth gyngor o hyd at 200 y cant ar ail gartrefi, a chau'r bwlch yn y gyfraith sy'n caniatáu i berchnogion ail gartrefi gofrestru eu heiddo fel "busnes" er mwyn osgoi talu'r premiwm treth gyngor.
- Yn cyflwyno rheoliadau i dreblu'r ffi Treth Trafodiadau Tir ar brynu ail eiddo.
- Yn grymuso cynghorau i adeiladu tai gyda gofyniad amodau lleol sy'n ei gwneud yn haws dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ac ailddiffinio'r term 'cartref fforddiadwy' (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys eiddo sy'n werth dros £250,000).
- Yn ariannu cynllun peilot i ddod â nifer sylweddol o gartrefi gwyliau dan berchnogaeth gymunedol drwy ymyrraeth gyhoeddus yn y farchnad dai bresennol, fel bod modd dargyfeirio enillion a gynhyrchir at ddatblygiadau lleol fel darparu tai cymdeithasol.

Canol trefi

Mae canol trefi a phentrefi wrth galon eu cymunedau. Fel canolfannau siopa, maen nhw wedi cael eu peryglu gan dwf mewn siopau enfawr a pharciau manwerthu y tu allan i'r dref, a thwf sylweddol mewn siopa ar y rhyngwrdd yn ystod pandemig Covid-19.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru:

- Yn gosod cyfrifoldeb statudol ar gynghorau lleol i reoli canol trefi sydd â 30 neu fwy o safleoedd masnachol. Bydd hyn yn cynnwys penodi Rheolwyr i gydlynu buddsoddiad mewn canol trefi, i'w cynnal, a'u hyrwyddo, gan gynnwys cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Canol Trefi.

Cartrefi i Bawb

- Yn dynodi cyllid referniw a chyfalaf ar gyfer Rhaglen Dadeni Trefol Cymru i gael ei hadnewyddu bob pum mlynedd.
- Yn manteisio ar botensial gweithio o bell a gweithio gwasgaredig drwy greu rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau cydweithio wedi'u gwasanaethu ym mhob cymuned yng Nghymru. Er mwyn parhau i weithio o bell cyn i'r arfer gael ei golli, dylai'r don gyntaf o hybiau gweithio o bell cyflymder uchel fod ar waith ac yn barod i'w gweithredu ymhenn rhai wythnosau, gan ddefnyddio adeiladau fel banciau, swyddfeydd post a siopau yng nghanol trefi, a chapeli neu dafarndai gwag mewn cymunedau llai.
- Yn deddfu i ddiogelu lleoliadau diwylliannol rhag cael eu dinistrio, eu hailddatblygu, neu golli eu trwydded oherwydd tresmasu.
- Yn darparu mwy o fuddsoddiad a chefnogaeth ariannol ar gyfer seilwaith cymdeithasol, gan gynnwys gofodau cymunedol, llyfrgelloedd a pharciau, a darparu mynediad gwell ar gyfer pobl anabl.
- Lle bo'n briodol, yn gwneud lloriau uchaf safleoedd yng nghanol trefi'n ddi-dreth, a diwygio canllawiau cynllunio ar gyfer safleoedd o'r fath i hwyluso eu trawsnewidiad yn breswylfa, swyddfa neu ddefnydd cyflogaeth arall.
- Lle bo'n briodol, yn gwneud canol trefi sydd â chyfraddau swyddi gwag uchel iawn (20 y cant neu fwy) yn Barthau Menter di-dreth, gyda phhecyn cymorth a chynghor arall wedi'i ddarparu gan Ffyniant Cymru, ein hasiantaeth menter newydd.
- Yn grymuso awdurdodau lleol i weithredu ar dir ac adeiladau stryd fawr gwag, gan gynnwys darparu is-brydlesi a phrydlesi hir i sefydliadau, busnesau a mentrau lleol, i hyrwyddo presenoldeb lleol ystod eang o sefydliadau ar y stryd fawr.

- Yn cynorthwyo busnesau i symud o'r cyrion i greu canol trefi hyfyw a bywiog.
- Yn cyflwyno categori newydd (Gradd III) o adeiladau rhestredig – *Adeiladau o bwysigrwydd lleol* – lle bydd angen caniatâd cynllunio cyn eu diwygio'n sylweddol neu eu dymchwel.

Cynllunio

Ers degawdau, mae polisi cynllunio yng Nghymru a Lloegr wedi canolbwyntio ar dwf a datblygiad dinasoedd mawr. Er bod hyn yn briodol yn Lloegr, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn dinasoedd a threfi mawr, nid yw'n briodol yng Nghymru. Mae ein dinasoedd yn gymharol fach, ac mae tri chwarter ein poblogaeth yn byw mewn trefi maint canolig a phentrefi bach. Mae Cymru hefyd yn wlad llawn brynau a chymoedd, sy'n anaddas ar gyfer ymestyniad a lledaeniad dinasoedd.

Felly, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn ail-lunio haen uchaf y system gynllunio yng Nghymru – y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – i ddiffinio chwe rhanbarth newydd yng Nghymru, gan gynnwys dau ranbarth datblygu arbennig yn Arfor (arfordir y gorllewinol) a'r Cymoedd. Bydd gan y Fframwaith newydd hwn weledigaeth unigryw ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial pob rhanbarth. I'r perwyl hwn, byddwn ni'n cyflwyno proses ar gyfer cytuno ar Gynlluniau Datblygu Strategol ym mhob un o'r rhanbarthau hyn, yn seiliedig ar strwythurau democrataidd, mor gynnar ag sy'n ymarferol bosib yn nhymor newydd y Senedd.

Yn seiliedig ar flaenoriaethau Cymru yn hytrach na rhai'r Deyrnas Unedig, bydd ein hymagwedd yn canolbwyntio ar rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, gan ffurfio coridorau rhwng 'parthau datblygu' penodedig.

Byddwn ni'n adfer cydbwysedd i'r system gynllunio leol, lle mae'r cyhoedd wedi'u hymyleiddio a chynghorwyr wedi'u gorfodi i dderbyn cynlluniau nad ydyn nhw'n eu cefnogi.

Cartrefi i Bawb

Bydd ein polisi cynllunio cyffredinol wedi'i integreiddio â gweithgareddau Ffyniant Cymru, Awdurdod Datblygu'r Cymoedd, Asiantaeth Datblygu Arfor, ac Unnos – Tir a Thai Cymru. Bydd hyn yn arwain at ymagwedd fwy rhagweithiol na'r sefyllfa bresennol, sy'n ymateb i gynlluniau datblygwyr preifat, gan arwain at ddarpariaeth annigonol ar gyfer buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith arall, a defnydd gormodol a diangen o safleoedd maes glas.

Byddwn ni'n creu Arolygiaeth Gynllunio annibynnol, sef Cynllunio Cymru.

Byddwn ni'n pwysleisio bod adrannau cynllunio'n rhwym i flaenoriaethu'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod ganddynt hefyd ddyletswyddau i amddiffyn plant.

Bydd ein Llywodraeth yn mynd ati i ystyried sut gallai gyflwyno dyddiadau dod i ben neu ddyddiadau adolygu ar gyfer caniatâd cynllunio graddfa fawr, lle mae cymaint o oedi i adeiladu'r datblygiad nes nad yw'r amodau cynllunio y rhoddwyd y caniatâd ar eu sail yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru bellach.

Byddwn ni'n cryfhau TAN 20 i adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn Neddf Cynllunio 2015, gan wneud effaith ieithyddol yn ffactor perthnasol am y tro cyntaf.

Byddwn ni'n cryfhau'r ffafriaeth tuag at ddatblygiad tir llwyd yn hytrach na maes glas, a thuag at adnewyddu yn hytrach na dinistrio mewn polisïau cynllunio, tai ac amgylcheddol.



CYMRU GYSYLLTIEDIG

Crynodeb

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">- Darparu trafnidiaeth bysiau am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.- Gwneud buddsoddiad trawsnewidiol mewn trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith teithio llesol, gan leihau defnydd o geir yn sylweddol, gyda'r nod o haneru cyfran y teithiau a wneir â char erbyn 2030.- Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am greu rhwydwaith trenau a bysiau ledled Cymru, gan gysylltu'r goled dde a galluogi cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus rhwng pob canolfan boblogaeth sylweddol. | <ul style="list-style-type: none">- Creu rheilffordd newydd arfordir y gorllewin i gysylltu'r goled dde a'r de, ac adeiladu Croesreilffordd y Cymoedd i gysylltu'r dwyrain a'r gorllewin.- Darparu band llydan gigabit cyflym iawn i bob cartref a busnes yng Nghymru erbyn 2026.- I ddisodli hen gynlluniau Ffordd Liniaru'r M4, byddwn ni'n gwella prif wasanaethau rheilffordd y de, gan gynnwys adeiladu chwe gorsaf newydd rhwng Cyffordd Twynel Hafren a Chaerdydd. |
|---|---|



Cymru Gysylltiedig

Cymuned ryng-gysylltiedig o gymunedau

Mae gan Plaid Cymru weledigaeth o Gymru fel cymuned ryng-gysylltiedig o gymunedau gwydn, llewyrchus, iach, ac amgylcheddol gadarn. Bydd gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol yn ein cynlluniau adfywio ar gyfer Arfor a'r Cymoedd. Bydd y rhain yn cysylltu ein rhanbarthau a'n cymunedau sydd wedi'u datgysylltu, ac yn cynyddu eu potensial economaidd.

Y tu hwnt i gwblhau prosiectau ffordd sydd eisoes yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Llif Prosiectau, ein nod yw creu system trafnidiaeth gyhoeddus integredig, gyda mwy o ddibyniaeth ar ffyrdd ecogyfeillgar o deithio. Byddwn ni'n datblygu amserlen genedlaethol, gan integreiddio gwasanaethau trên a bysiau, gyda safonau cenedlaethol ar gyfer amllder gwasanaethau, gan wneud teithio â thrafnidiaeth gyhoeddus yn bosib yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru.

Er mwyn symleiddio a byrhau'r broses o wneud penderfyniadau trafnidiaeth mawr, byddwn ni'n cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth a Chynllun Ariannu Trafnidiaeth Cenedlaethol, a fydd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau newydd, erbyn diwedd 2021. Byddwn ni'n ceisio'r grymoedd perthnasol i gyflwyno ardoll cyflogres trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cyflogwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu trafnidiaeth gyhoeddus ecogyfeillgar.

Mae Plaid Cymru'n cefnogi ail-reoleiddio gwasanaethau bysiau, a byddwn ni'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i allu datblygu system fasnachfreinio bysiau yng Nghymru.

Byddwn ni'n ceisio datganoli grym dros dreth ffordd a threth danwydd a'r Ardoll Cerbydau Newyddau Trwm fel bod modd i ni greu Eco-ardoll newydd yn seiliedig ar ddefnydd o ffordd, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol, ac allyriadau. Byddai hyn yn fwy amgylcheddol effeithiol a chymdeithasol gyfiawn.

Teithio ar Fysiau am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn darparu teithio ar fysiau am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ac yn cadw pasys bws am ddim i bobl dros 60 oed.

Mae canlyniadau economaidd Covid-19 yn cwmpo'n anghymesur ar ein pobl ifanc. Bydd cludiant am ddim, gyda cherdyn clyfar, yn helpu i oresgyn rhwystrau rhag addysg, hyfforddiant, a chyfleoedd gwaith.

Bydd cludiant am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar wasanaethau a gaiff eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru, yn gwreiddio patrwm oes o'u defnyddio ac yn cyfrannu at nodau amgylchedd a newid hinsawdd Cymru. Bydd cynnydd mewn defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau tagfeydd a llygredd traffig. Bydd hefyd yn cyfrannu at gynaliadwydd llwybrau bysiau lleol a hyfywedd llawer o gymunedau cefn gwlad.

Cysylltedd Digidol

Byddwn ni'n datblygu Strategaeth Cysylltedd Genedlaethol, gan gyfuno ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus werdd integredig gyda'n cynlluniau i wella band llydan.

Byddwn ni'n darparu band llydan gigabit cyflym iawn i bob cartref a busnes yng Nghymru erbyn 2026.

Bydd technoleg ddigidol well yn annog mwy o weithio gartref, newid sylweddol i batrymau teithio sy'n gallu lleihau allyriadau carbon, tagfeydd, a straen mewn llawer o achosion. Tan nawr, nid ydym wedi manteisio digon ar y potensial hwn. Serch hynny, mae cyfnodau clo Covid-19 wedi arwain at gynydd mawr yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref, ac wedi datgelu i lawer o gyflogwyr a gweithwyr beth yw'r manteision o ran amser ac arian.

Cymru Gysylltiedig

Byddwn ni'n buddsoddi mewn rhaglen sylweddol i ddarparu hybiau gweithio o bell cyflym iawn, mewn cymunedau llai llewyrchus i ddechrau, i wasanaethu pobl nad yw eu hamgylchedd cartref neu eu hoffer yn addas ar gyfer gweithio o bell, ac ar gyfer cwmnïau sydd heb ddigon o ofod i'w holl weithwyr allu cadw pellter cymdeithasol.

Byddwn ni'n cymell llywodraeth leol i ymrwymo i brynu gwasanaethau band llydan ffibr llawn, fel ffordd o ddarparu sicrwydd o ran galw ac i annog buddsoddiad.

Byddwn ni'n datblygu cwmni rhwydwaith band llydan cenedlaethol yng Nghymru sy'n gydfuddiannol neu dan berchnogaeth y cyhoedd i fynd i'r afael â chysylltedd mewn rhannau o Gymru.

Byddwn ni'n newid y ddeddf gynllunio fel bod pob adeilad newydd yn cael eu hadeiladu â gallu band llydan giga-bit o'r dechrau un.

Byddwn ni'n sicrhau mynediad gwell ar gyfer adeiladwyr ffibr at seilwaith presennol, ac yn newid y rheolau o ran caniatâd cynllunio, mynediad at dir, a defnydd o'r dechnoleg gloddio ddiweddaraf i gyflymu'r gwaith o'i gyflwyno.

Rhwydwaith Rheilffyrdd Cenedlaethol

Does dim rhwydwaith rheilffyrdd cynhwysfawr yn cysylltu gwahanol rannau o Gymru. Mae'n rhaid mynd drwy Loegr i wneud taith o'r gogledd i'r de, ac nid yw'r rheilffyrdd mewnol wedi'u cysylltu â'i gilydd.

Un o'r prif resymau dros hyn yw'r ffaith nad yw'r cyfrifoldeb dros reilffyrdd wedi'i ddatganoli'n llawn i Gymru, yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ers 2018, Cymru sydd wedi bod â'r cyfrifoldeb dros y brif fasnachfaint rheilffyrdd

ar gyfer gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, ond nid y traciau rheilffordd na seilwaith arall. Mae hyn yn golygu y caiff penderfyniadau ar seilwaith rheilffyrdd Cymru eu gwneud gan Network Rail ar sail Cymru-a-Lloegr, ac yn ddieithriad mae Cymru'n colli allan wrth i ardaloedd mwy poblog yn Lloegr gael blaenoriaeth.

Byddwn ni'n ceisio datganoli llawn, gyda chyllid digonol, ar gyfer holl wasanaethau rheilffordd Cymru.

Trafnidiaeth Cymru

Ar ôl i ni sicrhau datganoli ar gyfer yr holl wasanaethau rheilffordd, byddwn ni'n rhoi cyfrifoldeb i Drafnidiaeth Cymru greu rhwydwaith rheilffyrdd Cymru gyfan, gan gysylltu'r gogledd a'r de a galluogi traffig trenau rhwng y canolfannau â phoblogaethau mawr. Bydd y rhwydwaith craidd hwn yn cynnwys:

- Prif leiniau'r gogledd a'r de.
- Lein ganolog Cymru, yn cysylltu Abertawe, Llanelli a'r Amwythig.
- Lein Cambria, yn cysylltu Aberystwyth a'r Amwythig.
- Lein newydd Arfordir y Gorllewin, yn cysylltu Caerfyrddin â Bangor ac ymlaen at Amlwch.
- Metros ar gyfer y de-ddwyrain, y gogledd ddwyrain, Bae Abertawe a'r Cymoedd Gorllewinol.

Bydd y rhwydwaith hwn yn cefnogi datblygiad ar sail trafndiaeth ar hyd ei lwybr, wedi'i gyfrifo i wella datblygiad economaidd yn y ffordd fwyaf cynaliadwy a chyfrifol o ran yr hinsawdd.

Cymru Gysylltiedig

Lladrad Trên Mawr (Cymru)

Mae angen datganoli seilwaith y rheilffyrdd, ynghyd â gweithrediadau, yn llawn i Gymru. Bydd hyn yn rhoi hawl i Gymru gael cyllid cyfwerth â chynlluniau fel rheilffordd cyflymder uchel HS2 yn Lloegr.

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, dydyn ni ddim yn rheoli seilwaith ein rheilffyrdd, sy'n golygu nad ydyn ni'n cael dim iawndal am brosiectau drudfawr fel HS2, sydd o fudd i Loegr yn unig, ac yn yr achos hwn, sy'n niweidiol i economi Cymru. O dan fformiwla Barnett, bydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon hawl i gyfran o gostau HS2. Mae hyn yn golygu y bydd Cymru'n colli allan ar £250 miliwn y flwyddyn, tra bydd yr Alban yn elwa o £350 miliwn. Dros oes y prosiect, mae'n golygu £11 biliwn i'r Alban, ond dim byd i Gymru.

Bydd Trafnidiaeth Cymru'n gyfrifol am y canlynol:

- Paratoi cynllun trafndiaeth cenedlaethol newydd yn ystod blwyddyn gyntaf y llywodraeth, ar gyfer pob ffurf o deithio, gyda phrosiectau wedi'u rhestru yn ôl blaenoriaeth.
- Eitemeiddio rhaglen fuddsoddi deng mlynedd ar gyfer gweithredu'r cynllun, mewn partneriaeth â Ffyniant Cymru a Banc Datblygu Cymru ar ôl i'w gylch gwaith gael ei ehangu i gynnwys prosiectau seilwaith.
- Darparu amcanion strategol, gan gynnwys:
 1. Lleihau amseroedd teithiau o Gaerdydd i Abertawe, i 45 munud i ddechrau, ac yna i hanner awr.
 2. Gwella amseroedd teithiau rhwng Bangor a Chaerdydd.

3. Agor coridor rheilffordd newydd gan ddefnyddio Lein Ardal Abertawe i ddarparu gwasanaethau cyflymach ac amlach rhwng y gorllewin a'r canolbarth a Chaerdydd.

- Goruchwylio'r gwaith o ddarparu'r Metro ar gyfer y de-ddwyrain, gan weithredu ar y cyd ag Awdurdod Datblygu'r Cymoedd ar ôl ei sefydlu, a datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaeth Metro ar gyfer Bae Abertawe a'r Cymoedd Gorllewinol.
- Llunio Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y gogledd-ddwyrain, a fydd yn nodi cyfleoedd ar gyfer Datblygiad ar sail Trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith Metro arfaethedig.
- Datblygu cynigion ar gyfer cynllun metro yn y gogledd-orllewin, gan gynnwys gwasanaeth 'trên-tramwy' rhwng Amlwch a Dolgellau, ac ymestyn lein Conwy i'r Bala a Thrawsfynydd.
- Rheoli gwasanaethau bysiau ledled Cymru.
- Cyfuno rheilffyrdd â gwasanaeth bysiau rheoledig, er mwyn sicrhau y darperir opsiwn trafndiaeth gyhoeddus i bob rhan o Gymru, gan gynnwys pentrefi a threfi bach y mae eu cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus yn achlysurol ar hyn o bryd.
- Rheoli rhwydwaith gwasanaeth bysiau cenedlaethol TrawsCymru a ariennir gan y Llywodraeth, a'i integreiddio gyda'r rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol a weithredir gan Reilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig sydd dan reolaeth y Llywodraeth a gweithredwyr eraill sydd wedi'u masnachfreinio yn Lloegr.
- Sicrhau nad yw cyfraddau tocynnau a darpariaeth yn blaenoriaethu patrymau teithio a gweithio 'traddodiadol' yn unig, a hyfforddi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ar aflonyddu rhywiol mewn gofodau cyhoeddus.

Cymru Gysylltiedig

- Cyflwyno gwasanaeth tocynnau Cerdyn Clyfar cenedlaethol ar gyfer bysiau a threnau er hwylustod i deithwyr. Dylai gostyngiadau aml-daith fod o fudd i weithwyr rhan-amser yn ogystal â thocynnau tymor sydd wedi'u cynllunio ar gyfer wythnos weithio pum diwrnod.
- Llunio Cynllun Teithio Llesol i Gymru, gyda tharged o gynnydd o 50 y cant ar gyfer teithio ar feic ymhlith cymudwyr. Bydd gofod digonol yn cael ei sicrhau ar bob cerbyd trên newydd, er mwyn i gymudo ar feic a thrên ddod yn opsiwn ymarferol ar rwydwaith rheilffyrdd Cymru.
- Byddwn ni'n rhoi cyfrifoldeb i Drafnidiaeth Cymru gynhyrchu astudiaethau dichonoldeb manwl ar nifer o brosiectau allweddol, gan gynnwys:
 1. Ailagor lein Cwm Aman i deithwyr.
 2. Ymestyn lein Rhondda Fawr i Dynewydd.
 3. Ailagor y lein i Amlwch.
 4. Cysylltu Blaenau Ffestiniog â Thrawsfynydd.
 5. Cysylltu Llangollen â Wrecsam.
 6. Ailagor Tramffordd y Mwmbwls.
 7. Cysylltu Ystrad Mynach â Bedlinog.

Haneru'r teithiau â char erbyn 2030

Ein nod yw lleihau'r defnydd o geir i 50 y cant o bob taith erbyn 2030, gyda 30 y cant yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, 10 y cant yn cerdded, a 10 y cant yn beicio.

Er mwyn cyflawni'r lefel hon o newid, rydyn ni'n rhagweld symudiad sylweddol o ran buddsoddiad cyfalaf o ffyrdd i drafnidiaeth gyhoeddus. Rydyn ni am symud Cymru oddi wrth system sydd wedi'i dominyddu gan geir petrol, tuag at drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Byddwn ni'n dyrannu o leiaf 50 y cant o wariant cyfalaf trafndiaeth ar wella gwasanaethau bysiau a threnau.

Byddwn ni'n archwilio'r defnydd o rymoedd ariannol ac eraill i leihau'r defnydd o geir

Gallai mesurau gynnwys cyfyngu ar barcio yng nghanol dinasoedd, prisiau ffyrdd gwahaniaethol, gan gydnabod y cyd-destun gwahanol mewn cymunedau cefn gwlad. Byddwn ni'n cyflwyno targed ar gyfer lleihau traffig ffordd yng Nghymru, gyda cherrig milltir pum mlynedd, fel rhan o'r gofyniad cyfreithiol i gyflawni allyriadau carbon sero-net.

Tagfeydd yr M4

Mae Plaid Cymru'n gwrthwynebu cynnig Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n ddrud a niweidiol i'r amgylchedd, ar gyfer ffordd liniaru traffordd M4 i'r de o Gasnewydd. Byddai'r £1.6 biliwn y byddai hyn yn ei gostio yn cymryd lle llawer o brosiectau mwy teilwng, gan gynnwys gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Byddai'n niweidiol i'r amgylchedd, yn uniongyrchol i Forfa Gwent, ac yn anuniongyrchol drwy allyriadau carbon a llygredd. Ei effaith fyddai cynyddu cymudo â char ymhellach, a gwthio tagfeydd ar yr M4 yn nes at y gorllewin.

Gyda chwe chyffordd traffordd, ond dim ond un orsaf rheilffordd, mae angen mwy o orsafoedd ar Gasnewydd, ac nid mwy o draffig traffordd. Rydyn ni'n cefnogi argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru gan yr Arglwydd Burns i ddiweddarau prif lein rheilffordd y de i ddarparu chwe gorsaf newydd a gwasanaeth cymudo gwell.

Cymru Gysylltiedig

Byddwn ni'n datblygu cynllun seilwaith cynhwysfawr ar gyfer trydaneiddio cerbydau. Byddwn ni'n buddsoddi mewn rhwydwaith gwefru dan berchnogaeth y cyhoedd, gan gynnwys y genhedlaeth nesaf o bwyntiau gwefru cyflym iawn mewn gorsafoedd petrol ledled Cymru. Bydd ein cwmni ynni cenedlaethol yn sicrhau bod y grid ynni'n cadw'n gyfredol â'r galw ac yn sicrhau bod ein ceir trydan newydd yn cael eu pweru gan ynni lleol ac adnewyddadwy lle bo'n bosib.

Yn ogystal:

- Erbyn 2025, byddwn ni'n hwyluso'r gwaith o greu parthau allyriadau isel yn Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam, gan godi ffioedd ar gerbydau sydd ag allyriadau uchel. Bydd y rhain yn dod yn barthau allyriadau isel iawn erbyn 2027, ac yn barthau dim allyriadau erbyn 2030, gyda phob car petrol a disel wedi'u gwahardd o ganol trefi a dinasoedd dynodedig erbyn y dyddiad hwnnw.
- Byddwn ni'n buddsoddi mewn seilwaith gwefru i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan.
- Bydd gofyn i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus ddarparu pwyntiau trydaneiddio ym mhob maes parcio cyhoeddus, ac i reoleiddio i sicrhau bod darpariaeth mewn meysydd parcio preifat sydd â lle i fwy na 100 o gerbydau.
- Byddwn ni'n rheoleiddio i sicrhau bod gan 10 y cant o bob gofod parcio mewn datblygiadau preswyl orsafoedd gwefru.
- Byddwn ni'n sefydlu Gwasanaeth Cyngori Cenedlaethol i gynghori deiliaid tai ar osod pwyntiau gwefru domestig ar gyfer cerbydau trydan, a defnydd o ffynonellau gwefru ychwanegol fel paneli solar. Byddwn ni'n cefnogi gwefru cost-effeithiol yn y gweithle.

- Byddwn ni'n gweithio gyda chyrrff cyhoeddus i gwael gwared yn raddol â cheir petrol a disel o stoc gerbydau'r sector cyhoeddus erbyn 2025, ac ni fydd ceir petrol a disel masnachol ysgafn newydd yn cael eu prynu erbyn 2027.
- Byddwn ni'n anelu i roi diwedd yn raddol ar werthu ceir a faniau newydd petrol a disel yn unig yng Nghymru erbyn 2027 – dair blynedd yn gynharach na gweddill y Deyrnas Unedig.
- Byddwn ni'n archwilio cynigion ar gyfer priffyrdd a thwneli ar gyfer ceir trydan yn unig mewn ardaloedd â llygredd a thagfeydd uchel.

Teithio llesol a chymdogaethau 20 munud

Nid yn unig mae cerdded a beicio'n fwy amgylcheddol gynaliadwy na thrafnidiaeth modur, ond gallant hefyd fod yn rhan bwysig o fyw'n iach.

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n gweithio tuag at greu cymdogaethau 20 munud ym mhob un o'n trefi a'n dinasoedd, gan ddarparu mynediad cyfleus a diogel i gerddwyr i'r llefydd y mae angen mynd iddyn nhw a'r gwasanaethau mae pobl yn eu defnyddio bron bob dydd: trafnidiaeth gyhoeddus, siopa, ysgolion, parciau, a gweithgareddau cymdeithasol.

Byddwn ni:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod targedau uchelgeisiol ar gyfer newid moddol, gan gynnwys cynyddu'r ddarpariaeth o lwybrau beicio yn sylweddol.
- Yn gosod targed cenedlaethol y bydd 10 y cant o'r holl deithiau'n cael eu gwneud ar feic neu sgwter erbyn 2030.

Cymru Gysylltiedig

- Yn arddangos y potensial ar gyfer llwybrau beicio pellter hir ar hyd rhwydwaith ffyrdd strategol a phriffyrdd eraill sy'n ymestyn 15km o ganolfannau rhanbarthol sy'n denu traffig cymudwyr sylweddol, er enghraifft Aberystwyth, Bangor, Merthyr Tudful a Phontypridd.
- Yn creu cymhellion i annog defnydd o e-feiciau, a sefydlu strategaeth ddiwydiannol i hyrwyddo'r gwaith o'u gweithgynhyrchu yng Nghymru.
- Yn sefydlu dinas arddangos i ddangos beth yw potensial beiciau e-cargo o ran disodli faniau a lleihau cerbydau nwyddau trwm.
- Yn darparu cyllid i Barc Rhanbarthol y Cymoedd ymestyn, cynnal a marchnata ei rwydwaith llwybr beicio sylweddol, a sicrhau bod twneli'r Rhondda ac Abernant yn dod yn atyniadau twristaidd pwysig. Byddwn ni hefyd yn ymchwilio i ddichonoldeb creu cyfleuster tebyg ar hyd y leiniau rheilffyrdd na chânt eu defnyddio yn yr hen faes glo yn y gogledd-ddwyrain.
- Yn gwneud 20mya yn gyflymder diofyn ym mhob ardal adeileddig.
- Yn cynnal ymchwiliad i fesurau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â'r 100 o farwolaethau a'r 1,000 o anafiadau difrifol sy'n digwydd bob blwyddyn o ganlyniad i ddamweiniau traffig yng Nghymru.
- Yn sefydlu rhaglen i symud swyddfeydd y sector cyhoeddus i ganol trefi a dinasoedd ac i ffwrdd o ddatblygiadau y tu allan i drefi.

Bysiau

Byddwn ni'n rhoi grym i awdurdodau lleol sefydlu eu cwmnïau bysiau ardal eu hunain. Bydd Trafnidiaeth Cymru'n sefydlu gweithredwr bysiau dan berchnogaeth y cyhoedd, a fydd

yn barod i weithredu mewn unrhyw leoliad lle nad oes gweithredwyr masnachol yn cynnig contractau o ansawdd da.

Byddwn ni'n cyflymu datblygiad Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan amlinellu'n glir beth yw eu diben, eu trefniadau llywodraethu ac ariannol, ynghyd â'u cydberthynas gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru. Er mwyn hwyluso cydweithio rhwng gwasanaethau, byddwn ni'n dod â gwaith comisiynu bysiau, tacsis a bysiau ynghyd, gan uno'r cyllidebau ar gyfer trafndiaeth ysgolion, Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau, a ffioedd consesiwn.

Rydym yn cefnogi ail-reoleiddio gwasanaethau bysiau a byddwn yn archwilio opsiynau i gyflwyno'r ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i ganiatáu datblygu system masnachfreinio bysiau yng Nghymru.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn ehangu gwasanaeth TrawsCymru fel gwasanaeth bysiau cenedlaethol sy'n gwasanaethu trefi mawr ledled y wlad, gan flaenoriaethu'r cymunedau hynny sydd heb gysylltiadau trên rheolaidd.
- Yn cyflwyno gwasanaeth gwybodaeth mwy integredig ar gyfer teithwyr ag anableddau.
- Yn sefydlu Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gwella Gorsafoedd Bws i adlewyrchu'r biblinell fuddsoddi ar gyfer trenau.

Tacsis

Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru, lle mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol wahanol safonau ar gyfer gweithredu tacsis a'u gyrwyr. Byddwn ni'n adolygu ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig uno gwaith rheoleiddio tacsis (cerbydau hacni), y gellir eu galw ar y stryd a'u gweithredu o safleoedd tacsï swyddogol, gyda cherbydau llogi preifat, lle na ellir gwneud hynny.

Cymru Gysylltiedig

Maes Awyr Caerdydd

Nid yw ymestyn teithio awyr yn ffurfio rhan bwysig o'n polisi trafnidiaeth cyffredinol oherwydd ei gyfraniad at gynhesu bydeang. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod teithio awyr yn elfen hanfodol o gyfathrebu rhyngwladol a'r diwydiant twristiaeth. Felly, mae'n rhaid i gynnal maes awyr rhyngwladol hyfyw fod yn rhan o seilwaith trafnidiaeth cyffredinol y wlad. Ar yr un pryd, byddwn ni:

- Yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi treth ar danwydd awyrennau a thynnu ei ryddhad treth presennol. Ar sail pro rata, byddai hyn yn codi tua £50-70 miliwn y flwyddyn i Gymru.
- Yn hyrwyddo symud at fiodanwydd a thanwydd synthetig ar gyfer awyrennau, ac yn rhoi pwysau i orfodi hynny ar lefel rhyngwladol erbyn 2030.
- Yn lleihau effaith allyriadau o awyrennau drwy greu cwmni gwrthbwysu hinsawdd cenedlaethol ym maes awyr Caerdydd. Bydd hyn yn defnyddio ystod o dechnegau, gan gynnwys cipio aer unionyrchol, fel rhan o gynllun gwrthbwysu carbon archwiliadwy. Dylai pob taith awyr gan y sector cyhoeddus gael ei gwrthbwysu yn ôl y gyfraith.

Fel pob maes awyr, mae maes awyr Caerdydd wedi cael ei daro'n ddrwg gan effaith Covid-19, a hynny yn erbyn hanes o lywodraethau olynol y Deyrnas Unedig yn canoli teithio awyr i Heathrow, sy'n golygu siwrneiau hir er mwyn defnyddio'r cyfleuster hwnnw. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer maes awyr Caerdydd yn cynnwys:

- Pwysu i ddatganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru.
- Tyfu cyfran Maes Awyr Caerdydd mewn busnesau awyrennau presennol.



- Integreiddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i'r maes awyr yn rhan o'r Metro.
- Manteisio ar gyfleoedd economaidd y clwstwr cynhaliaeth, atgyweirio ac ailwampio ehangach yn y rhanbarth.
- Cynnal Gwasanaeth Awyr mewnol rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, a sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus addas i'r defnyddiwr ar gael yn y ddau safle.

Porthladdoedd

Dylid trosglwyddo cyfrifoldeb dros reoleiddio porthladdoedd i Lywodraeth Cymru. Byddwn ni'n datblygu strategaeth porthladdoedd a morwrol i Gymru, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd ym maes cludo a dosbarthu, twristiaeth mordeithio, a datblygiadau'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy.

Byddwn ni'n gweithio gyda pherchnogion porthladdoedd a'r sector preifat fel rhan o'r strategaeth hon i lunio cynllun penodol ar gyfer pob porthladd yng Nghymru, ac adolygu cysylltiadau ffordd a rheilffyrdd at borthladdoedd fel rhan o'n Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Y GYMRAEG

Crynodeb

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">– Cyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i roi'r rhodd o ruglder yn y Gymraeg i bob plentyn.– Codi statws a dyrannu cyllid ychwanegol i Brosiect 2050 (miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a fydd, gyda mandad 'mwy na miliwn o siaradwyr' ac fel rhan ganolog o'r Llywodraeth, yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau polisi ar draws pob adran.– Gosod targed o 1,000 o ofodau Cymraeg newydd, gan gynnwys gofodau diwylliannol a gweithleoedd, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. | <ul style="list-style-type: none">– Sefydlu 'Menter Ddigidol Gymraeg' newydd fel rhan o strategaeth ddigidol newydd ar gyfer yr iaith.– Ymestyn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg a'i bwerau i weddill y sector preifat.– Dyblu'r cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. |
|--|--|



Y Gymraeg

Miliwn o Siaradwyr

Mae Plaid Cymru eisiau Cymru wirioneddol ddwyieithog, lle mae dinasyddion yn teimlo'n rhydd i ddefnyddio eu dewis iaith yn eu bywydau bob dydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ledled y wlad, gan sicrhau bod ganddyn nhw bob cyfle i ddefnyddio'r iaith yn ôl eu dewis.

Byddwn ni'n sicrhau bod y Gymraeg wedi'i phrif ffrydio yn holl bolisiau, canllawiau a strategaethau Llywodraeth Cymru.

Er mwyn i'r iaith ffynnu mewn modd cynaliadwy, mae angen i ni ganolbwyntio ar ei defnydd bob dydd yn ein cymunedau, ein gweithleoedd, a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Rydyn ni felly yn cefnogi gweledigaeth 'Mwy na Miliwn' Cymdeithas yr Iaith, sy'n ehangu agenda'r Gymraeg y tu hwnt i niferoedd yn unig, gan osod targed i greu 1,000 o ofodau Cymraeg newydd erbyn diwedd tymor nesaf y Senedd, a chodi buddsoddiad i'r lefel a welir yng Ngwlad y Basg dros amser.

Byddwn ni'n gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg adolygu a diwygio'r targedau addysg sydd yn strategaeth iaith y Llywodraeth bresennol, er mwyn sicrhau y byddan nhw'n cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr.

Rydyn ni'n cefnogi argymhellion Comisiynydd y Gymraeg yn ei *Fanifesto ar gyfer Etholiad Senedd 2021*. Rydyn ni'n cefnogi'r targed presennol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac agenda ehangach 'mwy na miliwn'. Byddwn ni:

- Yn codi statws Prosiect 2050 (uned bresennol y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru) fel rhan o adran iaith gyflawn sy'n gyfrifol am arwaith strategaeth adfer yr iaith.

- Yn sefydlu uned newydd yn y llywodraeth, gan groesawu arbenigedd allanol i fanteisio ar arloesedd gwyddor ymddygiad i wneud defnydd effeithiol o fentrau rheoleiddiol, polisi ac eraill i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Yn archwilio'r achos dros sefydlu Asiantaeth y Gymraeg hyd braich yn y dyfodol.
- Yn ymestyn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg, ynghyd â grymoedd a dyletswyddau rheoleiddiol, i feysydd ychwanegol, gan gynnwys y sector preifat a Chynllunio Gwlad a Thref.
- Yn gweithredu amserlen ar gyfer paratoi a chyflwyno rheoliadau i ehangu Safonau'r Gymraeg i'r holl gyrff a'r sectorau sy'n weddill sydd wedi'u cynnwys ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i roi sbardun a momentwm newydd i'r gwaith pwysig hwn.
- Yn ymestyn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn meithrin gweithlu dwyieithog drwy ddarparu cyllid newydd sylweddol ar gyfer Cymraeg i Oedolion, drwy ryddhau athrawon a gofawyr o'u gwaith i ddysgu neu i wella eu Cymraeg; cefnogi rhieni sy'n dymuno gwneud Cymraeg yn iaith y cartref; a galluogi pobl sy'n symud i Gymru i ddysgu'r iaith.
- Yn creu 1,000 o weithleoedd cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys tair adran yn Llywodraeth Cymru.
- Yn integreiddio gwaith y Mentrau Iaith a'r Canolfannau Iaith, ac yn gosod mandad 'mwy na miliwn' newydd iddyn nhw i rwydweithio'r gymuned Gymraeg, i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar lefel leol, ac i weithio gydag ysgolion Cymraeg, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, a sefydliadau eraill.
- Yn sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg fel rhan o strategaeth ddigidol newydd ar gyfer yr iaith ar y cyd ag eraill.
- Yn sicrhau bod y gwariant ychwanegol ar gyfer gwireddu Prosiect 2050 wedi'i nodi'n glir yng nghyllideb gyntaf Llywodraeth Plaid Cymru, gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad i hyrwyddo'r iaith i lefelau tebyg i Wlad y Basg yn ystod tymor y Senedd.

Y Gymraeg

Y Gymraeg yn y gwaith

Rydyn ni am annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Byddwn ni'n gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sefydlu rhaglen hyfforddi'r gweithlu a fydd yn darparu hyfforddiant a chysiau trochi Cymraeg strwythuredig, gan gynnwys cefnogaeth ariannol i ryddhau gweithwyr i ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau iaith.

Byddwn ni'n darparu cymorth, cymhellion, a chynghor i entrepreneuriaid a busnesau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel bod modd iddynt ddatblygu eu model busnes dwyieithog. Byddwn ni'n gweithio gyda busnesau bach a chanolig ledled Cymru i ddatblygu llyfyrdd ar brentisiaethau yn Gymraeg. Byddwn ni hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol, cyrff wedi'u hariannu'n gyhoeddus, a'r sector cyhoeddus ehangach.

Addysg cyfrwng Cymraeg

Rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau bod addysg gynradd yng Nghymru'n dod yn wirioneddol ddwyieithog, fel bod pob plentyn yn cyrraedd 11 oed ac yn gallu deall a chyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn ni'n cyflwyno Deddf Addysg Gymraeg yn seiliedig ar adroddiad Gareth Pierce, *Y Gymraeg mewn addysg: cryfhau drwy ddeddfu?* er mwyn

1. Sefydlu targedau statudol clir gyda chymhellion priodol er mwyn normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a chyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr.
2. Sefydlu targedau cenedlaethol ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn galluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar fyrder.
3. Gweithredu'r ymrwymiad i un continwrm o ddysgu Cymraeg i bob disgybl.
4. Gosod nod statudol hirdymor o addysg cyfrwng Cymraeg i bawb fel rhan o darged Cymraeg 2050.

Byddwn ni'n ystyried sefydlu'r hawl i gludiant am ddim i ysgolion Cymraeg.

Byddwn ni'n gwella addysgu Cyfnod Sylfaen a darpariaeth Gymraeg, gan ddefnyddio model trochi, fel bod modd i ddisgyblion siarad Cymraeg i safon dderbyniol erbyn iddyn nhw fod yn saith oed. Byddwn ni'n darparu cymorth fel bod athrawon o bob grŵp oedran yn gallu gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg.

Byddwn ni'n gweithio gyda darparwyr gofal plant, fel y Mudiad Meithrin, i sicrhau bod gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ac wedi'i normaleiddio ym mhob rhan o Gymru.

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys un llwybr dysgu a chymhwyster Cymraeg i bawb.

Byddwn ni hefyd yn blaenoriaethu:

- Diogelu yn erbyn cau ysgolion Cymraeg oni bai bod y Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried effaith y cau ar y Gymraeg fel iaith gymunedol, a'i fod yn fodlon nad oes effaith ac y dylai'r broses fynd yn ei blaen.
- Gosod targedau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- Sefydlu nod statudol hirdymor o addysg cyfrwng Cymraeg i bawb fel rhan o darged 2050.
- Darparu targedau ar gyfer cynyddu nifer a chanran y pynciau a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sydd ar hyn o bryd yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, fel yr argymhellwyd gan yr Athro Sioned Davies yn ei hadroddiad yn 2013, Un iaith i Bawb.
- Hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg; lleihau ffioedd a darparu cymhellion gwell ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gynnwys ystyried yr opsiwn o ymestyn y cwrs i ganiatáu i bob athro dan hyfforddiant ddod yn rhugl yn yr iaith.
- Blynnyddoedd dilynol o Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer yr athrawon hynny sy'n dysgu Cymraeg.

Y Gymraeg

- Creu cynllun i annog pobl i ddatblygu hyfedredd digonol er mwyn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Buddsoddi mewn rhaglen Cymraeg i Oedolion i hyfforddi mwy o athrawon sy'n siarad Cymraeg.
- Sefydlu cronfa newydd i ehangu mynediad at y Gymraeg i bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys ariannu mentrau i ddarparu mynediad am ddim i ddigwyddiadau a'r hawl i ddysgu Cymraeg i grwpiau wedi'u hymyleiddio fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Canolfannau trochi ym mhob rhan o Gymru ar gyfer plant sy'n dod i'r wlad er mwyn dysgu Cymraeg, yn seiliedig ar fodel Gwynedd.
- Ehangu'r system Athrawon Bro.
- Creu rhaglen genedlaethol o ymwybyddiaeth iaith, gan gynnwys manteision addysg amlieithog.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu addysg uwch a phellach drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i academyddion gynnal ymchwil yn Gymraeg. Byddwn ni'n dyblu'r cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ei alluogi i gyflawni'r canlynol:

- Datblygu'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg.
- Recriwtio a hyfforddi gweithlu dwyieithog, ym maes addysgu ac yn fwy cyffredinol, er mwyn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ogystal, bydd darparu neuaddau preswyl cyfrwng Cymraeg newydd neu estynedig yn dod yn amod o gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i addysg uwch.

Gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn ni'n gweithio i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio ym maes gofal iechyd yng Nghymru, fel bod modd i gleifion Cymraeg allu cael gwasanaethau'r GIG yn Gymraeg. Bydd sgiliau Cymraeg yn gymhwyster allweddol yn y GIG.

Statws y Gymraeg

Byddwn yn cymryd camau i gryfhau statws yr iaith ymhellach. Byddwn ni'n cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod enwau llefydd Cymraeg, mewn amgylcheddau naturiol ac adeiledig, yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn pwyso am i'r Gymraeg gael statws swyddogol mewn trafodaethau yn San Steffan tra byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

DIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON

Crynodeb

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">– Cynorthwyo sector y celfyddydau i adfer o'r pandemig drwy greu Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cymru i gefnogi corfflu o 1,000 o weithwyr llawrydd i weithio yn y gymuned ac mewn ysgolion, wedi'u cefnogi gan incwm sylfaenol o £1,000 y mis am ddwy flynedd.– Gwreiddio cymorth ar gyfer y celfyddydau ar draws pob rhan o'r llywodraeth, drwy Strategaeth newydd a chynhwysol y Celfyddydau a Diwylliant.– Sefydlu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol bwrpasol mewn lleoliad heblaw Caerdydd, gan arddangos y gorau o ddiwylliant gweledol cenedlaethol a rhyngwladol. | <ul style="list-style-type: none">– Cefnogi cynigion i ddatblygu Castell a Pharc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful yn ganolfan genedlaethol ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol.– Sefydlu corff newydd i reoleiddio a gwella darlledu yng Nghymru fel rhan o system ddarlledu wedi'i datganoli'n llawn.– Datblygu cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru yn 2030 neu 2034. |
|---|---|



Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Diwylliant – wrth galon y genedl

Mae diwylliant wrth galon ffordd o fyw ein cenedl. Mae'n ein diffinio ni. Mae'n hanfodol i bob cymuned. Dyna sy'n cysylltu cenedlaethau ac ardaloedd. Mae'n hanfodol i'n lles a'n cydlyniant fel cymdeithas. Diwylliant hefyd yw'r ffordd mae ein hunaniaethau amrywiol yn ymgysylltu â'i gilydd, a'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'r byd. Mae i ba raddau rydyn ni'n cydnabod hyn mewn ffordd ymarferol yn fesuriad o gymdeithas wâr ac aeddfed.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl ar bob lefel wedi bod yn hynod ymwybodol o'r diffyg diwylliannol yn eu bywydau – boed hynny'n ddiffyg cae chwarae neu deras, y clwb neu neuadd gyngerdd, y theatr, orielau neu wyliau. Mae'r rhain yn brofiadau casgliadol, a hebddynt mae llawer o bobl wedi'u gadael yn teimlo unigedd, unigrywdd a gwacter.

Ar y llaw arall, mae hefyd wedi bod yn gyfnod lle mae llawer o bobl, wrth gwmpo'n ôl ar eu hadnoddau eu hunain, neu drwy fanteisio ar y cynnydd yn allbwn ar-lein sefydliadau diwylliannol, wedi canfod diddordebau diwylliannol newydd.

Am y rhesymau hyn oll, byddwn ni'n rhoi'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon – pob un yn ffordd o fynegi ein hanes a'n traddodiadau cymdeithasol, ynghyd â'n dyheadau ar gyfer y dyfodol – wrth galon ein holl waith polisi cyhoeddus a gweithgarwch llywodraethu, mewn llywodraeth lleol a chanolog, mewn datblygiad economaidd, ym maes iechyd ac addysg, ac mewn perthynas â'n hamgylchedd, boed hynny'n drefol neu'n wledig. Bydd gofyn i bob adran o'r llywodraeth lunio ymateb cadarnhaol a pherthnasol.

Dyma'r hyn rydyn ni'n ei olygu o ran y strategaeth ddiwylliannol hollol gynhwysol rydyn ni'n bwriadu ei meithrin a'i chynnal, er mwyn ailsefydlu'r cysylltiadau amrywiol a'r profiadau a rennir sydd wedi cael eu peryglu gan y pandemig, ond sydd, gyda'i gilydd, yn creu cymdeithas.

Yn y broses hon, byddwn ni'n meithrin y creadigrwydd a'r arloesedd a fydd yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi yn y dyfodol, gan ein galluogi ni i gyfoethogi'r ymdeimlad o le ym mhob cymuned, a chyflawni dyheadau penodol ac ymhlwg Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adferiad diwylliannol

Byddwn ni'n sicrhau bod proses yr adferiad diwylliannol yn dilyn difrod Covid yn ystyried ei heffeithiau ar ein hartistiaid unigol a'n gweithwyr llawrydd, ynghyd â sefydliadau diwylliannol allweddol y genedl.

Artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd

Mae artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd yn gydran hollbwysig o'r sector diwylliannol – awduron, artistiaid, cerddorion, cynllunwyr setiau, a thechnegwyr sy'n gweithio mewn theatrau, mewn lleoliadau gwyliau, neu i gwmnïau teithio. Yn aml, mae'r bobl hyn yn gwneud cyfraniad allweddol i weithgarwch diwylliannol ar lefel y gymuned. Ond boed nhw'n gweithio ar eu pennau eu hunain neu i gwmnïau a sefydliadau, mewn llawer o achosion nhw, fel unigolion, sydd wedi dwyn y baich yn ystod y flwyddyn hon lle bu'n rhaid cau popeth.

Bydd adfywio gwaith y prif sefydliadau celfyddydol ynddo'i hun yn cynorthwyo gyda'r gwaith o adfywio'r corfflu o weithwyr llawrydd, ond mae'n rhaid i ni hefyd gefnogi gweithwyr llawrydd yn eu cyfraniad hanfodol ar lefel gymunedol ac mewn ysgolion – yn mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl ac yn gwella bywydau a sgiliau ein pobl ifanc.

Byddwn ni'n creu **Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cymru**, sef incwm sylfaenol diwylliannol, i gynorthwyo 1,000 o weithwyr llawrydd i weithio yn y gymuned, gan gynnig incwm o £1,000 y mis iddynt am ddwy flynedd.

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Sefydliadau diwylliannol

Bydd ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol yn hanfodol er mwyn darparu'r Strategaeth Ddiwylliannol newydd. Bydd angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru arnynt am gyfnod parhaus er mwyn adfer o effeithiau ariannol y pandemig.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y Theatr Genedlaethol, National Theatre Wales, y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa Genedlaethol, Llenyddiaeth Cymru, y Cwmni Dawns Cenedlaethol, y Cyngor Llyfrau, Canolfan y Mileniwm, Opera Cenedlaethol Cymru, Ffilm Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Urdd Gobaith Cymru.

Mae'r rhain yn sefydliadau allweddol i fywyd diwylliannol ein cenedl. Byddwn ni'n diogelu eu cyfraniad gwerthfawr, eu hannibyniaeth, a'u hyfywedd ariannol.

Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda nhw i sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. Mae'n rhaid i'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant gynrychioli a bod yn agored i bawb sy'n byw yng Nghymru. Byddwn ni hefyd yn ceisio ehangu eu rôl yn hyrwyddo diwylliant Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol, gartref a thramor.

Gwella ein celfyddydau a'n diwylliant

Cryfhau'r lleol

Mae llymder gorfodol wedi cael effaith galed ar rôl awdurdodau lleol yn darparu'r celfyddydau a diwylliant. Ym mhob ardal, mae cynghorau wedi brwydo i gynnal darpariaeth. Mewn rhai ardaloedd, maen nhw wedi'u hatal yn llwyr. Hyd yn oed pan fydd adnoddau'n dynn, dylai fod gan gynghorau gyfrifoldeb ffurfiol i arwain yn y maes hwn.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol:

- Weithredu fel cynullydd a galluogwr i'r celfyddydau a diwylliant o fewn eu ffiniau.
- Sefydlu **consortium diwylliannol** lleol i ddod â rhwydweithiau diwylliannol lleol ynghyd.
- Rhoi sylw arbennig i:

1. Annog cyfranogiad yn y celfyddydau gan blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.
2. Darparu mwy o fynediad at y celfyddydau i bobl groenliw, pobl anabl, ynghyd â phobl eraill sydd wedi'u hymyleiddio.
3. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r celfyddydau, gan gynnwys gofodau Cymraeg newydd.
4. Sicrhau bod hanes a threftadaeth Cymru'n ganolog i'r cwricwlwm ysgol, a'i fod yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

Fel rhan o wella gwaith y Cynghorau Partneriaeth yn yr awdurdodau lleol, byddwn ni'n gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, CADW, cynrychiolwyr y sector a rhanddeiliaid fel Cyngor Hil Cymru, i ddatblygu cydberthnasau gwell rhwng gweithgareddau diwylliannol lleol a'n sefydliadau cenedlaethol.

Ariannu ar sail angen

Mae cyflwr economaidd Cymru – lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd cymdeithasol ei chymunedau niferus sy'n profi caledi – yn cyfiawnhau ariannu arbennig sy'n uwch ac yn mynd y tu hwnt i fformiwla Barnett. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol ar gyfer dosrannu cronfeydd loteri.

Byddwn ni'n pwyso am 1 y cant ychwanegol i gyfran Cymru o holl gronfeydd loteri'r Deyrnas Unedig i gydnabod yr anghenion ychwanegol hynny.

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Amgueddfeydd, Oriolau a Llyfrgelloedd

Y Rhwydwaith Amgueddfeydd Cenedlaethol

Gall Cymru fod yn falch o'i rhwydwaith o safleoedd yr Amgueddfa Genedlaethol ledled y wlad. Rydyn ni hefyd yn cydnabod llwyddiant y polisi mynediad am ddim i'r amgueddfeydd hynny, a byddwn ni'n ei gynnal. Ar yr un pryd, byddwn ni'n sicrhau uniondeb ein holl amgueddfeydd cenedlaethol, ynghyd â'u hyfywedd.

Byddwn ni hefyd yn cefnogi cynlluniau gwella parhaus ar draws y rhwydwaith hwnnw, yn dilyn llwyddiant y gwaith o ailddatblygu'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Mentrau Newydd

Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

Byddwn ni'n gwireddu dyheadau hirsefydlog i greu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol bwrpasol, a fydd yn cynrychioli diwylliant gweledol Cymru, o ran creadigrwydd a chasgliadau, ac yn arddangos y gorau o ddiwylliant gweledol cenedlaethol a rhyngwladol. Yn ein blwyddyn gyntaf yn y llywodraeth, byddwn ni'n nodi lleoliad heblaw Caerdydd ar gyfer yr Oriel.

Byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn y deg canolfan ledled Cymru sydd eisoes yn arddangos diwylliant gweledol cyfoes ac ychwanegu un arall ar gyfer y cymoedd sydd wedi'u lleoli yn y Rhondda.

Castell a Pharc Cyfarthfa

Byddwn ni'n cefnogi cynigion i ddatblygu Castell a Pharc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful yn ganolfan genedlaethol ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol. Bydd hyn yn ategu ein cynigion i greu Awdurdod Datblygu'r Cymoedd.

Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol

Byddwn ni'n parhau â'n cefnogaeth i greu a datblygu Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol. Bydd hyn yn rhoi hawl i unrhyw ddinesydd yng Nghymru lawrlwytho copi electronig o unrhyw lyfr mewn casgliad cyhoeddus cenedlaethol neu leol, gan gynnwys y rhai sydd mewn hawlfraint, yn gyfnewid am ffi a delir i'r cyhoeddwr a'r awdur, yn seiliedig ar sawl tro caiff y fersiwn ddigidol ei darllen. Bydd system debyg yn berthnasol i gerddoriaeth a ffilm.

Byddwn yn gofalu wrth lunio'r cynllun hwn nad yw'n tanseilio'r fasnach lyfrau a recordiau gonfensiynol.

Archif Genedlaethol

Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig nad oes ganddi archif genedlaethol bwrpasol. Byddwn ni'n ystyried yr opsiynau sydd wedi'u nodi yn yr Adroddiad Dichonoldeb i sefydlu Archif Genedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, ac yn gweithredu cynllun datblygu.

Mentrau eraill

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Byddwn ni'n cefnogi cynlluniau i wneud y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama yn sefydliad annibynnol, er mwyn cynyddu ei gyllid i lefelau Conservatoires y Deyrnas Unedig, ac i ehangu ei waith drwy ychwanegu dawns i'w ddarpariaeth bresennol. Yn y broses, bydd yn rhaid iddo adlewyrchu bywyd diwylliannol amrywiol a dwyieithog Cymru yn llawn.

Datblygiad Cerddoriaeth

Yn y gorffennol, mae sawl cynllun wedi bod i annog cyfranogiad pobl ifanc mewn cerddoriaeth. Maen nhw wedi tueddu i fod yn fentrau byrhoedlog sydd wedi gwywo'n ddim. Byddwn ni'n sicrhau bod cyfranogiad

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

cerddorol o bob math yn cael ei wreiddio'n barhaol fel darpariaeth sydd ar gael i'n holl bobl ifanc ledled y wlad.

Gŵyl Cymru

Byddwn ni'n trefnu Gŵyl Cymru genedlaethol blwyddyn o hyd yn 2023.

Y Celfyddydau a'r Gymraeg

Byddwn ni'n hyrwyddo cynnydd mewn cynyrchiadau celfyddydol a gweithgarwch cyfrwng Cymraeg, a datblygiad llwybrau gyrfaol yn y celfyddydau yn y Gymraeg.

Cronfa Ffilm Cymru

Byddwn ni'n disodli cronfa aflwyddiannus a gwastraffus bresennol Llywodraeth Cymru, sef y Gronfa Fuddsoddi yn y Cyfryngau, gyda chronfa newydd i fuddsoddi mewn cynnwys ffilm o Gymru, yn seiliedig ar argymhellion Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd yn y maes hwn. Ein blaenoriaeth fydd cefnogi ein sector cynhenid i adrodd straeon Cymraeg gwreiddiol a manteisio ar bartneriaethau a chyfleoedd masnachol i werthu'r rhain i'r byd.

Eurovision

Byddwn ni'n paratoi cais Cymru fel cenedl yn ei hawl ei hun yn y gystadleuaeth adnabyddus fyd-eang, Eurovision.

Darlledu a'r Cyfryngau

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd newyddiaduraeth a newyddion wedi'i ariannu'n dda. Mae hefyd wedi amlygu'r anialwch newyddion ledled Cymru, sydd wedi rhwystro negeseuon iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru yn hytrach na'u cryfhau.

Ar yr un pryd, rydyn ni wedi gweld twf cyflym mewn rhwydweithiau teledu rhyngwladol sydd wedi mynd law yn llaw â gelyniaeth gynyddol

gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig tuag at y BBC, ac ar lefel leol rydyn ni wedi gweld cynnwys lleol yn gwanhau ar radio masnachol a dirywiad mewn papurau newydd lleol.

Darlledu

Byddwn ni'n pwysu am ddatganoli darlledu a thelathrebu yn llwyr i Gymru, gan gynnwys grymoedd rheoleiddio, trethiant ac ariannol. Fel cam cyntaf, byddwn ni:

- Yn sefydlu corff darlledu a thelathrebu i Gymru, yn annibynnol ar y llywodraeth, a fydd â chylch gwaith a fydd yn cynnwys cryfhau democratiaeth leol a chenedlaethol Cymru a'r Gymraeg. Bydd y corff newydd yn defnyddio pob grym rheoleiddiol, ariannol ac arall sydd ar gael er mwyn cyflawni ei gylch gwaith. Bydd ei rymoedd yn cynnwys gosod telerau trwydded sianel 3 nesaf Cymru, er mwyn gwella allbwn cyfryngau Cymru a sicrhau mwy o gynnwys lleol a Chymraeg ar deledu a radio lleol.
- Yn sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg i wella'r defnydd o'r iaith a'r mynediad ati mewn oes aml-lwyfan.
- Yn pwysu am ardoll ar ddarparwyr digidol a phreifat er mwyn gwella darlledu cyhoeddus a darpariaeth y cyfryngau.
- Yn pwysu am ddatganoli grymoedd dros yr holl ddarlledu cyhoeddus Cymraeg a Saesneg, ynghyd â grymoedd rheoleiddio radio masnachol a theledu lleol.

Comisiwn y Cyfryngau

Byddwn ni'n sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru i adolygu'r ddarpariaeth bresennol o newyddion a darpariaeth gwybodaeth yng Nghymru, ac i archwilio ffyrdd y gellir ei chefnogi'n well a'i datblygu ar bob lefel. Bydd gofyn iddo adrodd ymhen 12 mis, a bydd yn ymchwilio i'r canlynol:

- Tueddiadau cynulleidfaoedd Cymru o ran derbyn y newyddion ar draws gwasanaethau teledu, radio, print, ac ar-lein.

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

- Cymariaethau rhyngwladol o gynlluniau cefnogi'r cyfryngau, gyda'r bwriad o argymhell mecanweithiau cefnogaeth priodol ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru.
- Y potensial ar gyfer newyddiaduraeth leol a gorleol sy'n datblygu'r ymdeimlad o gymuned a lle.
- Y potensial ar gyfer gwella rhwydweithiau newyddion digidol Cymraeg a Saesneg, ac i greu gwasanaethau cenedlaethol sy'n cysylltu papurau newydd a gorsafoedd radio lleol a gorleol sy'n cynhyrchu allbwn cod agored.
- Llwybr at gyflwyno statws 'asedau o werth cymunedol' ar bapurau newydd lleol, gan sicrhau nad oes modd cau teitlau dros nos heb waith craffu priodol.
- Darpariaeth ar-lein lle mae mentrau calonogol, er yn wasgaredig, y dylem geisio adeiladu arnynt.

Chwaraeon

Byddwn ni'n hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon ar bob lefel ac i bob oedran ledled Cymru, gan weithio gyda chyrff llywodraethu chwaraeon, ysgolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, a gweithwyr ieuencid.

Byddwn ni'n datblygu ein rhaglen Ysbrydoli Cymru ymhellach, i hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru, gan ddilyn esiampl Partneriaethau Chwaraeon Lleol yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Byddwn ni'n annog mwy o gyfranogiad ymhlith pobl ifanc – ac yn enwedig ymhlith merched yn eu harddegau a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli – drwy annog darlledwyr cyhoeddus i roi canran fwy o amser darlledu i chwaraeon menywod, yn enwedig y timau rygbi a pêl-droed menywod cenedlaethol.

Byddwn ni'n ymchwilio i'r potensial o gael pwll nofio maint Olympaidd ar gyfer y gogledd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i nofwyr dawnus o'r gogledd sy'n cael eu dewis i gynrychioli Cymru deithio i Fanceinion, Lerpwl, Abertawe neu Gaerdydd er mwyn hyfforddi.

Digwyddiadau chwaraeon

Byddwn ni'n gwneud cais i ddod â'r Tour de France i Gymru, i ddynion a menywod, ac yn gweithio gyda chymdeithasau chwaraeon a'r diwydiant twristiaeth i nodi cyfleoedd eraill i Gymru groesawu digwyddiadau rhyngwladol eraill.

Byddwn ni'n datblygu cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru yn 2030 neu 2034.

Dathlu llwyddiannau chwaraeon

Rydyn ni'n cefnogi datblygu amgueddfa bêl-droed Cymru yn Wrecsam, lle sefydlwyd Cymdeithas Bêl-droed Cymru, i arddangos hanes pêl-droed yng Nghymru. Byddwn ni hefyd yn cefnogi cynigion i sefydlu Bwrdd Criced i Gymru, a allai dros amser droi at yr holl fformatau criced amrywiol.

Chwaraeon a'r Gymraeg

Fel cenedl ddwyieithog, mae'n bwysig bod ein holl gyrff llywodraethu a sefydliadau mawr yn adlewyrchu'r ddwy iaith genedlaethol. Byddwn ni'n disgwyl iddynt ddatblygu cyrsiau hyfforddi priodol a gwybodaeth farchnata yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel rhan o'n hymrwymiad i greu 1,000 o ofodau Cymraeg newydd, byddwn yn cynnig cymhellion ar gyfer clybiau chwaraeon Cymraeg eu hiaith.

CYFIAWNDER A CHYDRADDOLDEB

Cyfiawnder

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">– Gosod targed statudol i leihau tlodi plant o ddau draean erbyn 2030, gyda'r nod o'i waredu'n llwyr erbyn 2035.– Pwyso am ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol yn llawn – yr heddlu, carchardai, y gwasanaeth prawf a'r llysoedd – fel y gallwn ei gwneud yn fwy teg a chyfartal.– Creu swydd ar lefel Cabinet ar gyfer Gweinidog Cydraddoldeb a Grymuso Menywod.– Gweithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil i Gymru, gyda'r nod o ddileu hiliaeth systemig. | <ul style="list-style-type: none">– Ymgyrchu i sicrhau bod mwy o'r rhai sydd â hawl i gredyd pensiwn yn cofrestru amdano.– Pasio Deddf Awtistiaeth i Gymru, sy'n defnyddio agwedd ar sail hawliau ar gyfer pobl ag awtistiaeth, neu y tybir bod ganddynt awtistiaeth ond nad ydynt wedi cael diagnosis eto. |
|---|--|



Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Lleihau tlodi

Nid rhywbeth braf i'w gael yw mynd i'r afael ag anghyfiawnderau ac anghydraddoldebau. Yn hytrach, mae'n gyfle i ailadeiladu mewn ffordd sy'n annog trosglwyddiad strwythurol dwfn i economi sy'n rhoi mwy o werth ar y gwaith rydyn ni'n gwybod ei fod yn hanfodol er mwyn ein cynnal. Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r argyfyngau mewn polisiau gofal iechyd, cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, sydd wedi'u hamlygu yn ystod y pandemig hwn.

Byddwn ni'n pwysu am ddatganoli lles i ddatblygu system fwy tosturiol sy'n diogelu dinasyddion Cymru rhag effeithiau gwaethaf polisiau llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig.

Yn hytrach na thrin symptomau anghydraddoldeb, bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'u gwraidd. Byddwn ni'n mynd ati i geisio datganoli'r grymoedd trethu a lles sydd eu hangen at y diben hwn. Yn y cyfamser, byddwn ni'n dechrau creu'r blociau adeiladu ar gyfer Gwladwriaeth Les Cymru.

Byddwn ni'n gwneud trechu tlodi ac anghydraddoldeb yn genhadaeth genedlaethol graidd. Byddwn ni'n rhoi cyfrifoldeb i Gomisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb i ddatblygu cynllun i gyflawni ein nod, yn y tymor byrraf posib, o Gymru lle na fydd neb yn anghenus; lle bydd llai nag un ymhob deg o'r boblogaeth mewn tlodi ar unrhyw un adeg; a lle nad oes neb mewn tlodi am fwy na dwy flynedd.

Byddwn ni'n pasio Deddf Tlodi Plant newydd a fydd yn amlinellu cynllun i gael gwared â thlodi plant, gan osod targed o leihau nifer y plant sy'n profi tlodi cymharol i 10 y cant erbyn 2030.

Polisi Tâl Plant Plaid Cymru

Mae tlodi'n costio £3.6 biliwn o wariant cyhoeddus Cymru bob blwyddyn. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dweud wrthon ni bod un ymhob tri phlentyn yng Nghymru – tua 200,000 – yn byw mewn tlodi. Ym mis Mawrth 2018, adroddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y byddai diwygiadau treth a lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwthio 50,000 arall o blant Cymru i dlodi erbyn 2020-21. Mae hyn yn annerbyniol.

Dyna pam y bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn ymdrechu i wneud taliadau wedi'u targedu o £10 yr wythnos fesul plentyn i ddechrau, gan godi i £35 yr wythnos dros ein tymor cyntaf, i deuluoedd sy'n byw o dan y llinell tlodi.

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn, byddwn yn ceisio datganoli pwerau lles gan San Steffan, ac yn ceisio cytundeb gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar unwaith na fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn adfachu unrhyw daliadau.

Os na fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithredu ar y materion hyn, byddwn ni'n mynd ati ar unwaith i ganfod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â thlodi plant o fewn y gyllideb rydyn ni wedi'i dyrannu.

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Mae tlodi a pherfformiad economaidd gwael yn mynd law yn llaw. Dyna pam y bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn gwneud trechu tlodi ac adeiladu'r economi yn gyfrifoldeb cyfunol i un Gweinidog ac un adran.

Prif nod ein polisi economaidd fydd codi safonau byw. Bydd codi lefel y cyflogau cyfartalog gwirioneddol yn benodol yn nod polisi allweddol. Un o'r rhesymau pam fod 30 y cant o blant Cymru mewn tlodi (y ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan yw 23 y cant) – yw gan fod eu rhieni'n fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu mewn gwaith cyflog isel oherwydd cyfrifoldebau gofal plant. Mae gan ddwy ran o dair o'r plant sy'n byw mewn tlodi un neu ddau riant sy'n gweithio. Bydd galluogi menywod yn benodol i gael mynediad at gyflogaeth lai ansicr â chyflog gwell yn lleihau nifer y plant sydd mewn tlodi.

Grymoedd cyfiawnder

Ar ôl ugain mlynedd o ddatganoli, mae'n anghyson nad oes gan y Senedd reolaeth lawn dros faterion cyfiawnder troseddol. Byddwn ni'n pwyso am ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol yn llawn – yr heddlu, carchardai, y gwasanaeth prawf a'r llysoedd – fel y gallwn greu system gyfiawnder fwy teg a chyfartal.

Rydyn ni'n cefnogi creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru.

Drwy fod â rheolaeth dros gyfiawnder a heddlua yng Nghymru, bydd modd i ni ganolbwyntio ar yr agweddau unigryw hynny o gymdeithas Cymru sy'n arwain at gyfleoedd a heriau gwahanol i lunwyr polisi Cymru.

Mae anghydraddoldeb wedi'i adeiladu i galon ein system gyfiawnder. Ein nod fydd creu system cyfiawnder troseddol i Gymru sy'n canolbwyntio ar sefydlu mentrau cyfiawnder datrys problemau, sy'n mynd i wraidd troseddu ar gam cynnar, gan ganolbwyntio ar atal yn hytrach na dial.

Byddwn ni:

1. Yn rhoi cyfrifoldeb i'r Cwnsler Cyffredinol ddod â'r swyddogaethau cyfiawnder amrywiol ac anghydlynus sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd at ei gilydd.
2. Yn gosod llwybr ar gyfer cyflwyno argymhellion y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, yn enwedig o ran creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru.

Cyfiawnder Troseddol

Er bod newid trawsnewidiol yn anodd pan nad oes ganddon ni'r holl rymoedd angenrheidiol yng Nghymru, mae'n dal yn bosib gwneud ymyriadau ystyrlon. Bydd Llywodraeth Plaid Cymru:

- Yn mynd i wraidd camddefnydd cyffuriau drwy raglenni arloesol fel Checkpoint Cymru.
- Yn sefydlu Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau i bobl sefydlogi eu defnydd o gyffuriau.
- Yn gwneud y broses adrodd am achosion o drais a cham-drin rhywiol mor syml â phosib, gan sicrhau bod ymchwiliad i bob digwyddiad a bod goroeswyr yn cael cynnig cefnogaeth gan Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol.
- Yn sicrhau bod gan bob dioddefwr a goroeswr fynediad at wasanaethau cwnsela wedi'u hariannu'n dda.
- Yn anelu i ddeall a thaclo troseddu cylllyl drwy weithio gyda chlybiau ieuencid, gweithwyr ieuencid, ysgolion a grwpiau tebyg i wella gwasanaethau ieuencid, a sicrhau bod clwb ieuencid ym mhob tref.
- Yn gweithio gyda chymunedau sy'n profi effaith waethaf troseddu casineb, er mwyn meithrin hyder cymunedau yn y system.
- Yn ehangu ystod y cosbau cymunedol sydd ar gael i'r llysoedd eu defnyddio yn hytrach na chyfnodau yn y ddalfa.

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

I ategu'r polisïau hyn, bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n creu Sefydliad Ymchwil Cyfiawnder Troseddol hyd braich, er mwyn gwreiddio arbenigedd academiaidd ar gyfiawnder a diogelwch cymunedol yn y broses llunio polisi yng Nghymru.

Fel rhan o raglen ehangach i ddileu hiliaeth systemig, gan gynnwys yn y system cyfiawnder troseddol, byddwn:

- Yn adolygu canlyniadau cyfiawnder troseddol anghymesur, ac effeithiolrwydd y broses gyfiawnder yn ymdrin â hiliaeth. Bydd yr adolygiadau hyn yn defnyddio Adroddiadau Lammy ac Angiolini.
- Yn archwilio opsiynau o ran trosedd benodol bosib ar gyfer aflonyddu misogynistaidd a gwneud ymddygiad misogynistaidd yn drosedd casineb.
- Yn gosod targedau i gael amrywiaeth ar feinciau ynadon ac yn yr heddlu, a chydweithio gyda chyrff fel y Gymdeithas Ynadon i ehangu'r gronfa o ymgeiswyr.

Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldebau

Mae Plaid Cymru'n credu mewn cymdeithas deg a chyfiawn, lle caiff pawb eu trin yn deg a lle gall pawb fwynhau yr un hawliau a chyfleoedd. Byddwn ni'n pwyso am ddatganoli Deddf Cydraddoldeb 2010 i'r Senedd.

Byddwn ni'n gwreiddio caredigrwydd ar bob lefel o'r llywodraeth ac mewn polisi cyhoeddus, gan ddilyn esiampl Llywodraeth yr Alban. Byddwn ni hefyd yn Llywodraeth a fydd yn cydnabod y rhwystrau rhyngblethol cymhleth y mae'n rhaid i unigolion eu goresgyn. Nid yw mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb yn ddull "un maint i bawb".

Byddwn ni'n gosod targedau heriol ar gyfer recriwtio yn y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod pobl â nodweddion amrywiol yn cael eu cynrychioli'n amlwg yn y llywodraeth ar bob lefel – gan ganolbwyntio'n benodol ar

dangynrychiolaeth menywod a phobl groenliw mewn uwch swyddi.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn Creu Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb Statudol.
- Yn ceisio grymoedd datganoledig i ddisodli'r Lwfans Gofalwr gydag Incwm Gofalwyr Cynhwysol – heb fod ar sail prawf modd ac sy'n gyfwerth o leiaf â lefel Lwfans Ceisio Gwaith – ar gyfer pob gofalwr sy'n darparu mwy na 35 awr o ofal.
- Yn ymateb i dueddiadau'r dyfodol fel awtomeiddio mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u gwaethygu.
- Yn archwilio cyfleoedd i hyrwyddo wythnos weithio fyrrach a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.

Menywod

Rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau Cymru sy'n gyfartal rhwng y rhyweddau yn seiliedig ar gydraddoldeb canlyniadau, ac nid cydraddoldeb cyfle yn unig. Byddwn ni'n creu swydd ar lefel Cabinet – Gweinidog Cydraddoldeb a Grymuso Menywod – a fydd yn ymroddedig i weithredu argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd yn llawn.

Nid yw'n dderbyniol bod y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau'n dal i fod ar 14.5 y cant yng Nghymru. Byddwn ni'n ei leihau drwy gynyddu cyflog gweithwyr gofal cymdeithasol, dyfarnu cynydd cyflog termau real i weithwyr y GIG, rhoi diwedd ar contractau dim oriau, a thrwy gynnwys cydbwysedd rhwng y rhyweddau mewn contractau caffael cyhoeddus.

Ein nod yw sicrhau Senedd â chydbwysedd o 50:50 rhwng y rhyweddau, gan gynyddu ar yr un pryd gynrychiolaeth pobl groenliw, pobl LHDT+, pobl anabl, a menywod dosbarth gweithiol. Byddwn ni'n gwneud system etholiadol y Senedd yn fwy cyfrannol mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo cyflawni'r nod hon.

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Rhieni

Dylid cefnogi rhieni i gymryd cyfnodau o wyliau sy'n adlewyrchu arferion gweithio modern, gan gynnwys gweithio hyblyg. Byddwn ni'n cefnogi gwaharddiad cyfreithiol ar gyflogwyr rhag diswyddo menywod yn ystod beichiogrwydd, ac am chwe mis ar ôl iddyn nhw ddychwelyd o gyfnod mamolaeth, ac eithrio sefyllfaoedd cyfyngedig iawn.

Byddwn ni hefyd yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle, drwy gefnogi'r alwad i ychwanegu gofyniad i adrodd am gyfraddau cadw menywod sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth i'r drefn adrodd bresennol am y bylchau rhwng cyflogau'r rhyweddau.

Gyda lluo o newidiadau ar draws bywydau rhieni newydd, bydd Plaid Cymru'n gweithio i gefnogi iechyd meddwl rhieni yn ystod cyfnod a all fod yn heriol, er mor llawen hefyd, drwy ehangu a safoni mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol ledled Cymru, gan gynnwys ehangu mynediad at unedau arbenigol mamau a babanod yng Nghymru, fel sy'n cael ei arloesi yng Nghastell-nedd. Byddwn ni'n sefydlu gwasanaeth yn y gogledd i helpu teuluoedd y mae arnynt angen mynediad at gymorth amenedigol aciwt ar adeg mor dyngedfennol.

Byddwn ni hefyd yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith rhieni newydd, yn enwedig mamau, drwy sefydlu Rhwydweithiau Rhieni lleol, wedi'u hysbrydoli gan fenter Mamma Gruppen yn Sweden.

Yn ogystal â darparu gofal plant cyffredinol i blant o ddeuddeg mis oed ymlaen, rydyn ni'n credu y dylid ehangu ar absenoldeb rhiant statudol â thâl, i'w gymryd gan un rhiant neu i'w rannu, o'r 39 wythnos presennol i 52 wythnos. Byddwn ni'n parhau i wthio am ddatganoli llawn ar gyfer cymwyseddau i ddarparu trosglwyddiad di-dor rhwng diwedd absenoldeb rhiant â thâl a mynediad at ein cynnig gofal plant cenedlaethol.

Byddwn ni hefyd yn ehangu'r absenoldeb tadolaeth statudol i 12 wythnos, gan roi mwy o amser i dadau a phartneriaid ei dreulio gyda'u teulu newydd.

Dylid ymestyn absenoldeb a thâl mamolaeth a thadolaeth i deuluoedd y mae eu babanod yn cael eu geni'n gynnar, cyn 36 wythnos o feichiogrwydd, gyda nifer yr wythnosau y mae'r baban yn gynnar wedi'i ychwanegu at drefniadau absenoldeb rhiant.

Byddwn ni'n cyflwyno absenoldeb rhiant a rennir ar gyfer gweithwyr Llywodraeth Cymru ar y gyfradd cyflog mamolaeth uwch i dadau sy'n cymryd yr absenoldeb, ac yn annog yr un arfer da mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan ddylanwadu ar arfer da a defnyddio grymoedd caffael yn y sector preifat.

Plant

Byddwn ni'n adeiladu ar raglenni, fel Dechrau'n Deg, i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, ac yn blaenoriaethu trallod yn ystod plentynod ac ymyrraeth gynnar. Byddwn ni'n gosod strategaeth genedlaethol glir i rymuso ac annog gwasanaethau cyhoeddus allweddol i ddarparu ymyrraeth effeithiol a chynaliadwy ar sail tystiolaeth.

Yn ogystal, byddwn ni:

- Yn atal cwmnïau preifat rhag gwneud elw mewn cartrefi plant a gofal maeth.
- Yn dod â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan lawn o gyfraith Cymru.
- Yn gwneud deddfau newydd i ddiogelu hawliau plant sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Yn sicrhau bod gan bob plentyn y dyfeisiau electronig sydd eu hangen arnynt i ddysgu gartref, a mynediad at y rhyngwyd.
- Yn gwneud diarddel disgyblion o'r ysgol yn hen hanes.
- Yn gweithio gyda Mentrau Iaith a Chanolfannau Iaith i annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant.

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Byddwn ni'n cysoni buddsoddiad hirdymor mewn gwasanaethau gyda strategaethau hirdymor ar gyfer atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Rydyn ni'n deall bod y term BAME yn aml yn ddadleuol, a bod perygl iddo symleiddio dwysedd ac amrywiaeth yr heriau a wynebir gan gysgodi grwpiau o fewn y term. Byddwn yn ymgynghori'n barhaus ar y termau a ffefrir.

Mae Plaid Cymru'n cydnabod bod anoddefgarwch hiliol, ethnig a chrefyddol yn systemig ac yn sefydliadol. Rydyn ni'n ymroddedig i drechu Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth, agweddau gwrth-ymfudol, agweddau gwrth-Sipsiwn a Theithwyr Roma, a phob ffurf ar hiliaeth a rhagfarn mewn gwleidyddiaeth, yn ein plaid ni, ar ein strydoedd, ar-lein ac yn ein cyfryngau.

Byddwn yn creu ac yn gweithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil i Gymru, gan fwrw ymlaen gydag adroddiad manwl ac argymhellion yr Athro Ogbonna ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ym maes addysg, byddwn ni'n mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o wahanol gefndiroedd cartref. Byddwn ni'n gweithredu argymhellion adroddiad Charlotte Williams ar Gymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a Cynefin yn y Cwricwlwm Newydd.

Byddwn ni'n gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a darparwyr hyfforddiant addysgu eraill i sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi ar bob cam yn eu gyrfa ym maes arfer gwrth-hiliol, cymhwysedd diwylliannol, sut i adnabod ac ymateb yn effeithiol i hiliaeth, ac i ddatblygu amrywiaeth go iawn yn y cwricwlwm.

Yn ein gweithleoedd, byddwn ni'n cyflwyno arferion llunio rhestrau byrion dienw i'n prosesau, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y sector cyhoeddus yn ymgorffori'r rhain er mwyn

dileu rhagfarn oherwydd manylion personol fel enw / cod post / dyddiad geni.

Byddwn ni'n hyrwyddo hyfforddiant gwrth-hiliol fel rhagfarn ddjarwybod ac ystrydebu rhywedd. Bydd cynlluniau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cyflwyno i baratoi pobl BAME i lwyddo mewn prosesau recriwtio, ac i fynd ymlaen i rolau rheoli. Rydyn ni'n ymrwymo i dargedau i gynyddu cynrychiolaeth BAME ar bob lefel o'r gweithlu. Byddwn ni'n cefnogi cyflogwyr i gydnabod ac i ystyried gwyliau crefyddol ac arferion crefyddol yn y gweithle.

Mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol, byddwn ni'n cyhoeddi data ethnigrwydd mewn perthynas â bylchau cyflog, etholiadau, penodiadau cyhoeddus a chanlyniadau iechyd, ynghyd â gwella dulliau categoraiddio ethnigrwydd yng ngwaith cipio data cyrff cyhoeddus Cymru. Byddwn ni'n ariannu mwy o raglenni gwrth-hiliaeth, mentora a chysgodi, ac yn ymchwilio i ddiwylliant cyrff cyhoeddus a gwleidyddol ar bob lefel i nodi rhwystrau posibl. Byddwn ni'n annog pleidiau gwleidyddol a chyrff gwleidyddol a chyhoeddus yn agored i ystyried cymryd camau cadarnhaol cyfreithlon i sicrhau canlyniadau cyfartal sy'n adlewyrchu cyfansoddiad ethnig etholaethau.

Ym maes iechyd a thai, byddwn ni'n gweithredu argymhellion Grŵp Cyngori Covid BAME Llywodraeth Cymru, ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r anghenion tai a'r pryderon fforddiadwyedd sy'n benodol i gymunedau BAME.

Mudwyr, Ffoaduriaid a Phobl sy'n Ceisio Lloches

Bydd Plaid Cymru'n cadw'r nod i Gymru ddod yn Genedl Noddfa, gan gynhyrchu strategaeth Ymfudo newydd i Gymru gyda chamau, amserlenni, a chyllideb glir. Rydyn ni'n ymrwymo i leddfu profiad mudwyr a phobl sy'n ceisio lloches. Bydd hyn yn cynnwys rhoi diwedd ar amodau 'Dim Hawl i Arian

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Cyhoeddus' ac yn cael gwared â'r ffioedd gofal iechyd i bobl nad ydynt yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig yn GIG Cymru.

Byddwn ni'n gwneud plant a phobl ifanc mudol yn gymwys ar gyfer grantiau addysgol, gan gynnwys y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Prydau Ysgol am Ddim, a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Bydd hyn yn rhoi mynediad i bob mudwr a pherson sy'n ceisio lloches at wasanaethau cyhoeddus pan fydd eu hangen arnynt.

LHDT+

Mae Plaid Cymru'n ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod angen clywed a chadarnhau lleisiau a phrofiadau pobl LHDT+, a byddwn yn parhau i fod yn weithgar yn hyrwyddo hawliau LHDT+.

Ym maes addysg, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gadw cofrestr o ddigwyddiadau bwlio'n ymwneud â rhywioldeb, i weithredu lle bo angen, ac i gynnwys disgyblion mewn mentrau gwrth-fwlio.

Byddwn yn sicrhau bod cydberthnasau a phrofiadau'r gymuned LHDT+ – gan gynnwys cymunedau traws, anneuaid, ac anrhywiol – yn cael eu cynnwys yn elfen statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y cwricwlwm newydd, ym mhob lleoliad ysgol, a bod hyfforddiant ar gael i athrawon.

Rydyn ni'n ymrwymo i hyrwyddo cynhwysiant LHDT+ drwy'r gymdeithas, gan gynnwys ym mhob gweithle.

Byddwn ni'n hyrwyddo cyfranogiad pobl LHDT+ mewn chwaraeon, fel rhan o ymdrechion ehangach tuag at ffyrdd iachach o fyw, ac yn gweithio gyda chlybiau a sefydliadau i fod yn draws-gynhwysol, ac i leihau ymddygiad homoffobaidd a rhywiaethol.

Byddwn ni'n parhau i frwydro dros gydraddoldeb i bobl draws. Ar ôl sicrhau cyllid rheolaidd i Glinig Hunaniaeth Rhywedd Cymru, bydd Plaid Cymru'n gweithio i wella'r ddarpariaeth ac i sicrhau mynediad prydlon at ei wasanaethau a'i gymorth.

Rydyn ni'n cefnogi diwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd i gyflwyno proses syml, ddad-feddygol, sy'n seiliedig ar hunan-ddatgan ac sy'n unol ag arfer gorau yn rhyngwladol. Byddwn ni'n ceisio datganoli'r grymoedd sydd eu hangen i gyflwyno'r newid hwn, a byddwn ni'n amddiffyn hawliau pobl draws i barhau i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau yn unol a'u hunaniaeth rhywedd.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi ymdrechion i gydnabod ac i amddiffyn pobl anrhywiol ac anneuaid yn llawn rhag gwahaniaethu yn ôl y gyfraith.

Pobl hŷn

Mae pobl hŷn ledled Cymru wedi profi effeithiau iechyd a lles Covid-19 yn ddifrifol. Mae'r firws yn achosi bygythiad llawer mwy i bobl dros 70 oed nag unrhyw grŵp oedran arall.

Yn ogystal â'n polisïau ym meysydd iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai, bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n cefnogi'r canlynol:

- Diogelu gwerth Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer pensiynwyr drwy gadw'r clo triphlyg a mynediad cynhwysol at fanteision allweddol fel y drwydded deledu, pàs bws, a thaliadau tanwydd yn y gaeaf.
- Galwadau i roi mynediad cynnar at Bensiwn y Wladwriaeth i'r rhai sydd o fewn tair blynedd i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac yn methu â gweithio oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu salwch.

Cyfiawnder a Chydraddoldeb

Tan y bydd polisi Lles wedi'i ddatganoli'n llwyr, byddwn ni'n cyflwyno Cynllun Gweithredu i sicrhau bod mwy o'r rhai sydd â hawl i gredyd pensiwn yn cofrestru amdano.

Anabledd

Mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu problemau iechyd, cymdeithasol ac economaidd yr oedd pobl anabl eisoes yn eu hwynebu, ac wedi creu anawsterau a bylchau newydd mewn gwasanaethau i lawer. Mae Plaid Cymru'n ymroddedig i liniaru anawsterau a chael gwared â rhwystrau o'r fath drwy agwedd ryngblethol. Byddwn ni:

- Yn sefydlu cynlluniau cyflogaeth cysgodol i bobl sydd angen amgylchedd mwy cefnogol i ddychwelyd i'r gwaith.
- Yn gofyn i gyflogwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog anabledd.
- Yn sicrhau bod awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn darparu tai mwy addas i bobl anabl. Bydd gan bob ysgol fynediad priodol ar gyfer disgyblion sy'n gorfforol anabl.
- Yn darparu cymorth gwell i bobl ag anawsterau dysgu, gan gynnwys cynyddu nifer y nyrsys arbenigol mewn lleoliadau ysbyty i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth ddarparu gwasanaethau iechyd.
- Yn gweithio gyda phobl ddall, pobl â golwg rhannol, pobl fyddar, a'r rhai sy'n profi colled clyw, y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, a gweithwyr proffesiynol, i ddatblygu strategaethau cenedlaethol i sicrhau mynediad cydlynus a theg at wasanaethau.

Niwroamrywiaeth

Mae Plaid Cymru'n credu y dylid ystyried niwroamrywiaeth fel mater cydraddoldeb, gyda gofyn i wasanaethau cyhoeddus wneud addasiadau rhesymol wrth ddarparu gwasanaethau.

Byddwn ni'n pasio Deddf Awtistiaeth i Gymru, sy'n defnyddio agwedd ar sail hawliau ar gyfer pobl ag awtistiaeth, neu y tybir bod ganddynt awtistiaeth ond nad ydynt wedi cael diagnosis eto.

ANNIBYNNIAETH A GWLADWRIAETH NEWYDD CYMRU

Crynodeb

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none">– Cynnal refferendwm annibyniaeth yn ystod ein tymor cyntaf yn y llywodraeth.– Creu Comisiwn Cenedlaethol statudol i oruchwylio'r broses fydd yn arwain at y refferendwm, gan gynnwys drafftio Cyfansoddiad i Gymru gydag ymgynghori eang.– Sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru a datganoli'r heddlu a chyfiawnder, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.– Cyflwyno Gorchymyn i geisio datganoli grym ar unwaith dros faterion sydd wedi'u cadw'n ôl ar hyn o bryd, gan gynnwys rheilffyrdd, lles, darlledu, prosiectau ynni, ac Ystadau'r Goron. | <ul style="list-style-type: none">– Cyd-gynhyrchu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu polisi, a chreu Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, sy'n rhannu diwylliant a gweledigaeth ar draws pob sefydliad yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.– Cynnal archwiliad manwl o sut dylai Cymru annibynnol ymgysylltu â gwledydd eraill Prydain. |
|--|---|



Annibyniaeth a Gwladwriaeth newydd Cymru

Annibyniaeth i Gymru

Dylai penderfyniadau ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru fod yn nwylo pobl Cymru, heb ddim amwysedd.

Yn unol â hynny, byddwn ni'n ceisio pwerau gan San Steffan i Gymru ar wneud penderfyniadau ar gynnal refferendwm ar annibyniaeth i Gymru.

Byddwn ni'n cyflwyno Gorchymyn i geisio datganoli grym ar unwaith dros faterion sydd wedi'u cadw'n ôl ar hyn o bryd, gan gynnwys rheilffyrdd, lles, prosiectau ynni, ac Ystâd y Goron.

Ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn, bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n cyflwyno Ddeddf Ymreolaeth i Gymru i baratoi'r ffordd ar gyfer cynnal refferendwm annibyniaeth yng nghanol y degawd hwn.

Bydd creu Comisiwn Cenedlaethol statudol yn rhan ganolog o'r Ddeddf Ymreolaeth, i oruchwylio'r broses yn arwain at refferendwm yn ystod ein tymor cyntaf yn y llywodraeth.

Bydd y Ddeddf yn grymuso'r Comisiwn i sefydlu Cynulladau Dinasyddion ymgynghorol, i gynnal arolygon a refferenda, i lunio Cyfansoddiad ar gyfer Cymru annibynnol, ac i archwilio cydberthnasau yn y dyfodol gyda gweddill y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

Bydd union amseriad y refferendwm annibyniaeth yn ein tymor cyntaf yn y llywodraeth yn ddibynnol ar gyflymder digwyddiadau, gan gynnwys:

- I ba raddau y bydd Llywodraeth Geidwadol San Steffan yn parhau i danseilio'r setliad datganoli.
- Camau tuag at annibyniaeth yr Alban.
- Newid gwleidyddol posib yn y gydberthynas rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth.

Mae pwysau'r digwyddiadau hyn a digwyddiadau eraill a allai symud yn gyflym yn golygu bod Cymru'n wynebu perygl go iawn o gael ei gadael ar ôl yng ngweddillion y Deyrnas Unedig, mewn ffurfiad newydd Cymru-a-Lloegr. O ran pwerau, gallai hynny olygu y bydd Cymru, yn ymarferol, yn dod yn ategyn i Orllewin Lloegr. Mae'r posibilïad hwnnw'n ffactor sylweddol y tu ôl i'r cynnydd presennol mewn cefnogaeth i annibyniaeth i Gymru. Mae pobl Cymru'n dweud wrthon ni nad ydyn nhw'n fodlon cael eu gadael ar ôl. Ethol Llywodraeth Plaid Cymru yw'r unig ffordd o warantu y gallwn ni greu Cymru newydd fel rhan o'r teulu byd-eang o genhedloedd annibynnol.

Awdurdodaeth i Gymru

Bydd Llywodraeth Plaid Cymru yn rhoi mesurau ar waith ar unwaith i greu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, fel yn achos yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Byddwn ni'n pwysu i ddileu'r hawliau sydd gan San Steffan ar hyn o bryd o ran un awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ac i gael cyllid digonol i ddilyn datganoli grymoedd cyfiawnder. Oherwydd toriadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu bron i 40 y cant o'r gwariant Cyfiawnder yng Nghymru, er nad yw Cyfiawnder yn faes datganoledig, sy'n anghynladwy.

Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn paratoi llwybr ar gyfer creu awdurdodaeth i Gymru, gan ddilyn argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Drwy wneud hynny, bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cymryd cyfrifoldeb dros ddod â'r swyddogaethau cyfiawnder amrywiol ac anghydlynus sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd at ei gilydd.

Mae angen ein hawdurdodaeth ein hunain arnon ni i fynd i'r afael â'r rhaniad mewn cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth San Steffan ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru,

Annibyniaeth a Gwladwriaeth newydd Cymru

a Llywodraeth Cymru ar gyfer polisïau cymdeithasol, iechyd, addysg a datblygu economaidd. Mae absenoldeb awdurdodaeth ar wahân yn arwain at anfanteision difrifol i Gymru, nad yw Lloegr, yr Alban, na Gogledd Iwerddon yn eu profi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Anallu i ddyrannu cyllid mewn modd cydlynus.
- Cymhlethdod sy'n arwain at wastraffu adnoddau.
- Diffyg polisïau cydlynus ac atebol.

Cyfansoddiad Cymru

Bydd y Comisiwn Cenedlaethol yn cael y dasg o ddrafftio Cyfansoddiad ar gyfer Cymru annibynnol. Bydd gofyn iddo ymgynghori drwy Gynulladau Dinasyddion, gan ystyried amrywiaeth a chynhwysiant.

Dylai Cyfansoddiad Cymru gynnwys:

- Datganiad bod sofraniaeth Cymru yn nwylo pobl Cymru.
- Disgrifiad a rôl sefydliadau llywodraethu Cymru, ynghyd â hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion.
- Y dylai'r hawliau a'r cyfrifoldebau hynny ymestyn y tu hwnt i'r gwleidyddol a'r cyfreithiol yn unig, i gynnwys hawliau a chyfrifoldebau cymdeithasol ac economaidd.
- Y dylai ddefnyddio arferion gorau o bob rhan o'r byd, yn enwedig cyfansoddiadau sydd wedi'u llunio ar gyfer cenhedloedd bach mewn sefyllfaoedd tebyg i Gymru.

Cydberthnasau rhwng gwledydd Prydain

Mae'n gyffredin i wledydd annibynnol fod yn rhan o strwythurau ehangach sy'n cynnwys gwledydd cyfagos, yn amrywio o gytundebau masnach rydd i undebau gwleidyddol llac fel yr Undeb Nordig rhwng gwledydd Sgandinafia, i gydffederasiynau fel Benelux (sef undeb rhwng Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg), ac yn wir, yr Undeb Ewropeaidd ei hun.

Mae'r cysylltiadau agos y mae Cymru a'r Alban wedi'u creu gyda Lloegr dros gyfnod o ganrifoedd yn gwneud yr achos dros gydberthynas agos, ond gyda newidiadau radical, rhwng cenhedloedd yr ynysoedd hyn ynghyd â gweddill Ewrop.

Bydd y Comisiwn Cenedlaethol statudol, a fydd wedi'i sefydlu gan y Ddeddf Ymreolaeth, yn cael y dasg o gasglu safbwyntiau ar gysylltiadau a strwythurau arfaethedig rhwng cenhedloedd Prydain.

Cenedl newydd wedi'i thrawsnewid

Byddwn ni'n gwneud y gwaith sylfaenol i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ehangach a hirdymor ar gyfer dyfodol Cymru, wrth i ni geisio codi cenedl annibynnol newydd, gynaliadwy, gyfartal a chymdeithasol gyfiawn – Cenedl Gyfartal lle mae Pawb yn Gydradd.

Llywodraeth effeithiol, gwlad sy'n gwneud yn dda

Byddwn yn cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol i lywio nid yn unig Llywodraeth Cymru ond hefyd y gwasanaeth cyhoeddus ehangach a phartneriaid allweddol eraill tuag at genhadaeth a rennir ar gyfer 2030, gydag amcanion cenedlaethol diriaethol a dangosyddion cenedlaethol ar gyfer y wlad gyfan, yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn ni'n cyflwyno cyfres syml o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn gyffredinol, gan gyfuno gwaith adrodd ar wariant gyda'r canlyniadau a gyflawnir ym mhob maes polisi.

Byddwn yn cryfhau peirianwaith y llywodraeth ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon a godir a'r argymhellion a wneir gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd.

Annibyniaeth a Gwladwriaeth newydd Cymru

Democratiaeth amrywiol wedi'i thrawsnewid

Mae dros 20 mlynedd wedi bod ers i'r Cynulliad gynt gael ei gynnull yn 1999, ac mae bellach yn bryd mynd ati i bwysu a mesur, a sicrhau bod ein Senedd wedi'i grymuso i gyflawni'r swyddogaeth y mae'n anochel y bydd hi'n ei chwarae yn y degawdau i ddod, fel cartref democratiaeth Cymru a deddfwrfa gwladwriaeth annibynnol. Rydyn ni'n gwybod ers 2004 bod y Senedd yn rhy fach i gyflawni ei rôl o ddal llywodraeth y dydd i gyfrif. Er gwaetha'r datblygiadau mawr tuag at gydraddoldeb rhywedd yn nyddiau cynnar y Senedd, mae'n rhaid i ni nawr weithredu i sicrhau bod ein Senedd a'n democratiaeth ehangach yn adlewyrchu ein cenedl fodern yn ei holl amrywiaeth, ac yn adlewyrchu lleisiau a dyheadau dinasyddion Cymru.

Byddwn ni felly'n gweithredu argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn benodol ar y Bleidlais Sengl Drosgrwyddadwy, cwotâu rhywedd, ac ehangu'r Senedd.

Byddwn ni hefyd yn ystyried a ellir cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd peirianweithiau allweddol o gwmpas y ddeddfwrfa ymhellach, fel Bwrdd Taliadau, Swyddfa Ffioedd, a Chomisiynydd Safonau'r Senedd, sy'n cyflawni rôl allweddol yn ngweithrediad effeithiol ein democratiaeth ac yn darparu atebolrwydd a sicrwydd i'r cyhoedd.

Byddwn yn cefnogi ymdrechion i sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn ddarostyngedig i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg sy'n gweithredu ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnal yr egwyddor bwysig y dylai'r Comisiwn barhau i fod yn atebol i'r Senedd.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r defnydd o 'Senedd' fel enw swyddogol y ddeddfwrfa yn y ddwy iaith, ac yn ei normaleiddio, gan geisio cyfleoedd i ffurfioli mewn cyfraith yr hyn sydd bellach wedi dod yn arfer bob dydd.

Byddwn ni'n gweithredu fel Llywodraeth ar yr egwyddor nad oes gan neb fonopoli ar syniadau da, a byddwn ni'n ceisio sicrhau effeithiolrwydd sianeli i fwydo syniadau da i'r llywodraeth. Byddwn ni'n anelu i gefnogi cynigion deddfwriaethol posib gan Aelodau meinciau cefn y Senedd lle bo modd, ac yn anelu i weithredu'n gyflym ac yn bragmataidd mewn meysydd lle mae consensws gwleidyddol ynghylch cynigion deddfwriaethol.

Gweinyddiaeth y Dyfodol

Byddwn ni'n creu Gweinyddiaeth y Dyfodol newydd, a fydd yn gyfrifol am feysydd digidol, arloesedd, technoleg, a chynllunio hirdymor. Ein nod yw troi'r Llywodraeth yn bwerdy o arloesedd, a meithrin entrepreneuriaeth a chreadigrwydd o fewn y Llywodraeth.

Un o flaenoriaethau'r Weinyddiaeth newydd fydd gwneud penderfyniadau'r llywodraeth yn addas at y dyfodol, gan gynnwys penderfyniadau cyllideb, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn erbyn yr effaith y byddan nhw'n ei chael ar genedlaethau'r dyfodol.

Bydd Tîm Arloesi yn elfen allweddol o'r adran newydd hon. Bydd y tîm hwn yn defnyddio ymagwedd arbrofol tuag at syniadau newydd – profion cyflym yn y byd go iawn lle bo'n bosib, gan ehangu'r defnydd o ddulliau trylwyr fel hap-dreialon dan reolaeth.

Byddwn ni'n ceisio gwreiddio'r defnydd o ystod eang o ddulliau, o waith cynllunio gyda phobl yn ganolog iddo, i economeg ymddygiadol a phenderfyniadau ar sail data, i wella polisi a'i ddull gweithredu. Byddwn ni'n cyflymu'r defnydd o ddysgu peirianyddol a Deallusrwydd Artiffisial mewn gwasanaethau a pholisi cyhoeddus, gan osod fframwaith moesegol clir i ddiogelu yn erbyn eu camddefnydd.

Bydd y Weinyddiaeth yn cynnal archwiliad o ba mor barod ydyn ni am risgiau sylweddol, gan sicrhau y caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Annibyniaeth a Gwladwriaeth newydd Cymru

Cyd-gynhyrchu gyda llywodraeth leol a chreu Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos mai awdurdodau lleol yw adain fwyaf effeithiol y llywodraeth o ran darparu polisi, boed hynny ym maes iechyd y cyhoedd, addysg, neu ymyrraeth economaidd. Felly, byddwn ni'n ceisio cydberthynas gydweithredol newydd rhwng Llywodraeth Cymru a 22 awdurdod unedol Cymru ar sail cydgynhyrchu wrth greu a gweithredu polisi. Yn ein tymor cyntaf, ac wrth i ni fwrw ati gydag adfer ar ôl Covid, bydd y gydberthynas hon yn arbennig o bwysig ar gyfer gweithredu ein polisiâu addysg, tai a chyflogaeth.

Byddwn ni'n creu Cyngor Llywodraeth Cymru, gan ddod ag arweinwyr ac uwch swyddogion awdurdodau at ei gilydd gyda Gweinidogion ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, i gydlyn gwaith ar y cyd rhwng llywodraeth ganolog a lleol. Bydd y cydberthnasau ar sail cydraddoldeb, gan greu safbwynt a rennir o raglen waith a chyflawni. Byddwn ni'n darparu buddsoddiad ychwanegol fel cymhelliant i gydweithio.

Byddwn ni'n creu rhwydwaith o Swyddfeydd Rhanbarthol y Llywodraeth, dan arweiniad Prif Swyddogion Rhanbarthol, a fydd yn gyfrifol am gydlyn y gwaith o gyflawni ein strategaeth ofodol genedlaethol. Yn y Cymoedd ac yn Arfor, bydd y rôl hon yn cael ei goruchwyllo gan ein hasiantaethau datblygu newydd ar gyfer y rhanbarthau hyn.

Fel rhan o'n hymagwedd gyfunol newydd, byddwn ni'n datblygu cynigion ac amserlen ar gyfer creu Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru. Bydd gan y gwasanaeth hwn gyd-ddiwylliant a chyd-weledigaeth, gan alluogi rhannu a chyfnwid staff ac arbenigedd o fewn a rhwng pob sefydliad sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i rymoedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Sifil sydd wedi'u cadw'n ôl gan San Steffan gael eu trosglwyddo. Bydd Academi Cymru y Llywodraeth yn dod yn Ysgol Genedlaethol ar gyfer Llywodraethu a Rheolaeth Gyhoeddus, yn gysylltiedig â sector prifysgolion Cymru. Bydd ganddi gyllideb uwch, Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol a Chadeirydd annibynnol. Bydd yn datblygu rhaglen ymchwil ryngwladol yn ymwneud â llywodraethu mewn gwledydd bach, ac yn mynd i gytundebau partneriaeth gydag ysgolion rheoli eraill fel Ysgol Llywodraethiant John F. Kennedy yn Harvard, ac École nationale d'administration (ENA) yn Ffrainc.

Gwasanaeth Digidol Cymru

Byddwn ni'n creu Gwasanaeth Digidol Cymru, dan arweiniad y Prif Swyddog Digidol, i wasanaethu'r sector cyhoeddus cyfan. Ei rôl fydd troi Cymru'n wlad wedi'i galluogi'n ddigidol. Bydd:

- Yn datblygu opsiynau ar gyfer seilwaith digidol Cymru gyfan, gan greu safonau tebyg, cofrestrfeydd a rennir, gwasanaethau y gellir eu rhyngweithredu, a meysydd eraill lle mae modd i Lywodraeth Cymru, asiantaethau cyhoeddus a llywodraeth leol gydweithio'n well.

Annibyniaeth a Gwladwriaeth newydd Cymru

- Yn cynllunio gwasanaethau newydd ar draws y sector cyhoeddus, gan adeiladu llywodraeth newydd ar y cwmwl o'r gwaelod i fyny, a chanolbwyntio ar y gwasanaethau sydd eu hangen ar ddinasyddion, cymunedau, busnesau a sefydliadau eraill. Byddwn ni'n gosod targed i symud holl wasanaethau'r llywodraeth i'r cwmwl erbyn 2023.
- Yn darparu un hunaniaeth ddigidol o ansawdd uchel i holl ddinasyddion Cymru gael mynediad at wasanaethau digidol, a fydd yn galluogi cael mynediad at wybodaeth gyfredol am gymhwysedd ar gyfer cymorth a chefnogaeth gan y Llywodraeth ym mhob maes. Erbyn 2022, bydd holl wybodaeth iechyd personol, boed hynny'n ofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal cymunedol neu ofal cymdeithasol, yn drosglwyddadwy ledled y system, gan alluogi cleifion a meddygon, gyda chaniatâd priodol o'r arferion gorau clinigol, gael mynediad at holl wybodaeth berthnasol claf.

Byddwn ni'n ymrwymo i Darged Gwariant Digidol – canran o wariant y Llywodraeth a gaiff ei gwario ar wasanaethau digidol drwy Adolygiad Gwario Digidol penodol.

Byddwn ni'n cyhoeddi rheol 'mewngofnodi unwaith' ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus – bod hynny'n ganolog, hyd braich, y GIG neu'n lleol – a bydd rhaid iddo fod ar waith erbyn diwedd 2022 ar yr hwyraf.

Byddwn ni'n sicrhau bod rheolau preifatrwydd cadarn ar waith i alluogi unigolion i reoli ac i ddiogelu eu preifatrwydd a deall sut mae data amdanyn nhw'n cael ei ddefnyddio.

CYMRU A'R BYD

Crynodeb

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">– Newid targed Cymru ar gyfer dim allyriadau carbon o 2050 i 2035, gan ddangos ein hymrwymiad i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.– Yn meithrin partneriaeth agos gydag Iwerddon, drwy sefydlu swyddfa gynrychioliadol yn Nulyn.– Datblygu strategaeth allforio i fusnesau Cymru, gan gynnwys cysylltiadau agos gyda rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd, lle mae cydberthnasau wedi'u sefydlu ganddon ni eisoës.– Archwilio opsiynau i Gymru annibynnol ddod yn aelod o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop. | <ul style="list-style-type: none">– Gwella rhaglen Cymru ac Affrica drwy estyn cefnogaeth i grwpiau yng Nghymru sydd eisoës yn gweithio mewn dros 25 o wledydd Is-Sahara.– Treialu prosiect ar gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael Cymru ar gyfer addysg uwch neu gyflogaeth gychwynnol i greu cronfa ddata o ddoniau ar wasgar. |
|--|--|



Cymru a'r Byd

Cysylltiadau Rhyngwladol

Bydd Plaid Cymru'n datblygu strategaeth ryngwladol i Gymru yn seiliedig ar hyrwyddo ein gwerthoedd, gan gynnwys democratiaeth, datblygu cynaliadwy, a chyfleoedd i bawb waeth beth yw eu rhywedd, hil, neu nodweddion gwarchodedig eraill.

Mewn ymateb i'r newid hinsawdd, a gan adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn ni'n gweithredu ar ymrwymiad Cymru i sefydlu ei hun fel cenedl gyfrifol yn fyd-eang. Yn benodol, byddwn ni'n newid y targed i gyrraedd dim allyriadau carbon o 2050 i 2035, gan ddangos ein hymrwymiad i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r British Council i hyrwyddo Cymru a diwylliant Cymru'n well ar draws y byd, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau datblygu rhyngwladol i rymuso cymunedau ar draws y de byd-eang, gan gefnogi a datblygu cysylltiadau a rhaglenni cyfnewid presennol gydag Affrica Is-Sahara a chodi ymwybyddiaeth yng Nghymru.

Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda llywodraethau is-wladwriaethol sy'n rhannu nodweddion cyffredin â Chymru, fel dwyieithrwydd, a byddwn ni'n parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda Thalaith Chubut yn yr Ariannin.

Byddwn ni'n ceisio aelodaeth gyswllt i Gymru yn UNESCO, y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth, a'r Sefydliad Morol Rhyngwladol.

Byddwn ni'n sefydlu cydberthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Gonsylaidd yng Nghymru fel man cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth i annog mwy o gynrychiolaeth ddiplomyddol yng Nghymru, gan ddod â busnesau allweddol ynghyd, gan rannu nod o wella economi Cymru.

Mae'n hanfodol bod Cymru'n parhau i dyfu maint ei hymgysylltiad diwylliannol rhyngwladol, yn enwedig wrth ystyried effeithiau niweidiol Brexit ar ddiwylliant. Byddwn ni:

- Yn pwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig iadfer, drwy brotocol i gytuniad y DU-UE, ryddid i symud heb fisa yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol o Gymru a'r Deyrnas Unedig, ynghyd â mynediad at raglenni Ewrop Greadigol.
- Yn cynnal cymorth ariannol cryf ar gyfer gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Cydberthynas Cymru gyda'r Undeb Ewropeaidd

Ar ôl Brexit, mae'r rhagolygon y bydd y Deyrnas Unedig yn ail-ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn y tymor canolig yn annhebygol. Serch hynny, byddwn ni'n dadlau'r achos dros y manteision, i Gymru a'r Deyrnas Unedig gyfan, o gael cysondeb rheoleiddiol agosach gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Dyhead hirdymor Plaid Cymru yw y bydd Cymru annibynnol yn ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, yn amodol ar refferendwm yn y dyfodol ar ôl cael annibyniaeth. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Plaid Cymru'n ceisio pob llwybr i ddwysáu ein perthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn ni:

- Yn sefydlu uned ganolog fel rhan o Swyddfa'r Cabinet i ymdrin â materion rhyngwladol, ac yn benodol i yrru polisi cryf a chyson ar gyfer ymgysylltu ag Ewrop.
- Yn cryfhau presenoldeb Cymru ym Mrwsel drwy Dŷ Cymru.
- Yn meithrin partneriaeth agos gydag Iwerddon, yn benodol drwy sefydlu swyddfa conswl Cymru yn Nulyn.

Cymru a'r Byd

- Yn adeiladu ar y Rhaglen Gyfnewid Rhyngwladol i Gymru ar gyfer Dysgu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, drwy geisio ei chysoni â rhaglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd.
- Yn datblygu partneriaethau presennol gyda chenhedloedd a rhanbarthau yn Ewrop, fel Llydaw, Gwlad y Basg, a Fflandrys, ac yn archwilio'r posibilrwydd o ychwanegu at eu nifer.
- Yn cynnal ac yn datblygu ymgysylltiad Cymru gyda rhwydweithiau Ewropeaidd fel y rhai sy'n hyrwyddo gwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant ac Amrywiaeth Ieithyddol.

Byddwn ni hefyd yn archwilio'r rhagolygon y gall Cymru annibynnol ddod yn aelod o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop, gyda'r nod o ddod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Bydd y Comisiwn Cenedlaethol statudol y byddwn ni'n ei sefydlu i oruchwyllo'r broses fydd yn arwain at refferendwm annibyniaeth yn cynnal archwiliad manwl o'r opsiwn hwn.

Strategaeth Allforio

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dim ond 4,300 o 105,360 o fentrau Cymru fu'n allforio yn ystod 2018, gyda thua 80 y cant o'r rheini yn allforio i'r Undeb Ewropeaidd a 50 y cant i farchnadoedd nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd adain rhyngwladol Ffyniant Cymru, ein hasiantaeth datblygu economaidd newydd, yn datblygu strategaeth gyda'r nod o ehangu nifer y busnesau bach a chanolig sy'n rhan o allforio a nodi marchnadoedd byd-eang lle mae modd iddyn nhw sefydlu mantais gymharol. Bydd y strategaeth yn cynnwys:

- Ehangu'r rhaglen Clystyrau Allforio sy'n darparu rhwydweithiau cymorth ar gyfer sectorau busnes allweddol.

- Nodi marchnadoedd rhyngwladol allweddol a pharu'r rhain â busnesau o Gymru sydd â mantais allforio gref gymharol.
- Meithrin capasiti allforio gydag ymgynghorwyr masnach rhyngwladol, gan ddarparu cymorth busnes un-i-un.
- Ehangu rhwydwaith Cymru o swyddfeydd tramor gan ganolbwyntio ar ranbarthau'r Undeb Ewropeaidd lle rydyn ni eisoes wedi sefydlu cysylltiadau, gan gynnwys Llydaw, Gwlad y Basg, Catalwnia, Fflandrys, Baden Württemberg, Bafaria, a Gogledd Rhein Westphalia.

Cymru Fyd-eang

Bydd Plaid Cymru'n datblygu'r bartneriaeth Cymru Fyd-eang rhwng British Council Cymru, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ymhellach. Yn benodol, byddwn ni'n parhau i gefnogi'r pum prosiect canlynol:

1. Affrica Is-Sahara

Byddwn ni'n gwella rhaglen Cymru ac Affrica drwy ymestyn cefnogaeth i'r grwpiau o Gymru sydd eisoes yn gweithio mewn dros 25 o wledydd yn Affrica Is-Sahara, ac yn adeiladu ar y gwaith penodol sydd wedi'i gyflawni yn Lesotho a Dwyrain Uganda. Yng Nghymru, byddwn ni'n tyfu partneriaeth Hub Cymru Wales sydd wedi tynnu sefydliadau ynghyd fel Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Affrica, y Panel Cyngori Is-Sahara, a Masnach Deg Cymru.

2. Gweithredu ar Goedwigoedd

Er mai coedwigoedd yw ysgyfaint ein planed, maen nhw'n cael eu difrodi ledled y byd ar gyfradd frawychus oherwydd ein galw am olew palmwydd, soi, cig eidion, a nwyddau amaethyddol eraill. Mae gan Gymru rôl yn gwrthsefyll y duedd hon. Bydd hyn yn cynnwys:

Cymru a'r Byd

- Parhau i weithio gyda phrosiect Maint Cymru, Menter Tyfu Coed Mynydd Elgon, a phartneriaid eraill yn Uganda.
- Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeddfu i roi diwedd ar fewnforio nwyddau sydd wedi achosi datgoedwigo.
- Cyflwyno targedau dim datgoedwigo ym mholisi caffael Cymru fel rhan o'n trosglwyddiad at ddefnyddio nwyddau cynaliadwy sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.
- Darparu cymorth i wledydd sy'n cynhyrchu er mwyn sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo a'u bod yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn deg i ffermwyr, cymunedau coedwigoedd, a Phobl Frodorol.

3. Masnach Deg

Byddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd o ymestyn mentrau fel Coffi 2020, sy'n prynu coffi gan ffermwyr sy'n rhan o brosiect Coed Mbale, a Siopa Teg gan Fair Do, sydd hefyd yn mewnforio coffi Masnach Deg ac Organig o Uganda.

4. Grymuso Menywod

Byddwn ni'n bwrw ymlaen gyda'r prosiect peilot rhywedd a chydaddoldeb sydd wedi'i bod yn digwydd yn Uganda a Lesotho, gyda'r nod o leihau camdriniaeth ddomestig, meithrin busnesau a sgiliau, a datblygu dysgu rhwng cyfoedion.

5. Trosglwyddo Iaith

Byddwn ni'n dwysáu arweinyddiaeth fyd-eang Cymru ym maes trosglwyddo iaith, ac yn gweithio gyda gwledydd a grwpiau iaith fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol UNESCO 2022-32.

Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar

Byddwn ni'n parhau â'r gwaith o ymgysylltu â Chymry ar wasgar ledled y byd, ym meysydd rhwydweithiau busnes, menter Enwogion a Chenhadon Cymru, a datblygu cysylltiadau byd-eang gyda myfyrwyr rhyngwladol a staff sydd wedi astudio a gweithio ym mhrifysgolion Cymru.

Yn ogystal, byddwn ni'n sefydlu prosiect peilot i brofi dichonoldeb olrhain a chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael Cymru i fynd i addysg uwch neu gyflogaeth gychwynnol, i sicrhau eu bod yn gwybod am gyfleoedd parhaus adref ac i greu cronfa ddata o ddoniau ar wasgar.

Heddwch a Diogelwch

Bydd Llywodraeth dan arweiniad Plaid Cymru yn gweithio i atal adnewyddu arfau dinistr torfol, fel Trident, ac yn gwrthod caniatáu iddyn nhw gael eu lleoli yng Nghymru nac yn nyfroedd Cymru.

Rydyn ni'n croesawu sefydlu Academi Heddwch Cymru. Byddwn ni'n gweithio gyda'r Academi i sicrhau bod heddwch yn ganolog yn strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, a bod Cymru'n gwneud cyfraniad tuag at ymchwil ac arfer a gaiff ei gydnabod yn fyd-eang.

